

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA, MPhil

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Nerys Ann Howells, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Owen Thomas, BA, LLB, MST

Golygydd Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPhil, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH GWERFUL MECHAIN AC ERAILL

golygwyd gan

NERYS ANN HOWELLS



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2001

© Prifysgol Cymru ©, 2001.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 13: 978 0 947531 41 6

ISBN 10: 0 947531 41 6

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Lluniwyd testunau cyfansawdd o'r cerddi gan ddangos y darlenniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os ceir darlenniad amrywiol mewn grŵp o llawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Os oes llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal wrth drafod trefn y llinellau. Fodd bynnag, os yw llinell yn anghyflawn, neu os yw gair neu eiriau'n annarllenadwy oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvi); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *(g)wedy*, &c.

Yn yr Eirfa ar ddiwedd y gwaith rhestrir y geiriau a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'). Rhestrir hefyd eiriau dieithr neu eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r arfer, gan gynnig aralleiriad ar eu cyfer. Yn y mynegeion i enwau priod rhestrir pob enw person a phob enw lle sy'n digwydd yn y cerddi.

Diolchiadau

Carwn gydnabod yn ddiolchgar y cymorth a gefais gan y canlynol wrth baratoi'r gyfrol hon: Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; Bwrdd Golygyddol a Golygydd Ymgynghorol y gyfres hon a Golygydd y gyfres, Dr Ann Parry Owen; Mr Daniel Huws a Mrs Glenys Howells. Hoffwn hefyd gydnabod fy nyled i'r Athro Gruffydd Aled Williams a Dr Marged Haycock a diolch iddynt am eu harweiniad cyson a'u hawgrymiadau gwerthfawr.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU.....	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a geiriau.....	xvi
GWAITH GWERFUL MECHAIN AC ERAILL	
RHAGYMATRODD	1
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1. Dioddefaint Crist (Gwerful Mechain).....	49
2. Angau a barn (Gwerful Mechain).....	63
3. I Anni Goch (Ieuan Dyfi).....	65
4. I ateb Ieuan Dyfi am gywydd Anni Goch (Gwerful Mechain).....	80
5. Cywydd llateaeth i Werful Mechain ac i yrru Llywelyn ap Gutun ati yn llatai (Dafydd Llwyd).....	84
6. Moliant i Werful Mechain (Dafydd Llwyd).....	90
7. I Lywelyn ap Gutun (Gwerful Mechain)	92
8. Ateb i'r cywydd llateaeth (Llywelyn ap Gutun)	96
9. Cywydd y gont (Gwerful Mechain).....	103
10. I wragedd eiddigus (Gwerful Mechain).....	106
11. Gwerful Mechain yn holi Dafydd Llwyd.....	108
12. Ymddiddan rhwng Dafydd Llwyd a Gwerful Mechain	110
13. Gwerful Mechain yn gofyn i Ddafydd Llwyd.....	112
14. Dafydd Llwyd yn ateb Gwerful Mechain	114
15. I'w gŵr am ei churo (Gwerful Mechain).....	115
16. Gwlychu pais (Gwerful Mechain).....	116
17. Llanc ym min y llwyn (Gwerful Mechain)	117
18. I'w morwyn wrth gachu (Gwerful Mechain).....	118
CERDDI AMHEUS EU HAWDURIAETH	
19. Pwy a gâr fwyaf? (?Dafydd ab Edmwnd a ?Gwerful Mechain).....	119

20.	Gwerful yn ateb Dafydd Llwyd (?Gwerful Mechain a ?Dafydd Llwyd).....	121
21.	Ynghylch ei thad (?Gwerful Mechain)	122
22.	Yr eira (?Gwerful Mechain).....	123
23.	Y bedd (?Gwerful Mechain)	124
	NODIADAU.....	125
	GEIRFA.....	175
	Enwau personau.....	181
	Enwau lleoedd	182
	LLAWYSGRIFAU	183
	MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF.....	193
	MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU.....	195

Byrfoddau

Llyfryddol

B	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd</i> , 1921–93
Bangor	Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru, Bangor
Bangor (Mos)	Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor
Barn	‘Llyfr y Barnwyr’ yn yr Hen Destament
P.C. Bartrum: WG1	P.C. Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 300–1400</i> (Cardiff, 1974)
P.C. Bartrum: WG2	P.C. Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 1400–1500</i> (Aberystwyth, 1983)
BaTh	<i>Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban</i> , gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
BD	<i>Brut Dingestow</i> , gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
BDG	<i>Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym, o grynhoad Owen Jones a William Owen</i> (Llundain, 1789)
BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
l Br	‘Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd’ yn yr Hen Destament
Brog	Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
ByCy	<i>Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940</i> (Llundain, 1953)
CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>

- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CLC² *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CMOC² *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. Dafydd Johnston (argraffiad diwygiedig, Pen-y-bont ar Ogwr, 1998)
- CO³ *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans gyda chymorth D.H. Evans (Caerdydd, 1997)
- CRC *Canu Rhydd Cynnar*, gol. T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1932)
- CTC C.T. Beynon Davies, ‘Cerddi’r Tai Crefydd’ (M.A. Cymru [Bangor], 1973)
- Cy *Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1877–1951
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGG *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGIA Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)

- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- Esgair Llawysgrif yng nghasgliad Esgair, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- EVW M.E. Griffiths, *Early Vaccination in Welsh with English Parallels* (Cardiff, 1937)
- EWSP *Early Welsh Saga Poetry*, ed. Jenny Rowland (Cambridge, 1990)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Gen ‘Genesis’ yn yr Hen Destament
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI2 *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans, Ann Parry Owen, W. Dyfed Rowlands ac Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)

- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSCMB ‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962)
- GSH *Gwaith Siôn ap Hywel*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisiardyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- GWL ii² *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550 Volume II*, ed. A.O.H. Jarman and Gwilym Rees Hughes, revised by Dafydd Johnston (Cardiff, 1997)

- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HPF J.Y.W. Lloyd, *The History of Powys Fadog* (6 vols., London, 1881–7)
- Huw Cae Llwyd, &c.: Gw Leslie Harries, 'Barddoniaeth Huw Cae Llwyd, Ieuan ap Huw Cae Llwyd, Ieuan Dyfi a Gwerful Mechain' (M.A. Cymru [Abertawe], 1933)
- IG *Gweithiau Iolo Goch*, gol. C. Ashton (Croes-
oswallt, 1896)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LGC *The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi*, ed. Tegid and Gwallter Mechain (Oxford, 1837–9)
- LlCy *Llên Cymru*, 1950–
- LlGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J.E. Lloyd: HW³ J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Math 'Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew' yn y Testament Newydd
- MED *Middle English Dictionary* (Ann Arbor, Michigan, 1963–)
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)

- Mont Coll *Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire, issued by the Powysland Club, 1868–*
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MWRL Catherine A. McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric* (Belmont, Massachusetts, 1991)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OBWV *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1962)
- OCD³ *The Oxford Classical Dictionary*, ed. Simon Hornblower and Antony Spawforth (third ed., Oxford, 1996)
- OED² *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G. Evans.
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- Sus 'Histori Susanna' yn yr Apocryffa
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–

- TWS Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987)
- TYP² *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCCR² Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (second ed., Cardiff, 1976)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- WVBD *The Welsh Vocabulary of the Bangor District*, ed. O.H. Fynes-Clinton (London, 1913)
- Wy Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	grff.	gorffennol
amhff.	amherffaith	gthg.	gwrthygyferbynier, -iol
amhrs.	amheronol	gw.	gweler
anh.	anhysbys	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
arg.	argraffiad	<i>id.</i>	<i>idem</i>
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
b.	benywaidd	ll.	lluosog; llinell
be.	berfenw	llau.	llinellau
bf. (f.)	berf, -au	m.	marw
<i>c.</i>	<i>circa</i>	myn.	mynegol
c. (g.)	canrif	n.	nodyn
C.C.	Cyn Crist	neg.	negydd, -ol
cf.	cymharer	O.C.	Oed Crist
Cym.	Cymraeg	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
cys.	cysylltair	pres.	presennol
d.g.	dan y gair	prff.	perffaith
dib.	dibynnol	prs.	person, -ol
diwyg.	diwygiad	pth.	perthynol
e.	enw	rh.	rhagenw, -ol
ed.	<i>edited by, edition</i>	S.	Saesneg
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
ffig.	ffigurol	td.	tudalen
g. (c.)	canrif	tt.	tudalennau
gol.	golygydd, golygydd gan	un.	unigol
grch.	gorchmynnol	vols.	volumes

Rhagymadrodd

Bywgraffyddol

Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am Werful Mechain. Yn ôl *Y Bywgraffiadur Cymreig*:

Gwerful Mechain (1462?–1500), bardd. Y cwbl a wyddys amdani yw mai merch Hywel Fychan o Fechain ym Mhowys oedd hi, ac ategir hynny yng nghywydd Dafydd Llwyd yn danfon Llywelyn ap y Gutun yn llatai ati.¹

‘Gwerful Mechain’ neu ‘Gwerful ferch Hywel Fychan’ y’i gelwir fynychaf yn y llawysgrifau, ond mewn dwy lawysgrif cyfeirir ati fel ‘Gwerful ferch Hywel Fychan o Fechain ym Mhowys’.² Fe’i cysylltir ag ardal Mechain yn sgil y ffurf boblogaidd ar ei henw ac ategir hynny gan y cyfeiriadau ati yn y cerddi ymryson. Er enghraifft, yng nghywydd Dafydd Llwyd yn anfon Llywelyn ap Gutun yn llatai at Werful cawn y disgrifiad hwn:

Gwerul, ferch ragorol fain
Hywel Fychan, haul Fechain,³

ac yn ei ateb i’r cywydd hwnnw dywed Llywelyn ap Gutun:

Trafael faith at Werful fain
Ddifai wych o ddwy Fechain.⁴

Cydymffurfia’r enw, felly, â’r patrwm cyffredin o enwi bardd ar ôl ei gartref neu ei fro, fel yn achos nifer o’r beirdd gwrywaidd, megis Ieuan Dyfi, Dafydd Llwyd o Fathafarn, Siôn Ceri, Lewys Môn, Guto’r Glyn a Hywel Cilan ymhlith eraill. Serch hynny, anarferol yw canfod enw merch yn cael ei gysylltu ag ardal benodol yn y modd hwn.

Cofnodir ach Gwerful gan P.C. Bartrum fel a ganlyn:⁵


¹ ByCy 306; cf. CLC² 301. Gw. hefyd Margaret Lloyd, ‘Gwerful Mechain (c. 1462–1500)’, *Poetry Wales*, 29 (April 1994), 42–5. Am drafodaeth ar ei dyddiadau, gw. tt. 16–18.

² LIGC 3048D [= Mos 145], 304 a LIGC 3057D [= Mos 161], 325.

³ 5.3–4. Ceir cyfeiriad arall at Werful fel merch *Howel Fychan haul fecha[i]n* yng nghywydd Syr Siôn Leiaf, gw. td. 9 isod.

⁴ 8.5–6.

⁵ P.C. Bartrum: WG1 ‘Idnerth Benfras’ 2, 3; P.C. Bartrum: WG2 ‘Idnerth Benfras’ 3(A). Diddorol yw nodi bod Siôn Ceri, fel Gwerful Mechain, yn hanu o lwyth Idnerth Benfras. Cysylltir ef â Llanwddyn yng nghwmwd Mochnant Uwch Rhaeadr, ac felly, yr oedd yntau, i bob pwrpas, yn perthyn i’r un ardal ac i’r un nythaid o bobl, gw. GSC 6.



Yn ôl Pen 139, 250, yr oedd Madog ab Einion yn uchelwr ym Mechain Is Coed a Mechain Uwch Coed a chyfeirir at ei fab fel Tudur o Is Coed. Cysylltir Tudur ap Madog yntau â Mechain Is Coed.⁶ At hynny, cofnodir mai gŵr o Lanfechain yng nghwmwd Mechain Is Coed oedd Hywel Fychan, tad Gwerful.⁷ Ymddengys hefyd fod Gwerful wedi priodi John ap Llywelyn Fychan a'i bod yn fam i ddwy ferch o'r enw Mawd.⁸ Priododd un o'r merched hyn Ruffudd ap Dafydd Llwyd o Ystrad Alun ac i'r llall briodi Roger Draper. Peth digon cyffredin fyddai galw dau blentyn wrth yr un enw petai'r plentyn cyntaf yn marw'n ifanc, ond y mae'n amlwg nad dyna a ddigwyddodd yn yr achos hwn. Y mae'n ddigon posibl, felly, mai un ferch a oedd gan Werful mewn gwirionedd a bod honno wedi priodi ddwywaith.

Hywel Fychan

Wrth drafod Dafydd Llwyd, y bardd o Fathafarn, dangosodd Dr Enid Roberts sut yr oedd rhwymau priodasol yn cysylltu teuluoedd Mathafarn ym mhlwyf Llanwrin â Llwydiarth ym mhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa, gan honni yn sgil hynny fod Gwerful Mechain ferch Hywel Fychan o Fechain, yswain Llwydiarth, yn berthynas gwaed i Ddafydd Llwyd.⁹ Dywed Dr


⁶ P.C. Bartrum: WG1 'Idnerth Benfras' 2.

⁷ *Ib.* 3.

⁸ *Ib.* 'Bleddyn ap Cynfyn' 42.

⁹ Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981, 12.

Roberts ymhellach, ‘Y mae traddodiad yn ei chysylltu â Chaer-gai a geill hynny fod yn wir gan fod teulu Llwydiarth yng Nghaer-gai erbyn tro’r ganrif.’¹⁰ Ceir digon o dystiolaeth yn yr achau i gadarnhau bod y ddau deulu hyn wedi cymysgu droeon drwy briodas; serch hynny, cyfeiliornus yw’r dyb fod Gwerful Mechain yn ferch i Hywel Fychan o Gaer-gai, disgynnydd i deulu Fychaniaid Llwydiarth.¹¹



Er i Dr Roberts honni bod Gwerful Mechain yn hanu o deulu Fychaniaid Llwydiarth, dengys yr achau mai i lwyth Idnerth Benfras yn hytrach nag i lwyth Llwydiarth, sef Aleth, yr oedd hi’n perthyn; nid ‘yswain Llwydiarth’ oedd Hywel Fychan o Fechain. Fel y gwelir uchod, y mae’n ddigon gwir fod gan Hywel Fychan o Gaer-gai ferch o’r enw Mari,¹³ ac y mae hynny, o bosibl, yn esbonio paham y galwodd rhai ysgolheigion y bardd wrth yr enw Mari Fychan. Yn ôl Isaac Foulkes, er enghraifft, enw barddol oedd Gwerful Mechain ac nid enw go iawn ar ferch o gig a gwaed,¹⁴ ac fe’i gelwir yn ‘Mary Vaughan or Fychan’ gan Richard Williams yn ei erthygl ‘Montgomeryshire Worthies’.¹⁵

Gwerful Fychan

Ymddengys fod cryn ddrwsych, cambriodoli cerddi a chymysgu traddodiadau wedi digwydd rhwng Gwerful Mechain a Gwerful ferch Ieuan Fychan, gwraig Tudur Penllyn,¹⁶ a bod hynny’n deillio o draddodiad o gymysgu a ddatblygodd rhwng Gwerful Mechain a Gwerful Fychan Caer-gai. Yn ei

¹⁰ *Ib.*

¹¹ HPF vi, 37.

¹² P.C. Bartrum: WG1 ‘Aleth’ 7, ‘Seisyll’ 3; P.C. Bartrum: WG2 ‘Aleth’ 7(A), ‘Seisyll’ 3(A). Canodd Huw ap Dafydd (*fl.* 1520–40) i Siôn mab Hywel Fychan o Gaer-gai, gw. GHD cerdd 18.

¹³ P.C. Bartrum: WG2 ‘Aleth’ 7(A).

¹⁴ Isaac Foulkes, *Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (Liverpool, 1870), 357.

¹⁵ Richard Williams, ‘Montgomeryshire Worthies’, *Mont Coll xi* (1878), 23.

¹⁶ P.C. Bartrum: WG2 ‘Meirion Goch’ 3(A).

drafodaeth ar Wenllian ferch Rhirid Flaidd, dywed yr Athro Dafydd Johnston, ‘... mae’n amlwg, fel y gellid disgwyl, bod Gwerful Fychan a Gwerful Mechain wedi’u cymysgu ar gof gwlad’.¹⁷

O gofio bod Llanfechain a Llwydiarth, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, o fewn tiriogaeth Mechain, y mae’n hawdd deall sut y gallai’r sawl nad oedd yn gyfarwydd ag ach Gwerful Mechain a’i thad, Hywel Fychan o Lanfechain, ddod i’r casgliad cyfeiliornus ei bod hi’n ferch i Hywel Fychan o Gaer-gai, a oedd yn ddisgynnydd i deulu Llwydiarth. Byddai’r teitl ‘Hywel Fychan o Fechain’ yn addas ar gyfer y ddau ŵr; serch hynny, dim ond Hywel Fychan o Lanfechain a fedrai arddel merch o’r enw Gwerful. Y mae’r modd y datblygodd y dryswch rhwng Gwerful Mechain a Gwerful ferch Ieuan Fychan yn ddigon dealladwy, gan fod y ddwy wraig yn hanu o Faldwyn ac yn rhannu’r un enw bedydd yn ogystal â’r un enw teuluol. Dengys yr achau, fodd bynnag, eu bod yn perthyn i ddau lwyth gwahanol, sef llwyth Idnerth Benfras yn achos Gwerful Mechain a llwyth Rhirid Flaidd yn achos Gwerful Fychan.¹⁸

Cymuned lenyddol Gwerful Mechain

Y mae’n bwysig cofio’r math o gymdeithas yr oedd Gwerful Mechain yn perthyn iddi, sef cymdeithas glòs lle yr oedd yr hen deuluoedd uchelwrol yn cyfeillachu a chydbrïodi â’i gilydd yn gyson. Trigai ewythr i Werful Mechain, sef Ieuan Fychan, yn y Bryngwyn, Llansanffraid-ym-Mechain, Mechain Is Coed.¹⁹ Yn ôl P.C. Bartrum, bu i ŵyr Ieuan Fychan, sef Hywel o’r Bryngwyn (a oedd yn perthyn i’r un genhedlaeth â merch Gwerful, felly), brïodi Gwen, sef merch Huw ab Ieuan ap Llywelyn, disgynnydd o deulu Fychaniaid Llwydiarth.²⁰ Yr oedd Gwen ferch Deio, sef mam yng nghyfraith Gwerful Mechain, yn ferch i Ddeio ap Llywelyn o Ddolobran ger Pontrobert, sef cangen o deulu Fychaniaid Llwydiarth. Yn ogystal, sylwer bod chwaer Gwen, sef Lleucu ferch Deio, yn wraig i Moel y Pantri a bod Gwerful Mechain, felly, yn perthyn trwy brïodas i’r bardd Llywelyn ab y Moel a’i fab Owain.²¹ Yr oedd teulu Llywelyn Fychan ap Maredudd, sef tad yng nghyfraith Gwerful Mechain, yn hanu o ardal Main, Meifod a Mechain.²² Felly, ymdroi mewn cylch cyfyng iawn, yn ddaearyddol, a wnâi teulu gŵr Gwerful Mechain, cylch nad oedd ond tafliad carreg o Lanfechain, sef ardal tylwyth Gwerful ei hun, ac o’r herwydd y mae’n ddigon posibl fod cysylltiadau prïodasol cynharach rhwng Fychaniaid Llwydiarth a Fychaniaid

¹⁷ Dafydd Johnston, ‘Gwenllian ferch Rhirid Flaidd’, *Dwned*, iii (1997), 32, a throednodiadau 19–23.

¹⁸ Gw. uchod ar ach Gwerful Mechain; ar ach Gwerful Fychan ferch Ieuan Fychan, gw. P.C. Bartrum: WG2 ‘Meirion Goch’ 3(A).

¹⁹ P.C. Bartrum: WG1 ‘Idnerth Benfras’ 3.

²⁰ P.C. Bartrum: WG2 ‘Idnerth Benfras’ 3(B).

²¹ P.C. Bartrum: WG1 ‘Aleth’ 5, 6.

²² *Ib.* ‘Bleddyn ap Cynfyn’ 41, 42.

Llanfechain. Yr oedd Fychaniaid Llwydiarth wedi cydbriodi droeon â theulu Mathafarn hefyd (gw. yr achau uchod). Wrth drafod cefnogwyr Owain Glyndŵr, dengys Dr Enid Roberts sut yr oedd y wlad o Fathafarn hyd y Gororau dan ddylanwad rhyw gangen neu'i gilydd o dylwyth y bardd Dafydd Llwyd:

Gwyddom fod perthnasau Dafydd Llwyd ymhlith cefnogwyr mwyaf selog a hir-barhaus Owain—teuluoedd dyffryn Tanat, Llwydiarth (Llanfihangel), Neuadd Wen (Llanerfyl), a llwyth y Gwenwys gyda'u tiriogaeth yn ymestyn o Lanfyllin i'r Trallwm, i Geri a Westbury a Llany-mynaich, teuluoedd oedd wedi priodi drwy'i gilydd drwodd a thro nes creu cymdeithas glos, gadarn ac unplyg ei meddwl a'i bwriad.²³

Ymhellach dywed:

Nid oedd arglwydd neu dirfeddiannwr mawr i roi arweiniad. Nac oedd; ond yr oedd llys Mathafarn yn ganolfan bwysig, yn arbennig yn fan cyfarfod i feirdd y cyfnod. Yr oedd nythaid o feirdd yn y cylch hwn yn ail hanner y bymthegfed ganrif ...²⁴

Yr oedd tylwyth Mathafarn yn hen deulu adnabyddus a phwysig iawn. Noddwr hysbys cyntaf y teulu arbennig hwn oedd taid Dafydd Llwyd, sef Gruffudd ab Ieuan Llwyd. Canodd Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Lygliw gywydd moliant iddo, gan bwysleisio'r croeso a gâi'r beirdd yno:

Ym Mathafarn, mwy'i thyfiad,
Y mae'i lys rydd, lle aml rhad,
Ac aur a moethau a gwin
Yn llwyn ir yn Llanwrin,
A medd, nid rhyfedd y tro,
Bob unawr i bawb yno,
A chroeso i dario dydd
A nos yno'n oes henwydd
Gan ŵr glân, cawn ei aur glod,
Awdur rhinwedd dewr hynod.²⁵

Yng 'Nghywydd Marwnad Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd a'i blant' pwysleisia Hywel ap Dafydd Llwyd ab y Gof boblogrwydd y llys ym Mathafarn:

Gŵr a wnaeth in hiraethu,
Gem ar feirdd holl Gymru fu.
Am bennill nid ymboenai,
Segur gerdd fal siwgr a gâi.²⁶

²³ Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981, 7.

²⁴ *Ib.* 11.

²⁵ GGL1 17.1–10.

²⁶ GDL1 190 (98.41–4).

Tystir i'r bri amlwg a oedd i'r llys yn Llanwrin fel cyrchfan bwysig i'r beirdd gan y nifer sylweddol a fu'n canu i dylwyth Mathafarn, er enghraifft, Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Lygliw, Gwilym ab Ieuan Hen, Dafydd ap Hywel ab Ieuan Fychan, Hywel ap Dafydd Llwyd ab y Gof, Huw Arwystli, Bedo Hafesb, Cadwaladr ap Rhys Trefnant, Wiliam Llŷn, Simwnt Fychan, Ieuan Tew Ieuan, Siôn Phylip, Owain Gwynedd, Siôn Mawddwy, Edward Urien, Siams Dwnn, Siôn Cain a Siôn Rhydderch.

Yn ôl Dr Ceridwen Lloyd-Morgan, 'Ceir traddodiad cryf iawn hefyd iddi hi [Gwerful Mechain] a Dafydd Llwyd fod yn gariadon, ond ni nodir a ddiwyddodd hyn cyn ei phriodas â John ap Llywelyn Fychan neu ar ôl hynny.'²⁷ At hynny, dywed fod y traddodiad hwnnw'n cael ei adlewyrchu yn yr ymryson erotig a fu rhwng Gwerful a Dafydd Llwyd ac yn yr ymryson a fu rhwng Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun.²⁸ Ceir yn *Y Gwyddoniadur Cymreig* gofnod am Werful Mechain, yn ogystal â chofnod am ryw Werful arall a oedd yn wraig i Ddafydd Llwyd ap Llywelyn o Fathafarn,²⁹ ond heb unrhyw fanylion yn egluro pwy oedd hi. Oherwydd y cysylltiadau amlwg rhwng Gwerful Mechain a Dafydd Llwyd yn y cywyddau ymryson a'r ymrysonau maswedus a'r cywydd brud a luniodd Dafydd Llwyd i Werful, y mae'n ddigon posibl i rywrai dybio bod y ddau fardd mewn cariad â'i gilydd neu wedi priodi hyd yn oed, ond nid oes unrhyw ateg i hynny yn yr achau.³⁰ Yn y 'Cywydd llateaeth i Werful Mechain ac i yrru Llywelyn ap Gutun ati yn llatai',³¹ dywed Dafydd Llwyd mewn dull confensiynol (a'i dafod yn ei foch, efallai) ei fod yn dioddef o bangfeydd serch ac mai gwrthrych ei ddyhead a'i ddiodefaint oedd Gwerful Mechain:

Claf wyf eisiau cael y ferch,
Dwyn unwaith i'm dyn annerch,
Gwerul, ferch ragorol fain
Hywel Fychan, haul Fechain.³²

Yn ail gywydd Dafydd yn yr ymryson hwn, sef 'Moliant i Werful Mechain',³³ mynega'r bardd ei awydd i gynnal carwriaeth â Gwerful yn yr awyr agored:

Rhodio gwŷdd yn rhad a gawn,
Pob llannerch, pebyll uniawn,

²⁷ Ceridwen Lloyd-Morgan, '“Gwerful, ferch ragorol fain”: golwg newydd ar Gwerful Mechain', YB xvi (1990), 89.

²⁸ *Ib.* 89–90.

²⁹ *Y Gwyddoniadur Cymreig*, gol. John Parry (ail arg., Dinbych, 1889–96), 613.

³⁰ Cerddi 5, 6, 7, 8, 12 a 14; GDLI 58–9 (cerdd 19).

³¹ Cerdd 5.

³² 5.1–4.

³³ Cerdd 6.

Cydymddiddan dan y dail,
 Cydgerdded coed ac irddail;
 Ymwasgu, ymgaru i gyd,
 Â breichiau a bair iechyd.
 Da waith oedd, heb adwyth hir,
 Ddwylaw mwnwgl ddaly meinir.³⁴

Sylwer hefyd i Ddafydd Llwyd lunio'r 'Cywydd brud i Werful Mechain' ar batrwm cyfarwydd y cywydd serch:

Gwedd hinon a meillion Mai,
 Gweirful urddedig, erfai,
 Tyfodd o'th gariad, hoywferch,
 Trwy f'ais oll trefi o serch;
 Trigedig bendefig dof,
 Trewis dy gariad drwof.
 Tyfodd, ferch, o'th anerchion,
 Y frig yn amgylch y fron.
 Herodres hwnt, hynt hydref,
 Ni wywodd un o'i wÿdd ef.
 Tyfodd, ni symudodd serch,
 Eto tyf atat, hoywferch,
 Blagur cariad a blygais,—
 Meindw wen yw o'm dwy ais.
 Aeth ugain cainc i'th ogylch,
 Aeth wyth gair o'm gwaith i'th gylch.
 Na thebig, fonheddig fun,
 Nid wyd rwydd, nid ai drwyddyn';
 Â mi ni thorrwch chwi chwaith,
 O'ch amod nid ewch ymaith.
 Er maint, ferch, y'th anerchwyd,
 Fy mrys i'th lys, ethol wyd.
 Taria, feinwen, dros ennyd,
 Ac aros beth o gwrs byd.³⁵

Yn sgil y cysylltiadau hyn yn y farddoniaeth ac yn enwedig o ystyried naws yr ymrysonau maswedd lle y ceir y ddau fardd yn mynegi eu teimladau rhywiol yn agored, gallai 'traddodiad' amdanynt fel cariadon fod wedi datblygu. Ni wyddys a fu Gwerful a Dafydd Llwyd erioed yn gariadon ac fe all yn hawdd mai defnyddio confensiwn llenyddol yn gellweirus a wnant er mwyn creu fframwaith dychmygol ar gyfer y farddoniaeth, gan mai'r cywair 'serch' neu'r cywair 'mawl' oedd y dulliau mwyaf cyffredin o annerch merched yr oes.

³⁴ 6.29–36.

³⁵ GDL1 58–9 (19.1–24).

Er na wyddys llawer am fywyd Gwerful Mechain, gellir casglu rhywfaint am ei hymwneud â phobl eraill yn ei barddoniaeth hi a'i chyfoeswyr. Ystyrir ei chywydd i ateb Ieuan Dyfi am gywydd Anni Goch yn wrthddadl i'r cywydd a ganodd Ieuan Dyfi 'I Anni Goch'.³⁶ Perthyn ei chywydd 'I Lywelyn ap Gutun' i ymryson barddol a fu rhyngddi hi, Dafydd Llwyd o Fathafarn a Llywelyn ap Gutun.³⁷ Ceir hefyd ymryson brud ar ffurf cyfres o englynion rhyngddi a Dafydd Llwyd, a dau ymryson masweddu rhyngddynt, eto ar ffurf cyfres o englynion.³⁸ At hynny, y mae'n debyg mai fel ymryson y dylid ystyried y gyfres o englynion lle y ceir 'Gwerful Mechain yn gofyn i Ddafydd Llwyd' hefyd.³⁹ Yn sgil yr holl ymrysonau hyn, y mae'r cysylltiadau rhwng Gwerful Mechain, Dafydd Llwyd o Fathafarn, Llywelyn ap Gutun ac Ieuan Dyfi eisoes yn ddigon hysbys, ac os yw honiad dwy o'r llawysgrifau yn achos cerdd 19 ('Pwy a gâr fwyaf?') yn ddilys,⁴⁰ ceir tystiolaeth i'w hymwneud â Dafydd ab Edmwnd yntau. Ymhellach, gellir awgrymu mai cyfeirio at Werful Mechain a wna Dafydd ab Edmwnd yn ei bennill cadwynfyr:

gwenvun gwynvawr geinwyn gynvyl
gariad gweryl giried gorau
gwirvudd gyrvau gorvydd gweirvul
goruc eryl gwiw ragorau.⁴¹

Yn ogystal â'r rhain ceir cyfeiriadau pwysig at Werful yng nghwmni beirdd eraill, a hynny mewn cyd-destunau penodol a dadlennol. Mewn cywydd gan Syr Siôn Leiaf cysylltir Gwerful Mechain â Hywel Grythor a Guto'r Glyn fel gormeswyr eofn yn llys Rhisiart Cyffin (sylwer bod y cysylltiad rhwng Hywel Grythor a Guto'r Glyn eisoes yn hysbys o'r englynion a ganodd Guto 'I Erchi Bidog Dros Hywel Grythor'⁴²). Yn ôl *Y Bywgraffiadur Cymreig*, yr oedd Syr Siôn Leiaf yn fardd ac yn offeiriad a oedd yn ei flodau tua 1480. Yr oedd yn fab i'r bardd Ieuan ap Gruffudd Leiaf o sir Ddinbych, ac yn ddisgynydd i Owain Gwynedd.⁴³ Yn Llst 123, 151 dywed Syr Siôn Leiaf fel a ganlyn am y beirdd yn ei gywydd moliant i Risiart Cyffin, deon Bangor:

Bevno gynt bv benna gŵr
Bened ail ben ydeiliwr
porthi roedd pawb wrth raid
drychanwr heb drychweiniad

³⁶ Cerddi 3 a 4.

³⁷ Cerddi 5, 6, 7 ac 8.

³⁸ Cerddi 11, 12 a 14.

³⁹ Cerdd 13.

⁴⁰ Gw. isod tt. 119–20.

⁴¹ J. Morris-Jones: CD 351; DE 134 (cerdd LXXIV).

⁴² GGi² 265–6 (cerdd CII).

⁴³ ByCy 858.

cannwr gwaith cant yn gweithiaw
 cannwr llys caen wîn oi llaw
 a thros ben ar a henwynt
 y porthes dair gormes gynt
 Llywarch hên a llv Menic
 ag Elen ddwys galon ddc
 ferch gyndrwyn farchog gwindravl
 fwya tri yn fyw i travl
 gwr oi fodd fy Mangor fawr
 yn fâl Wynedd yn flaenawr
 mae Rissart mab i deirsir
 Gyffin hael i goffa yn hîr
 Selav farn sy ar i law fo
 Sûl bonedd sy ail Bevno
 mae n gwario mwy noi geraint
 mal avr Siob ar demlav r saint
 talm ywr gost talv mae r gwr
 traw a chynnal trychannwr
 a fforthi tri er nad traid
 wîr moessol o ormessiaid
 attw r glêr **evtto r Glyn**
 yw llowar, i holl lley
 bwyttawr mawr bwyttv r meirch
 bwyd tiferf bwytae forfeirch
Howel Gruthor calor cig
 ai llai mon na llv Menig
 ysswr henddas or heiniar
 yssav ych fâl assav iâr
 Gwawrfai o law **Gwerfil** wen
 olevloer yw ail Elen
 haela vn ferch heilwen fa[i]n
 Howel Fychan haul fecha[i]n
 cowssant wall oi cwsc allan
 oerfel ar wiw weirfil lan
 ymhoen a ddaeth mae ha yn ddc
 yw dylun y nydolic
 [lle] bo pant rhûssiant y rhain
 bron yrrwyr bryn y riain
 vn gerdded yw mewn gwyrdd do
 aûr i chap annerch Ipo
 gwae fî orfod ir riain
 ddilid rhyw ddiewlaid a rhain

dav remwth a dreia ammvd
 dwy ffriw cawr dav ffara cŷd
 doen yn gwibio dav hen gevbal
 da oc magoc deg mwy i gwâl
 dissociav r glêr dav ysswr gwledd
 dyfr gwn difawr Gwynedd
 lliwiant yw cyd gallen twy
 yssv cannŷch is Conwy
 ni allan ddwyn ni wyllys
 iawn a roed ir deon rys
 llawer yw fort lliw ar fwyd
 llys seigfawr llyssyowgfwyd
 llawer amriw yderyn
 llawer saig ar lliw siwgrwr gwyn
 llawer anrheg or gegin
 llawer rhyw a lliw ar wîn
 llawer i bob oferŵr
 llowrodd gwyl llareiddia gwr
 llawena gwr lleon gost
 lliwid dofydd llew difost
 llwydor gwallt fal callord gwydd
 or lliw hwn ir llywenydd.⁴⁴

Yr oedd Rhisiart (neu Rys) Cyffin yn Ddeon Bangor tua 1480.⁴⁵ Yn ôl *Y Bywgraffiadur Cymreig*, ‘Y mae’n bur debyg mai ef oedd Richard ap John neu Ris ab Ieuan ap Ris ap Gruffydd, rheithor Gyffin yn esgobaeth Bangor, “mab rhieni dibriod,” a gafodd yn 1470 drwydded gan y pab (gan ei fod wedi ei eni’n anghyfreithlon) i gael urddau eglwysig.’⁴⁶ Ond yn ôl awgrym Dr Enid Roberts, efallai ei fod yn perthyn i Gyffiniaid dyffryn Tanad.⁴⁷ Yr oedd yn ŵr gradd yn y gyfraith ganon ac yn rheithor Llanddwyn ym Môn. Pan oedd yn ddeon, ymddengys ei fod yn gefnogwr cryf i Harri VII ac yn un o’i ysbïwyr yng Nghymru. Yn ogystal, ymddengys fod ei lys yn gyrchfan bwysig i’r beirdd yng ngogledd Cymru a’i fod yn hoff iawn o dynnu coes a chwarae pob math o gastiau ar y rhai a ddeuai i glera ac i erchi nawdd ganddo.

⁴⁴ Codwyd y testun hwn o Llŷst 123, 151; fe’i ceir hefyd yn Card 1.20, 82; Card 4.110, 197; LIGC 670D, 281; LIGC 1553A, 226. Gw. [dienw], ‘Cywydd i Beuno Sant, yn Nghelynog’, *Y Geninen*, xviii (1900), 143; Albert Owen Evans, ‘Three old foundations (Clynnog, Llanrhychwyn and Llangeinwen)’, *Cy xlii* (1931), 107–9, lle y ceir testun golygedig o’r cywydd dan y teitl ‘Cywydd i Beuno Sant, yn Nghelynog’ (ond ymddengys rhai o’r darlenniadau yn amheus).

⁴⁵ J. Le Neve, *Fasti Ecclesiae Anglicanae 1300–1541: XI The Welsh Dioceses*, compiled by B. Jones (London, 1965), 6.

⁴⁶ ByCy 505. Am ragor o wybodaeth, gw. WCCR² 321–2.

⁴⁷ Enid Pierce Roberts, ‘Crefydd yr Uchelwyr a’u beirdd’, *Efrydiau Athronyddol*, liv (1991), 30.

Trafodwyd y cywydd uchod gan Catrin T. Beynon Davies, a thynnwyd sylw ato drachefn gan Elissa R. Henken wrth drafod Beuno Sant a'r 'Tair Gormes'.⁴⁸ Cyfeirir at Guto'r Glyn, Hywel Grythor a Gwerful Mechain fel 'Tair Gormes' sy'n debyg i'r 'Tair Gormes' gynt y bu Beuno'n gyfrifol am eu porthi.⁴⁹ Nod pennaf Syr Siôn oedd mynegi ei anfodlonrwydd o weld y beirdd hyn yn godro a chrafangu lletygarwch gan y Deon. Sylwer bod dychan Syr Siôn yn gyfrwys iawn. Canmolir tras, haelioni a phrydfferthwch Gwerful Mechain ond yna dywedir iddi hi a'i chwmni, sef y clerwyr barus, ddiodef cam a bod rhaid iddynt gysgu allan yn yr oerfel. Wrth gyfod senario o'r fath ochr yn ochr â disgrifiad 'delfrydol' a chonfensiynol o'r uchelwraig (fel 'Elen', er enghraifft), dwyseir yr elfen amlwg o watwar. Digon confensiynol, fodd bynnag, yw'r syniad o haid o feirdd bwyteig yn ysglyfaethu yng nghartref noddwr arbennig. Cofier bod y beirdd hyn yn cystadlu am nawdd ar eu teithiau clera ac felly gellir dweud bod Syr Siôn yn cenfigennu wrth weld y triawd hwn yn llys Rhisiart Cyffin. Sylwer bod Llywelyn ap Gutun, yntau, yn defnyddio cymhariaeth y 'Tair Gormes'. Mewn cywydd ateb i Ddafydd Llwyd o Fathafarn awgryma Llywelyn y dylid rhannu'r ynys fel y gallai ef, Dafydd Llwyd a Syr Rhys o Garno anrheithio eu traean eu hunain fel y 'Tair Gormes':

Ni a rannwn yr ynys,
 Moes ei ran yma i Syr Rhys,
 Dilid di dy wlad dy hun,
 Dyna, gwna ddyddbrawd arnyn,
 A dod Rys i'r deau draw,
 Yn un rhuthr i'w anrheithiaw;
 Minnau af yma un wedd
 I ddinistr y ddwy Wynedd.
 Un hwyl y dygwn helynt,
 Un brés â'r Tair Gormes gynt.⁵⁰

Cyfeirir at Guto'r Glyn drachefn, gan ddefnyddio syniad y 'Tair Gormes' yn y cywydd 'Dychan i Uto'r Glyn gan Syr Rhys':

Fal Llywarch ar farch yw fo,
 Hen fanach yn nhŷ Feuno.
 Beuno hael, bu un helynt,
 A borthes dair gormes gynt.⁵¹

Yn ei herthygl 'Crefydd yr Uchelwyr a'u beirdd' dywed Dr Enid Roberts wrth gyfeirio at amryw o wŷr crefyddol:

⁴⁸ CTC 380–1, 400–1; TWS 82–3.

⁴⁹ TYP² 84–7.

⁵⁰ GDL1 158–9 (72.47–56).

⁵¹ GGI² 279 (CVIII.59–62).

Mewn cysylltiad agos â hwy yr oedd y brudiwr, Dafydd Llwyd o Fathafarn (mae cysylltiad rhwng crefydd a brud, fel y ceisir dangos isod), Guto ap Siancyn y Glyn a Gwerful Mechain; ac yr oedd croeso cynnes iddynt hwy ac eraill yn neuadd newydd Syr Siôn Mechain, person Llandrunio, yntau hefyd o hil Iorwerth Foel, ac yn llys deon Bangor, Rhisiart Cyffin, a oedd, o bosibl, yn un o Gyffiniaid dyffryn Tanat. Canodd Syr Siôn Leiaf gywydd i geisio disodli Guto'r Glyn, Hywel Grythor a Gwerful Mechain o lys Rhisiart Cyffin.⁵²

Wrth drafod Dafydd Llwyd o Fathafarn y mae Dr Roberts yn tynnu sylw drachefn at ymwneud Gwerful Mechain â Rhisiart Cyffin:

Ni bu neb tebyg i Lywelyn ap Gutyn am gardota, meddai Gwerful Mechain; byddai'n ceisio yd yn swydd Amwythig, yn Yr Un-dref-arddeg a'r Dre-wen, yn wyna a defeita ym Môn ac yng Ngwynedd Uwch Conwy. Tybed a ymgwymerodd â gwneud hyn dros Harri Tudur? Byddai ef a Gwerful yn ymweld â llys Rhisiart Cyffin, deon Bangor, gŵr sy'n cael y gair o fod yn un o brif ysbiwyr Harri Tudur; y mae'n bosibl fod ei wreiddiau yn yr un ardal â Llywelyn ap Gutyn, yr oedd ganddo yntau gysylltiad â Deuddwr, rhwng Efyrynwy a Hafren.⁵³

Ar sail yr wybodaeth a geir am Lywelyn ap Gutyn yng nghywydd Guto'r Glyn, 'Ateb i Lywelyn ap Gutyn', cysylltir y bardd ag ardal Melwern (Milverley), swydd Amwythig:

Ef â'i olud o Felwern
 Gan lif i ganol y Wern,
 Ac yntau yn ei neuadd
 O fewn lli, afon a'i lladd,
 A'r ddwy Efyrynwy arnaw,
 A môr drwy'r Cymerau draw.⁵⁴

Y mae'r cyfeiriadau at Syr Siôn Leiaf, Gwerful Mechain, Maredudd ap Rhys, Gruffudd ap Dafydd ac Edward ap Dafydd yng nghywydd Guto'r Glyn 'I'r Abad Dafydd' (sef Dafydd ab Ieuan ab Iorwerth o Lynegwestl) yn awgrymu bod rhyw gysylltiad rhwng y beirdd hyn a'r Abad, er na chadwyd dim yn eu barddoniaeth i brofi hynny.⁵⁵ Ymddengys fod y tri bardd canlynol, sef Maredudd ap Rhys (*fl.* c. 1440–80), offeiriad Rhiwabon a rheithor y Trallwng a Meifod, Gruffudd ap Dafydd (perthynas o bosibl i Guto'r Glyn), ac Edward ap Dafydd ap Gwilym, yn cenfigennu wrth Guto'r

⁵² Enid Pierce Roberts, *art.cit.* 30–1.

⁵³ *Id.*, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981, 29.

⁵⁴ GGI² 102–3 (XXXVIII.51–6).

⁵⁵ *Ib.* 301–2 (cerdd CXVII); Richard Loomis and Dafydd Johnston, *Medieval Welsh Poems: An Anthology* (Binghamton, New York, 1992), 195–7 (cerdd 103).

Glyn ac yn ceisio dwyn ei le yng Nglyn-y-groes.⁵⁶ Yn ogystal â dangos eiddigedd y tri gŵr uchod, sylwer bod y cywydd hwn 'I'r Abad Dafydd' hefyd yn ategu'r cysylltiad rhwng Gwerful Mechain a Syr Siôn Leiaf a Guto'r Glyn:

Syr Siôn, anudon wedy,
 Leiaf, a roes ei le fry.
 Gwnâi dwyll ym gwndyll hedd
 Am [diwyg.] y diau feudwyedd.
 Efô 'n fardd a fyn ei fod,
 A Gwerful aeth â'r gorfod.⁵⁷

At hynny, dywed Catrin T. Beynon Davies, 'Gwelwyd ... sut y ceisiodd Syr Siôn Leiaf ei gyrru allan o gartref ei noddwr ym Mangor, a gellid tybio oddiwrth eiriau Guto i Werful "aeth â'r gorfod", iddi hi ateb Syr Siôn â cherdd bwrpasol a'i drechu'n yr ymryson.'⁵⁸ Cofier bod Gwerful Mechain wedi canu cywydd 'I ateb Ieuan Dyfi am gywydd Anni Goch' ar ffurf ymryson gydag Ieuan Dyfi ac felly y mae'n ddigon posibl ei bod wedi ennill enw iddi'i hun fel ymrysonfardd.⁵⁹ O ystyried grym ac argyhoeddiad y cywydd a gyfansoddodd yn ateb i feirmiadaeth Ieuan Dyfi, nid yw'n afresymol tybio iddi lunio cerdd yn wrthddadl i gywydd Syr Siôn Leiaf, gan amddiffyn ei safle ei hun ac eiddo ei chyfeillion yn llys Deon Bangor.

O ystyried hyn, y mae'n debygol mai Gwerful Mechain oedd gwrthrych y testunio yn englynion Tudur Aled, 'Duchan i Ddeon Bangor a'i Feirdd', cynnyrch hwyl ymhlith y beirdd a ymgasglodd yn llys y Deon ar ryw wyl neu'i gilydd, ond odid:

Gweiddi y mae Gweirfyl, gwiddon—ysgethrin,
 Achos gweithred lladron;
 Ni bu wraig â gwayw 'n i bron,
 Gwên y geiniog, un gwynion.

Llawer o flawd oedd i'w chŵd llywion—bras,
 A bresych a moron;
 Gwilym Gwyn, hebddyn, i hon
 A roes gwbl o'r ysgubion.

Y lleill a'i sbeiliodd, ellyllon—y tir,
 At arall y troeson;
 Dwyn y we lwyd yn y lôn,
 Dwyn gwllân, dyna i gelynon.

⁵⁶ Enid Roberts, *Y Beirdd a'u Noddwyr ym Maelor*, Darlith a draddodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Wrecsam a'r Cylch, 1977, 15.

⁵⁷ GGI² 301 (CXVII.11–16).

⁵⁸ CTC 401.

⁵⁹ Cerddi 3 a 4.

A'i grôd a'i nydwydd greudon,—a'i pheilliaid,
 A'i ffellich carn geimion;
 A thorri cŵd a threc hon,
 A'i fwrw ar a fai wirion.

Cig, bara ysig, briwsion—holl wyliau,
 Llywelyn a'i dichon;
 Ag Ifan aeth, hen gafn onn,
 Ffroenffoll, a'i phererinffon [diwyg].

A'i hengrys am Rys, ymryson—i'w gael,
 Mae Gwilym yn ddigllon;
 A'i chlog, gam i chlôigion,
 Laes, y mae am Lewys Môn.

Medd mintai Menai—(ni mynnon—lw gwir,
 Ni edir anudon)—
 Y ffalsaf corff a welson,
 Deifwr, hwnt rhwng dwyfer hon.

Dyn a ddaw ar braw ger bron—wyf innau,
 I fynnu barn gyfion;
 Dan werth, o dwyll, dinarth don,
 Drewasant, dwrr o weision.

I'r un hwyl yr ŵyl yr elon—i gyd,
 Am godi gwaed gwirion;
 Yngrhōg hwy, a'r iangwraig hon,
 Dan y gwrych, ai'n dân gwreichion!⁶⁰

Yn ôl T. Gwynn Jones:

Ymddengys mai ystori'r Awdl hon—un o'r ychydig dduchanau a briodolir i Dudur—yw bod y bardd, meddai Deon Bangor a'i feirdd, wedi ymosod ar ryw Weirfyl. Cyhuddir y Deon o beri i ddeuddeg o brydyddion dyngu anudon arno. Enwir tri—Rhys Pennardd, Ieuan Llwyd, a Lewys o Liwon (Lewys Môn, efallai), o blith y deuddeg. Yna, wedi dywedyd gael o'r wrâch ryw godaid o ysgubion gan un Gwilym Gwyn, cyhuddir y beirdd o ymosod arni a dwyn ei phethau, ac enwir Llywelyn (Lewys o Liwon, neu Lewys Môn, eto, efallai, gan y cymysgid y ddau enw weithiau), Ifan (yr un un ag Ieuan Llwyd, ond odid), a Rhys

⁶⁰ TA 533–4 (CXLI.45–80). Serch hynny, y mae T. Gwynn Jones yn amau priodoli'r gyfres i Dudur Aled, gan nodi bod arddull yr englynion yn llawer tebycach i waith Llywelyn ap Gutun neu Dudur Penllyn, gw. TA 652.

(Rhys Pennarodd, y mae'n debyg). Hawlia'r bardd gyfle, ger bron Wiliam Mysyrion (?), i wrthbrofi'r cyhuddiad i'w erbyn ef. Tebyg mai rhan o ddifyrrwch y beirdd a'u noddwyr oedd peth fel hyn. Gellir casglu oddiwrth feirdd ereill fod y Deon yn hoffi poeni'r beirdd, yn gystal a rhoddi bwyd a diod iddynt.⁶¹

Ymddengys dull y bardd o wawdio Gwerful Mechain yn debyg iawn i'r modd y dychenir Herstin Hogl gan Iolo Goch.⁶² Darlunnir y ddwy wraig farus a chrafangus fel gwrachod ceccus a chwerylgar ac fe'u cysylltir â bwydydd a dillad tlawd a chymysgedd o ddeunyddiau gwael a garw megis blawd, llaeth, caws, bara, gwlan, gweddillion bras a gwehilion. Yn ogystal â dwyn anfri yn uniongyrchol ar Werful Mechain trwy ei galw'n wrach groch a thrwy wneud ensyniadau rhywiol amdani (*Deifwr, hwnt rhwng dwyfer hon*⁶³), ceir lefel arall i'r dychan. Wrth nodi'r holl bethau domestig—megis y dillad a'r holl fwydydd—awgrymir yn gynnill fod Gwerful wedi ymwrthod â'r safle a ystyrir yn addas ac yn weddus i wraig y cyfnod, sef y cartref, a bod ei phresenoldeb yn y llys pellennig hwnnw gyda'r clerwyr eraill yn destun digrifwch a gwawd ynddo'i hun. Wrth roi pwyslais ar y pethau hyn, y nwyddau domestig nad oeddynt yn ymwneud â'i dewis swyddogaeth yma fel bardd, crëir gwawdlun o Werful. At hynny, wrth feirniadu ei hymarweddiad rhywiol a'i pharodrwydd i leisio'i barn yng ngŵydd y beirdd gwrywaidd (*Gweiddi y mae Gweirfyl, gwiddon—ysgethrin*⁶⁴), bychenir safle Gwerful yn y llys a gosodir y bardd o ferch hon yn ei lle, fel petai. Gellir dadlau bod disgrifiadau dychanol o'r fath yn gweithredu fel modd i feirniadu merched ac efallai'n ymgais i ddwyn cywilydd arnynt er mwyn rheoli neu 'gywiro' eu hymddygiad. Yn ôl Patricia Parker:

It was the public nature of rhetoric—taking women outside their proper 'province' or place—which disqualified them, in a long tradition dating from as ancient an authority as Aristotle's strictures that women were to be not only silent but identified with the property of the home and with the private sphere, with a private rather than a common place ...

But the clear link that would keep women from learning rhetoric as specifically public speech is the long association in which a 'public

⁶¹ *Ib.* 651.

⁶² GIG 161–5 (cerdd XXXVI). Yn ôl Natalie Zemon Davis, wrth iddi drafod cymdeithas a diwylliant Ffrainc yn y cyfnod modern cynnar, yr oedd delwedd yr 'unruly woman' yn dull hynod boblogaidd o bortreadu merched: '... there is a rich treatment of women who are happily given over to the sway of their bodily senses or who are using every ruse they can to prevail over men. There is the wife of Bath, of course, who celebrates her sexual instrument and outlives her five husbands. And Rabelais' Gargamelle—a giant of a woman, joyously and frequently coupling, eating bushels of tripe, quaffing wine, joking obscenely, giving birth in a grotesque fecal explosion from which her son Gargantua somersaults shouting "Drink, drink"', gw. Natalie Zemon Davis, *Society and Culture in Early Modern France* (London, 1975), 134.

⁶³ TA 534 (CXLI.72).

⁶⁴ *Ib.* 533 (CXLI.45).

woman', and especially one who spoke in public, could only be called a whore.⁶⁵

Gellir casglu mai yn yr un ysbryd y canodd Llywelyn ap Gutun ei gywydd 'Dychan Deon Bangor a'i feirdd'.⁶⁶

Sylwer bod y darnau hyn o dystiolaeth i ymwneud Gwerful Mechain â beirdd eraill yn codi cwestiynau diddorol iawn. Os oedd Gwerful yn rhydd i deithio yng nghwmni'r beirdd eraill—ac ymddengys ei bod—a fu hyn cyn ei phriodas â John ap Llywelyn Fychan, yn ystod ei phriodas neu yn ystod ei gweddwdod? Ni ellir cynnig atebion i'r cwestiynau hyn ag unrhyw hyder. Yn hytrach, rhaid derbyn bod gyrfa farddol Gwerful Mechain a'i sefyllfa fel merch yn yr Oesoedd Canol yn gweithredu'n fynych fel her i rai o'n syniadau a'n tybiaethau mwyaf sylfaenol. O ddadansoddi'r cyfeiriadau ati yn y farddoniaeth y mae'n amlwg ei bod yn cymryd rhan lawn yn yr hwyl a'r tynnu coes, ond efallai ei bod hi'n cael ei throi'n gyff gwawd yn amlach ar sail ei rhyw. Ceir dychan yn y farddoniaeth sy'n tynnu sylw at yr hen syniad ystrydebol o feirdd crafangus, ond ceir yma hefyd ddychan sy'n amlygu confensiynau gwrthfenywaidd yn gyffredinol.

Dyddiadau

Prin yw'r wybodaeth sicr ynghylch dyddiadau Gwerful Mechain er ei bod, yn amlwg, yn cydoesi â Guto'r Glyn, Ieuan Dyfi, Llywelyn ap Gutun, Hywel Grythor, Dafydd Llwyd o Fathafarn, a Rhisiart Cyffin (pan oedd hi'n *iangwraig*, os oes coel ar y cyfeiriad hwn ati yn yr englynion o waith Tudur Aled a ddyfynnwyd uchod). Yn ei gywydd ateb i gywydd llatai Dafydd Llwyd awgryma Llywelyn ap Gutun ei fod ef a Gwerful yn agos o ran oedran a bod Dafydd Llwyd yn w'r oeddrannus:

Hÿn yw'r gŵr hwn no'r garreg,
Ac unoed wyf â gwen deg.⁶⁷

Cyfeiria Llywelyn drachefn yn yr un cywydd at fusgrellni Dafydd Llwyd, gan gyferbynnu cyflwr truenus y gŵr hwnnw â'i ieuencid ef ei hun:

Cellfaint o henaint yw hwn,
A gwreiddiog ac ir oeddw.⁶⁸

Ni theifl hyn ryw lawer o oleuni ar ddyddiadau Gwerful Mechain, fodd bynnag, gan mai prin iawn yw'r wybodaeth am ddyddiadau Llywelyn ap Gutun yntau.⁶⁹ Mewn tair llawysgrif ddiweddar ceir yr wybodaeth a ganlyn am gyfnod Gwerful Mechain, 'Gwerful Mechain a oedd yn byw ynghylch

⁶⁵ Patricia Parker, *Literary Fat Ladies: Rhetoric, Gender, Property* (London and New York, 1987), 104.

⁶⁶ GLM 57–9 (cerdd XVI).

⁶⁷ 8.43–4.

⁶⁸ *Ib.* 47–8.

⁶⁹ *Fl.* c. 1480, ByCy 565; CLC² 476.

1480'.⁷⁰ Mewn dwy ffynhonnell arall cofnodir y dyddiad 1490.⁷¹ Y dyddiad a geir yn ddieithriad wrth enw Llywelyn ap Gutun yn y llawysgrifau yw 1480 a dyma'r union ddyddiad a geir yn *Flores Poetarum Britannicorum* Dr John Davies, Mallwyd ac yn ei restr o feirdd ar ddiwedd *Dictionarum Duplex*.⁷² Sylwer, felly, fod dyddiadau Gwerful a Llywelyn ap Gutun yn cyd-daro, gan atgyfnerthu'r wybodaeth a geir yn y cywydd o waith Llywelyn ap Gutun y cyfeiriwyd ato uchod. Yn ôl y *Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* a 'Montgomeryshire Worthies', yr oedd Gwerful Mechain yn byw rhwng 1460 a 1490.⁷³ Ategr y dyddiadau hyn gan nodyn yn CM 243, 110 uwchben cerdd 5 isod, *Cowydd i yru Llywelyn ap Gutun yn llatai at werful mechain merch Hywel Fychan, a poet from 1460 to 1490*. Yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* y mae Leslie Harries yn cynnig ?1462–1500 fel dyddiadau Gwerful Mechain, ond yn ei gyfrol *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill* awgryma iddi hi ac Ieuan Dyfi gael eu geni rywbryd rhwng 1460 a 1463.⁷⁴ Y mae Dr Ceridwen Lloyd-Morgan yn cynnig i Werful gael ei geni tua 1460–5.⁷⁵ At hynny, wrth drafod dyddiadau Ieuan Dyfi, dywed Leslie Harries:

Felly, teg yw casglu wrth y ffeithiau hyn i Ieuan Dyfi geisio heddychu'r bardd o Fathafarn tua'r un adeg ag y bu'r ymryson rhwng Llywelyn ap y Gutun, Dafydd [Llwyd] a Gwerful. Hefyd, gan fod Gwerful yn ieuanc y pryd yma, rhaid bod y bardd o Aberdyfi yntau'n wych ei gyflwr hefyd. Yna, teg eto yw credu bod Gwerful ar ei heithaf yn amddiffyn ei rhyw rhag bath Ieuan Dyfi tua'r un amser, h.y. rhwng 1485–1490.⁷⁶

Hyd y gwelir, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cysylltiad amseryddol rhwng yr ymryson a fu rhwng Llywelyn ap Gutun, Dafydd Llwyd a Gwerful a'r ymryson rhwng Ieuan Dyfi a Gwerful. Yn ôl Dr Llinos Beverley Smith, 'er y gellir bod yn sicr fod Ieuan yn ei flodau (a dweud y lleiaf) ym 1502, nid oes modd pennu dyddiad ei farw'.⁷⁷ Gellir awgrymu i Ieuan Dyfi, mewn ymgais i'w gyfiawnhau a'i amddiffyn ei hun, gyfansoddi ei gywydd chwerw yn lladd ar ferched yn fuan ar ôl yr achosion llys sydd ar glawr yng nghofnodion llys consistori deoniaeth Llanllieni, hynny yw, rywdro wedi 2 Awst 1502 pan gyffesodd i'w berthynas odinebus ag Anni Goch.⁷⁸ Yn rhesymegol, felly, gellir tybio i Werful Mechain ganu ei hateb hithau rywdro wedi'r dyddiad hwn. Atgyfnerthir y dyb hon yng nghywydd ateb Gwerful, gan ei bod yn amlwg yn cyfeirio at achos Ieuan:

⁷⁰ LIGC 841E, 5; LIGC 8363D, (b); LIGC Mân Adnau 55B [= Abertawe 1], 354.

⁷¹ Bangor 758, 278; LIGC 8363D, (a).

⁷² John Davies, *Flores Poetarum Britannicorum* (adargraffiad, Llanrwst, 1867), 43 a D.

⁷³ Isaac Foulkes, *op.cit.* 357; Richard Williams, *art.cit.* 23.

⁷⁴ ByCy 306; HCLI 31.

⁷⁵ Ceridwen Lloyd-Morgan, *op.cit.* 90.

⁷⁶ Huw Cae Llwyd, &c.: Gw 20.

⁷⁷ Llinos Beverley Smith, 'Olrhain Anni Goch', YB xix (1993), 118.

⁷⁸ *Ib.* 113–14.

Gad yn wib, godinebwr,
Galw dyn hardd gledren hŵr.
Efô fu'n pechu bob pen,
Ac o'i galon pe gwelen'.⁷⁹

O gymryd y cyfan ynghyd, gellir mentro cynnig c. 1460 tan ar ôl 1502 fel y dyddiadau bras pan oedd Gwerful Mechain yn ei blodau. Serch hynny, oherwydd ansicrwydd a breuder y dystiolaeth, rhaid ystyried y dyddiadau hyn fel canllaw yn unig.

Crefft

Gwelir bod barddoniaeth Gwerful Mechain, megis gwaith ei chymheiriaid barddol, yn nodweddiadol o'r math o farddoniaeth a gynhyrchid gan feirdd amatur. Yn ôl yr Athro Dafydd Johnston, 'Beirdd amatur oedd merched o anghenraid, am fod y gyfundrefn broffesiynol yn gaeëdig iddynt, ac mae'n amlwg fod merched mewn rhai teuluoedd diwylliedig yn dysgu barddoni fel eu brodyr.'⁸⁰ Un dosbarth arbennig o ganu a ymddengys yn atyniadol iawn i'r beirdd amatur yw'r canu brud. Ceir dwy gyfres o englynion brud rhwng Gwerful a Dafydd Llwyd o Fathafarn, bardd amatur a ystyridd yn frudiwr yn anad dim oherwydd y nifer sylweddol o gywyddau brud a ganwyd ganddo. Serch hynny, ni ddylid anwybyddu'r mathau eraill o farddoniaeth a gyfansoddodd: fel ei gyfoeswr Llywelyn ap Gutun, canodd farddoniaeth ar destunau amrywiol, yn gywyddau ymryson, marwnad, gofyn a mawl.

Yr oedd Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun, ill dau, yn ymrysonwyr o fri. Fel y dywed yr Athro Johnston, 'Ceid cyfle arbennig i fardd leisio barn mewn ymryson â bardd arall, ac fe welir fod y beirdd a ganai ar eu bwyd eu hun yn griw neilltuol o gecrus ac ymrysongar.'⁸¹ Ceir dau ymryson barddol rhwng Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun. Ysgogwyd y naill, sy'n cynnwys dau gywydd gan Ddafydd ac un yr un gan Lywelyn ap Gutun a Gwerful Mechain,⁸² gan gywydd Dafydd Llwyd yn anfon Llywelyn yn llatai at Werful. Yn y llall ceir dadl rhwng Dafydd a Llywelyn ar ffurf pedwar cywydd gyda'r naill fardd yn dannod i'r llall ei glera a'i geinioca ledled y wlad.⁸³ Ceir hefyd ymryson brud rhwng Gwerful a Dafydd Llwyd ar ffurf cyfres o englynion⁸⁴ a dau ymryson masweddu rhyngddynt, eto ar ffurf cyfres o englynion.⁸⁵ Y mae'n debyg mai fel ymryson hefyd y dylid ystyried y gyfres o englynion lle y ceir 'Gwerful Mechain yn gofyn i Ddafydd

⁷⁹ 4.69–72.

⁸⁰ Dafydd Johnston, 'Canu ar ei fwyd ei hun': *Golwg ar y Bardd Amatur yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Abertawe, 1997), 11.

⁸¹ *Ib.* 7.

⁸² Cerddi 5, 6, 7 ac 8.

⁸³ GDL1 151–9 (cerddi 69–72).

⁸⁴ Cerdd 11.

⁸⁵ Cerddi 12 a 14.

Llwyd'.⁸⁶ Er na cheir cywydd Gwerful Mechain yn amddiffyn merched a chywydd Ieuan Dyfi yn lladd ar ferched gyda'i gilydd yn null ymryson yn unrhyw lawysgrif, fel cywydd 'I ateb Ieuan Dyfi am gywydd Anni Goch' yr adwaenid cywydd Gwerful.⁸⁷ Yr oedd Dafydd Llwyd, Llywelyn ap Gutun a Gwerful Mechain yn amlwg yn dra hoff o ffurf yr ymryson barddol. At hynny, bu Dafydd yn ymrysona gyda Syr Rhys o Garno, Owain Thomas a Gruffudd ap Llywelyn Fychan a cheir ymryson masweddus rhwng Llywelyn ap Gutun a Lewys Môn ynghylch gordderch Deon Bangor.⁸⁸

Math arall o ganu a gysylltir yn fynych ag amaturiaeth yw'r canu serch. Ond, fel y dangosodd yr Athro Dafydd Johnston, 'Math neilltuol o ganu serch yw'r cerddi maswedd, ac unwaith eto roedd beirdd amatur yn flaenllaw yn y maes hwn ...'⁸⁹ Ceir gan Werful ddau gywydd maswedd,⁹⁰ dwy gyfres o englynion maswedd rhyngddi hi a Dafydd Llwyd⁹¹ ac un englyn maswedd.⁹² Ymhellach, fel y nota'r Athro Johnston, 'rhaid cofio fod elfen o ddigrifwch ysgafn yn perthyn i faswedd yn ôl ystyr wreiddiol y gair. Mae hiwmor yn un o nodweddion y canu amatur'.⁹³ Nid oes prinder hiwmor yng ngwaith Gwerful Mechain ac y mae'n debyg mai cerddi masweddus, yn ôl ystyr draddodiadol y gair, yw rhai o'i henglynion ysgafn hefyd,⁹⁴ fel cywyddau Dafydd Llwyd i ferched.⁹⁵ Serch hynny, y mae hiwmor y 'Cywydd a wnaeth DD. Llwyd pan losgwyd ef gan ferch ar y ffordd yn Llwydlo wrth fyned i Lundain at y Brenin' rywfaint yn wahanol i'r hiwmor ysgafn a geir yn y pedwar cywydd arall. Awgrymir ynddo fod Dafydd wedi dal clefyd gwenerol yn ystod ei helyntion rhywiol ac felly dylid ei ystyried yn 'gywydd maswedd' yn ôl ystyr fodern y term.⁹⁶ Canodd Llywelyn ap Gutun yntau gywydd maswedd yn dyfalu ystum mab a merch a welodd ef yn caru,⁹⁷ a nodweddir cywydd arall ganddo, sef 'Cywydd ateb Dafydd Llwyd o Fathafarn a dychan i Abad Enlli', gan hiwmor masweddus yn ogystal.⁹⁸

Yr oedd Llywelyn ap Gutun yn ddychanwr deifiol ac y mae'n amlwg iddo gael cryn hwyl yn gwawdio pobl eraill. Daw nifer o wŷr dan y lach yn ei gywydd 'Dychan Deon Bangor a'i feirdd', gwŷr megis Rhisiart Cyffin y

⁸⁶ Cerdd 13.

⁸⁷ Cerddi 3 a 4.

⁸⁸ GDL1 160–71 (cerddi 73–8); GLM 49–56 (cerddi XIV–XV).

⁸⁹ Dafydd Johnston, *op.cit.* 5.

⁹⁰ Cerddi 9 a 10.

⁹¹ Cerddi 12 a 14.

⁹² Cerdd 17.

⁹³ Dafydd Johnston, *op.cit.* 5.

⁹⁴ Cerddi 16 a 18.

⁹⁵ GDL1 135–43 (cerddi 60–4).

⁹⁶ *Ib.* 136–7 (cerdd 61); CMOC² 94–7 ('Dialedd y Bardd').

⁹⁷ CMOC² 112–15 ('Mab a Merch yn Caru').

⁹⁸ CTC 242.

Deon, Rhys Pennarodd, Hywel Rheinallt a Lewys Môn.⁹⁹ Canodd gywydd doniol iawn yn dychanu Guto'r Glyn ar ffurf ffugfarwnad hefyd.¹⁰⁰ Ond ymddengys i Risiart Cyffin dalu'r pwyth yn ôl trwy wneud cyff gwawd o Lywelyn ap Gutun. Mewn cywydd arall yn dychanu Deon Bangor edrydd Llywelyn fel y cafodd llythyr gan Risiart Cyffin i'w ddwyn at Huw Lewys o'r Chwaen ym Môn. Ymddengys fod cynnwys y llythyr yn cyhuddo Llywelyn o ladrata wŷn a bod y bardd mewn cryn helynt oherwydd hynny.¹⁰¹ Canodd Dafydd Llwyd yntau gywyddau dychan, un ohonynt yn dychanu Siôn Dafi am geisio athrod rhyngddo a'r brenin ac un arall yn dychanu gwraig eiddigus, gan ei chyferbynnu'n anffafriol â gwraig fonheddig nad oedd yn eiddigus.¹⁰² Sylwer bod yr ail gywydd yn dwyn cyswllt thematig agos iawn â chywydd Gwerful Mechain i wragedd eiddigus.¹⁰³ Er na cheir yr un cywydd dychan gan Werful Mechain, sylwer bod yr elfen honno o hiwmor a dychan, a'r gallu i wawdio a derbyn bod yn gyff gwawd, yn chwarae rhan ganolog yn ei gwaith, fel ym marddoniaeth amatur ei hoes a'i hardal yn arbennig.

Wrth sôn am Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi, dywed yr Athro Dafydd Johnston, 'Mae eu cynganeddu hwy'n ysgafn a naturiol, heb dynnu sylw ati'i hun o gwbl, ac fe ymddengys fod Lewys yn barod i dderbyn ambell linell o gynghanedd wallus, hyd yn oed, dim ond iddi fod yn swynol i'r glust.'¹⁰⁴ Ymddengys llinellau 'gwallus' (neu anghonfensiynol efallai) yng ngwaith Gwerful Mechain hithau. Ceir ganddi linellau heb gynghanedd:

Y Groes lle y lladdwyd Iesu (4.33)
 Mwy no rhai o'r rhianedd (4.55)
 Hithau a farn ar yr anwir (4.61)
 Ac obry moli heb wg (9.11)
 Bras yw dy gastr, bras gadarn—dyfiad (12.5).

Ceir yn ei gwaith hefyd enghreifftiau o linellau hir:

A wnêl drwg heb ei ddiwgiaw (2.47)
 I neb o ffurfeidd-deb y ffydd (10.57)
 A pha amser, ddiofer Ddafydd (11.3)
 A gorau'n fyw gyrru'n fuan (12.19)
 Pa bryd y cair, er Mair mawr iaith (13.3)
 A hwde o doi hyd y din (14.4)
 Dager drwy goler dy galon—ar osgo (15.1).

⁹⁹ GLM 57–9 (cerdd XVI).

¹⁰⁰ GGi² 98–100 (cerdd XXXVII).

¹⁰¹ BL Add 14866 [= RWM 29], 87^v; BL Add 14882 [= RWM 31], 73^v; BL Add 31071, 21^r; Brog (y gyfres gyntaf) 4, 73; Card 2.40 [= RWM 26], 108; LIGC 2023B [= Pant 56], 24; LIGC 3056D [= Mos 160], 268; Llst 118, 351; Pen 77, 303; Pen 112, 703; Pen 312, ii, 40.

¹⁰² GDL1 171–4 (cerddi 79–80).

¹⁰³ Cerdd 10.

¹⁰⁴ Dafydd Johnston, *op.cit.* 8.

Ceir yn ogystal linellau byr, megis y rhai a ganlyn, a ddaw o linellau cyntaf englynion:

Ateb i'm hwyneb o'm hiaith—fanwl (13.1)
 Fy mhais a wlychais yn wlych—a'm crys (16.1)
 Rhown fil o ferched, rhown fwyn—lances (17.1).

Sylwer hefyd na cheir cyfatebiaeth gyflawn bob tro rhwng y gair cyrch a'r ail linell yn ei henglynion: e.e.

dyfiad / Fal tafod cloch Badarn (12.5–6)
 ar osgo / I asgwrn dy ddwyfron (15.1–2)
 ... lances, / Lle ceisiais i orllwyn (17.1–2).

Gwelir bod y ddwy linell isod yn dibynnu ar yr elfen lafar i gynnal y gynghanedd:

A wnêl drwg heb ei *ddiwgiaw* (2.47)
 Merch a *helethe* Eneas (4.15).

Ceir llinellau o gynghanedd sain gyda chytseiniaid diweddol yr orffwysfa heb eu hateb yn y goben, hynny yw, cynganeddion sain bengoll. Ceir canran arbennig o uchel o gynganeddion sain yng 'Nghywydd y Gont' (cerdd 9) ac y mae nifer o'r rheini yn bengoll:

Pob rhyw brydydd, dydd dioed (9.1)
 Yn anghwbl iawn, ddawn ddiwad (9.7)
 A moli gwen, len loywlun (9.15)
 Mewn cyfle iawn, ddawn ddifreg (9.35)
 Am hyn o chwaen, gaen gerydd (9.37)
 Fforest falch iawn, ddawn ddifreg (9.45).

Oherwydd amllder llinellau yn cynnwys *n* wreiddgoll neu berfeddgoll, *f* ledlafarog ac ati yn y testun, ni chyfeirir at nodweddion cynganeddol o'r fath yn y nodiadau ar y cerddi unigol rhag iddynt fynd yn feichus. I nodi rhai enghreifftiau:

Ni bu aelod heb weli (1.48)
 Ef a sai' hap i oes hir (2.50)
 I'r llech oer, llai fu ei chŵyn (3.40)
 Ni bu Dduw heb ei ddial (3.73).

Yn ogystal ag *n* wreiddgoll a pherfeddgoll, ceir enghreifftiau o *r* ac *m* wreiddgoll a pherfeddgoll yng ngwaith Gwerful Mechain:¹⁰⁵

Ar bren croes i brynu Cred (1.2)
 A'r glaiif drud i'w glwyfo draw (1.37)
 Am odde a wnaeth, i Dduw Ne' (4.38)
 Am eu gwaith, arddoedyd gwir (4.62)

¹⁰⁵ Thomas Parry, 'Pynciau cynghanedd', B x (1939–41), 1–5; gw. hefyd Eurys Rowlands, 'Dadansoddiad o gynghanedd Lewys Môn', LICy iv (1956–7), 135–61.

Galw dyn hardd gledren hŵr (4.70)
 Yr un ffŵl a neidio wrth ffon (4.77)
 A'm bryd oedd, ond bwrw dyddie (7.19)
 Brusner cont, bras yn y carn (12.7).

Fel yng ngwaith beirdd y bymthegfed ganrif yn gyffredinol, felly, ceir yn ei gwaith nifer o linellau ac ynddynt *n*, *r*, *m* ac *f* wreiddgoll. Ond yn fwy annisgwyl, ceir sawl enghraifft o gytseiniaid eraill sy'n ymddangos yn wreiddgoll ac yn berfeddgoll, er enghraifft *dd*:¹⁰⁶

Foelder dwyfron feddal dew (9.14)
 Gwae ynys y gwiddanod (13.16),

ac ambell dro ceir sawl cytsain wreiddgoll ddieithr ar ddechrau llinell:

A'r cedor clyd, hyder claer (9.23)
 Lle carwn i, cywrain iach (9.25)
 Dof yn d'ôl oni'm delir (12.15)
 Fe ddaw tro i hon trwy hyn (13.8).

Yn ôl y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, 'Symol yw ei chreffft ar brydiau: ei cherddi gorau yw ei chywydd i ddiodeffaint Crist ac un arall yn amddiffyn gwagedd, yn ateb i ymosodiad gan Ieuan Dyfi.'¹⁰⁷ Wrth drafod crefft barddoniaeth Gwerful Mechain dywed Leslie Harries 'nad oedd hi ei hun yn cadw'r rheolau yn fanwl'.¹⁰⁸ 'Yn wir', meddai, 'yr wyf agos â meddwl na thrafferthodd Gwerful i saernïo ei gwaith, ac mai cyfrwng i fynegi ei meddwl yn unig oedd yr awen iddi. Hynny yw, fe lifodd cwpledi o farddoniaeth allan ohoni fel dŵr o ffynnon, ac yr oedd cynganeddu yn ail natur iddi, a lle dywedasai merch arall ei meddwl â'r tafod yn unig, medrai Gwerful hithau hynny mewn cynghanedd heb feddwl am gelfyddyd ei chynhyrchion.'¹⁰⁹

Damcaniaeth arall a gynigir gan Leslie Harries wrth geisio esbonio'r 'gwallow' a ymddengys yn ei barddoniaeth yw 'bod y copïau'n fynych wedi eu codi oddi ar gof a'u llygru gan y rhai a'u copïai, neu a'u hadroddai, a chan y copïwyr hefyd'.¹¹⁰ Serch hynny, dywed Dr Ceridwen Lloyd-Morgan fod nifer helaeth y fersiynau llawysgrifol o'i gwaith yn tystio i'r bri a roddid ar ei barddoniaeth ac yn dangos:

iddi gael ei derbyn fel bardd llawn cystal â'r dynion. Dyna a awgrymir hefyd gan y duedd i briodoli cerddi gan Dafydd ap Gwilym ac eraill iddi. Mor ddiweddar â 1896, yn ei gyfrol *Cartrefi Cymru*, mentrodd hyd yn oed Syr Owen M. Edwards gyfeirio at ei 'hathrylith'. Ac er iddo sôn amdani fel awdur cerddi erotig yn bennaf ('un a ymddigrifodd mewn

¹⁰⁶ Am enghraifft arall gan fardd diweddarach, gw. GSH 11.2n.

¹⁰⁷ CLC² 301.

¹⁰⁸ Huw Cae Llwyd, &c.: Gw 25.

¹⁰⁹ *Ib.*

¹¹⁰ *Ib.*

meddyliau cnawdol’), lled-awgrymir ei edmygedd ohoni yn y geiriau ‘ac y mae bron a medru gwneythur yr aflan yn brydferth’.¹¹¹

Ac er i Leslie Harries dynnu sylw at y ffaith fod llawer o’i llinellau yn ‘hollol niwlog’ a’i henglynion yn ‘hanner llythrennog’, ni ddylid llyncu ei feirniadaeth yn gwbl ddihalen.¹¹² O ddarllen ei astudiaeth, ceir yr argraff mai braidd yn llugoer oedd ei agwedd ati a’i ymdrech i fynd i’r afael â’i gwaith. Atgyfnerthu’r dyb hon a wna sylw Dr Ceridwen Lloyd-Morgan:

Er bod Leslie Harries wedi golygu rhai o’i cherddi yn ei draethawd M.A. (Prifysgol Cymru), ‘Barddoniaeth Huw Cae Llwyd ac Eraill’, yn 1933, gan ychwanegu trafodaeth fer ar ei bywyd a’i gwaith, pan gyhoeddwyd ei ymchwil ugain mlynedd yn ddiweddarach dan y teitl *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, hepgorwyd y bennod ar Gwerful. ‘Wrth gymhennu’r traethawd i’w gyhoeddi’, meddai Harries yn ei ragair, ‘bu’n rhaid cwtdogi llawer a gadael ei barddoniaeth hi a’r bennod amdani allan’. Nid esboniodd pam y bu rhaid diarddel Gwerful yn anad un o’r dynion.¹¹³

Y mae’n bwysig tynnu sylw at y ffaith fod rhai o gerddi Gwerful Mechain yn cynnwys mwy o nodweddion crefft anarferol nag eraill. Nodweddion cynganeddol digon cyffredin a derbynol a geir yn ei chywydd ‘Dioddefaint Crist’, sef cynganeddion yn cynnwys *r* ac *n* wreiddgoll.¹¹⁴ Serch hynny, sylwyd ar nodweddion digon anghyffredin ar ei chrefft mewn darnau eraill o’i barddoniaeth. Yn y cywyddau ymryson a’r cywyddau maswedd, er enghraifft, ceir llinellau digynghanedd, llinellau hir, elfennau llafar yn cynnal y cynganeddion, cynganeddion sain gyda chytseiniaid diweddol yr orffwysfa heb eu hateb yn y goben a chynganeddion ‘gwreiddgoll’.¹¹⁵ Anodd iawn yw derbyn mai yn gwbl ddamweiniol y datblygodd y bwlch amlwg hwn o ran safon crefft rhwng y gwahanol ddarnau o farddoniaeth, a gellid dadlau bod testun y farddoniaeth ei hun yn hawlio gofynion gwahanol. Perthyn y cywydd ‘Dioddefaint Crist’ i’r dosbarth pwysicaf o farddoniaeth, sef y canu crefyddol, a byddai gofyn i’r grefft adlewyrchu hynny. Nid moli noddwr arbennig a wneir yma ond clodfori’r Creawdwr a dathlu atgyfodiad Crist. Yn achos y cerddi maswedd a’r cerddi ymryson gellir awgrymu efallai fod mwy o lacrydd yn cael ei ganiatáu a bod arucheledd crefft yn cael ei gollu yn sgil diffyg arucheledd y testun. Yn y cywyddau maswedd a’r ymrysonau y mae’r elfen o ddigrifwch, o dynnu coes a thalu’r pwyth yn ôl yn amlwg iawn. Y mae canu o’r fath yn ddibynnol ar un ffactor hollbwysig, sef bod y beirdd hyn yn adnabod ei gilydd yn dda. Gan mai hwyl rhwng cyfeillion oedd fframwaith llawer o’r canu ‘ysgafn’ hwn, y mae’n bosibl y caniateid mwy o ryddid o ran testun a

¹¹¹ Ceridwen Lloyd-Morgan, *op.cit.* 85.

¹¹² Huw Cae Llwyd, &c.: Gw 25, 178.

¹¹³ Ceridwen Lloyd-Morgan, *op.cit.* 87. Gw. 7n.

¹¹⁴ Cerdd 1.

¹¹⁵ 4.15, 33, 45, 49, 55; 7.14, 69; 9.1, 7, 11, 15, 23, 25, 35, 37, 45; 10.57.

chreffft. At hynny, gellir awgrymu bod y cerddi wedi eu cyfansoddi ar y pryd yng nghwmni beirdd eraill, yn ôl yr arfer ymhlith y beirdd o wneuthur ‘cyff clêr’.¹¹⁶

Yn ei gyfrol *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol* y mae'r Athro Dafydd Johnston yn tynnu sylw at rai nodweddion yn y farddoniaeth sy'n tramgwyddo rheolau crefft y gynghanedd. Yn y cywydd anhysbys ei awduriaeth ‘Cywydd y cydio’ ceir llinell sy'n dibynnu ar elfen lafar er mwyn cynnal y gynghanedd a'r brifodl:

Ceres fileines luniedd (CMOC² 50 (ll. 1)).

Ceir hefyd llinellau hir yn y cywydd hwn:

a myned, mi a'm enaid wyl (*ib.* (ll. 9))

a'i gyrru ar y gorwaered (*ib.* (ll. 17))

on'd aeth ei blaen i eitha'i blwch (*ib.* (ll. 22)).

Ceir llinellau hir yn y cywydd ‘Ffantasi’ gan Hywel Dafydd hefyd:

a rhoddi naid rhyddi a nef (*ib.* 56 (ll. 36))

â rhidens o fedw a rhedyn (*ib.* (ll. 44)).

Yn ôl yr Athro Johnston, dengys arddull y cywydd ‘Ymddiddan rhwng mab a merch’ ei fod wedi ei gambriodoli i Ddafydd ap Gwilym yn y llawysgrifau, ac awgryma mai merch oedd yr awdur.¹¹⁷ Ceir sawl llinell hir yn y cywydd:

y geiriau oedd gynnu gennyd? (*ib.* 74 (ll. 20))

Hwy aethon' fal haul, traul tremynt (*ib.* (ll. 21))

i wely chwain â'r gal fain fach (*ib.* (ll. 28)).

At hynny, yng nghywydd Ieuan Gethin ‘Y chwarae'n troi'n chwerw’ ceir llinell sy'n dibynnu ar yr elfen lafar i gynnal y gynghanedd:

Gwae a brofes, f'afles fu (*ib.* 90 (ll. 19)).

Wrth astudio barddoniaeth Gwerful Mechain y mae'n ddiddorol iawn sylwi bod rhai o'r nodweddion crefft anarferol a welir yn ei gwaith hefyd yn ymddangos yng ngwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn, yn enwedig yn y cerddi ymryson a gyhoeddir yma. Ceir cynganeddion ‘gwreiddgoll’ yn ei waith yntau:

Nodi'r glain gynt glan Gwy (11.16)

Fel dyna dres o dôn' ar dro (14.7)

Tost a chaled gochelwch (20.3)

Dan draed ydd â yn y drin (GDL1 38 (8.53))

Myn Dwynwen, nid adwaenoch (*ib.* 95 (40.33))

Os ar Sais gwae hwy'r Saeson (*ib.* 102 (44.52))

¹¹⁶ GGH xxxviii–xxxix; Jerry Hunter, ‘Cyd-destunoli Ymrysonau'r Cywyddwyr: Cypolwg ar “Yr Ysbaddiad Barddol”’, *Dwned*, iii (1997), 33–52.

¹¹⁷ CMOC² 74.

Watcyn hael, ddeucan haelwyd (*ib.* 104 (45.3)),

a sawl enghraifft o gynghanedd ‘wreiddgoll’ mewn cywydd brud ganddo:

Heb swrn o arian i’r siri (*ib.* 76 (29.30))

A’ m saer i a syr yn ôl (*ib.* (29.43))

Na fydd ofer dy fwriad (*ib.* 77 (29.68)).

Y mae’r cysylltiad barddol rhwng Dafydd Llwyd a Gwerful Mechain yn ddigon hysbys yn sgil yr holl ymrysona a fu rhyngddynt. Ond, o astudio nodweddion eu crefft, gellir awgrymu bod y cysylltiad hwn yn treiddio cryn dipyn yn ddyfnach. Prin iawn, os o gwbl, y ceir cynganeddion ‘gwreiddgoll’ yng ngweithiau beirdd cyfoes eraill. Ni wyddys dim am amgylchiadau addysg farddol Gwerful Mechain, ond efallai fod llacrywydd cynganeddol ac anarferol y ddau fardd hyn wrth ganu cerddi o *genre* arbennig yn adlewyrchu’r un math o syniadaeth farddol. Ar sail y dystiolaeth a geir o ran cyfatebiaeth rhwng eu crefft, nid gorfentrus fyddai awgrymu mai Dafydd Llwyd o Fathafarn a oedd yn gyfrifol am feithrin dawn Gwerful Mechain ac am ei hyfforddi fel bardd.

Trosghwyddiad y farddoniaeth

Fel yn achos nifer o feirdd y bymthegfed ganrif, ni cheir yr un copi o gerdd gan Werful Mechain mewn llawysgrif gyfoes â hi. Perthyn y llawysgrif gynharaf sy’n cynnwys ei gwaith, sef BL Add 14967 [= RWM 23], i ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg a’r gweddill i’r cyfnod rhwng hynny a’r ugeinfed ganrif. Tystia nifer helaeth y llawysgrifau a gopiwyd, sy’n rhychwantu cyfnod o tua phedair canrif, i rai cerddi arbennig barhau’n boblogaidd iawn. Gellir mesur apêl y farddoniaeth drwy sylwi pa gerddi y ceir y nifer mwyaf o gopiâu ohonynt. Yn hyn o beth saif y cywydd ‘Dioddefaint Crist’ (cerdd 1), y ceir 68 copi llawysgrif ohono, ben ac ysgwydd uwchlaw’r gweddill. Cynnwys llawysgrifau Llst 167, LIGC 7191B, LIGC 3039B [= Mos 131] a Pen 198 dri darn o farddoniaeth gan Werful Mechain: ni cheir yr un llawysgrif sy’n cynnwys mwy na thair cerdd gyda’i gilydd. Y mae’n amhosibl gwybod a gafodd rhywfaint o’i gwaith ei gofnodi yn ystod ei hoes; serch hynny, gellir awgrymu iddo gael ei drosglwyddo weithiau ar lafar ac nid trwy gyfrwng llawysgrifau yn unig. Awgryma’r amrywiaeth mawr a geir yn y gwahanol gopiâu llawysgrifol yn gryf fod y farddoniaeth wedi bodoli a goroesi yn bennaf yn y traddodiad llafar, ac ategir y ddamcaniaeth hon gan yr amrywiaeth yn nhrefn y llinellau yn achos rhai o’r cywyddau. Yn hyn o beth y mae’r cywydd ‘Dioddefaint Crist’ (cerdd 1) yn mynnu sylw. Dengys amrywiaeth helaeth y darlenniadau yn y gwahanol gopiâu llawysgrif, yn ogystal â’r gwahaniaeth sylweddol yn nhrefn y llinellau yn yr amrywiol gopiâu, fod y cywydd hwn yn boblogaidd iawn ar lafar ar un adeg ac i’r testun ddiodefaint o’r herwydd. Yn achos ‘Cywydd y gont’ (cerdd 9), yn un llawysgrif yn unig y mae trefn y llinellau

yn gwahaniaethu. Ond, wedi dweud hynny, dengys yr amrywiol ddarllenïadau yn y copïau llawysgrifol yn achos y cywydd hwn a rhai o'i chywyddau eraill i'r farddoniaeth gylchreddeg ar lafar. Ceir rhai ffurfiau tafodieithol ac olion llafar yn yr amrywiadau, nodwedd arall a all awgrymu dylanwad y traddodiad llafar: er enghraifft, 1.43 *gyfraeth odidog* yn R; 1.53 *pen dynwyd* yn P; 4.3 *gen hwn* yn D; 4.6 *pen fydd* yn A; 4.28 *kare i gwr* yn A; 7.1 *o emyl* yn B; 7.10 *y brewd* yn B; 9.7 *ddawn ddiiddad* yn ABDFGHJ–M; 10.14 *ar galie*; 10.55 *ni chenes*; 13.8 *ei handlo hyn* ar yr ymyl yn B; 16.3 *ddeniel* yn B.

Y mae llawysgrif CM 1491, neu 'Lyfr Dolwar Fach' fel y'i gelwir, mewn cyflwr gwael iawn ond, er gwaethaf ei diffygion amlwg fel ffynhonnell destunol, y mae'n gasgliad pwysig sy'n cynnwys detholiad o farddoniaeth gan feirdd lleol yn bennaf. Copiwyd barddoniaeth Gwerful Mechain mewn cyfrol lle y ceir testunau gan feirdd megis Harri Parri, Craig-y-gath, Evan Williams y clochydd, Dafydd Jones, Efail Llwydiarth, Hugh Jones Llangwm, Edward Morris o'r Perthillwydion, Huw Morys, Ieuan Fardd a Thwm o'r Nant.¹¹⁸

Cerddi yr amheuir eu hawduriaeth a cherddi annilyd

Cynhwysir yr englynion a ddilyn yn y testun golygedig. Serch hynny, erys peth amheuaeth ynghylch dilysrwydd eu hawduriaeth.

Cywirais ddydd, cerais ddoe (cerdd 19)

Yn MFGLI priodolir yr englyn hwn i Werful Mechain fel ateb i'r englyn 'Ofnhau yr wyf yn fy nhyb' gan Ddafydd ab Edmwnd. Ceir deuddeg fersiwn dienw o'r englynion hyn yn y llawysgrifau. Cysylltir pedwar testun ychwanegol ag enw Siôn Brwynog (Card 4.10 [= RWM 84], 416; CM 25, 115; CM 25, 151; LIGC 836D, 29) a phriodolir yr englyn gofyn i Ddafydd ab Edmwnd a'r englyn ateb i Werful Mechain mewn dau fersiwn llawysgrif arall (CM 149, 89; Pen 198, 185). Yn llawysgrif CM 149, 93 ceir y nodyn, 'Ofnhau yr wy'n fy nhub, see p. 89. D. ab Edmwnd a Gwerfil Mechain yn cydganu'. Yn nhraethawd Rose M. Kerr, 'Cywyddau Siôn Brwynog', ystyrir yr englyn gofyn yn ddienw, a'r englyn ateb yn unig a briodolir i Siôn Brwynog.¹¹⁹ Er hynny, y mae'n ddigon posibl y gallai bardd gyfansoddi englyn gofyn a llunio ateb iddo yn ogystal. Yn rhai o'r fersiynau llawysgrif dienw ceir y nodyn canlynol yn rhagflaenu'r testun, 'gofyn pa un fwya yn Caru ai Mab ai Merch' (Bangor 92, 30^v, cf. LIGC 672D, 108; Pen 244, 76; Wy 6, 140). Digon naturiol fyddai tybio mai gŵr sy'n gofyn yn yr englyn cyntaf ac mai gwraig sy'n ateb yn yr ail englyn. Yr oedd Gwerful Mechain a

¹¹⁸ R.M. Jones, *Cyfriniaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1994), 137. Gw. hefyd E. Wyn James, 'Ann Griffiths: y cefndir barddol', LICY xxiii (2000), 162–3.

¹¹⁹ Rose M. Kerr, 'Cywyddau Siôn Brwynog' (M.A. Cymru [Bangor], 1960), 192–3.

Dafydd ab Edmwnd yn cydoesi ac felly y mae'n ddigon posibl fod yr englynion hyn yn perthyn iddynt hwy. Gwelir cysylltiad arall rhyngddynt os derbynnir mai Gwerful yw'r ferch a enwir gan Ddafydd yn ei bennill cadwynfyr a ddyfynnir uchod td. 8. Yn ogystal, fel bardd serch yn bennaf yr ystyridd Dafydd ab Edmwnd, ac felly y mae pwnc yr englynion hyn yn gweddu i'r dim. At hynny, y mae naws y llinell olaf, 'Cymaint yw serch merch a mw', yn ein hatgoffa o'r math o farddoniaeth a geir gan Werful Mechain yn fynych, sef barddoniaeth sy'n pwysleisio safbwynt y ferch. At ei gilydd, felly, y mae'n ymddangos yn dra phosibl mai Gwerful a Dafydd ab Edmwnd a ganodd yr englynion hyn.

Ni hyllt naws gwyllt yn oes Gwen (cerdd 20)

Yn MFGLI priodolir yr englyn hwn i Werful Mechain fel ateb i'r englyn 'Os ceffyl, cul coeliwch—y feinir' gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn. Dim ond un fersiwn llawysgrif o'r englyn hwn a geir, sef Pen 198, xiii, lle y ceir y nodyn, 'Englyn o waith Dafydd Llwyd ab Llywelyn ab Gruffydd pan gyfarfu ef Gwerfyl o Aber Tanat yn ferchog ar Geffyl Llymsi yn myned drwy Afon Dana[]' yn union uwchben y ddau englyn. Yn ôl *Y Bywgraffiadur Cymreig*, 'Cymysgir rhyngddi [Gwerful Mechain] â Gwerful, ferch Madog o Fro Danad, yn *Eminent Welshmen* ac *Enwogion Cymru*; nid i Werful Mechain y farddes y canodd Guto'r Glyn',¹²⁰ ac ymddengys fod copiyydd Pen 198 wedi cymysgu rhwng y ddwy wraig yn yr un modd. Nid oes unrhyw dystiolaeth fod Gwerful ferch Madog ap Meredudd, aeres Blodfael ac Abertanad ym Mechain, yn barddoni ond nid oes prinder dystiolaeth am yrfa farddol Gwerful Mechain a Dafydd Llwyd a'r holl ymrysona a fu rhyngddynt.

Gŵr penwyn sydyn at siad—findenau (cerdd 21)

Gweles eich lodes lwydwen—eiddilaid[d]

Yn MFGLI priodolir y ddau englyn hyn i Werful Mechain ac fe'u priodolir iddi yn y ddwy ffynhonnell lawysgrifol, sef LIGC 436B, 104^v a Pen 203, 137. Yr ail englyn yn unig a geir yn LIGC 436B ond ceir y ddau gyda'i gilydd yn Pen 203. Yn rhagflaenu'r englyn cyntaf yn Pen 203, 137 ceir y nodyn canlynol, 'Howel Fychan o Gaer Gai ac ef ddim yn iach a ddanfonodd ei ferch Gwerful Mechain i gymanfa yn ei le ac yn ei thŷ llety daeth dynes i holi am Howel Fychan; hithau a ofynnodd ei gweled ac a ddywedodd wrthi ...' Dengys yr Athro Dafydd Johnston fod cymysgu wedi digwydd rhwng Gwerful Mechain a Gwerful Fychan o Gaer-gai a gellir tybio mai'r dryswch hwn sy'n gyfrifol am y cyfeiriad at Gaer-gai yn nhestun Pen 203, 137.¹²¹ Wrth drafod yr englyn 'Gweles eich lodes lwydwen—

¹²⁰ ByCy 306.

¹²¹ Dafydd Johnston, 'Gwenllian ferch Rhirid Flaidd', *Dwned*, iii (1997), 32. Am ragor o fanylion, gw. yr isadrannau 'Hywel Fychan' a 'Gwerful Fychan', tt. 2–4 uchod.

eiddilaid[d]' dywed Dr Ceridwen Lloyd-Morgan i thema'r ferch ifanc yn priodi gŵr oeddrannus barhau'n boblogaidd ac i englyn hynod debyg i hwn gael ei briodoli i Alis ferch Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn yn y ganrif ddilynol.¹²²

Oerflawd, daeargnawd, du oergnu—mynydd (cerdd 22)

Eira gwyn ar fryn fry—a'm dallodd

Yn MFGLL priodolir y ddau englyn hyn i Werful Mechain. Ceir yr englynion hyn mewn wyth llawysgrif, ond mewn dwy yn unig y ceir y ddau englyn gyda'i gilydd, sef CM 24, 12 a Llst 165, 141, a phriodolir y fersiynau hynny i 'Werful Fechan'. Mewn pum fersiwn llawysgrif dienw dim ond un o'r ddau englyn a geir. Ond yn CM 117, 211, lle y ceir yr ail englyn yn unig, rhagflaenir y testun â'r frawddeg a ganlyn, 'Gwerfil Goch neu Mynor Vychan Caer Gai wrth ddychwelyd dros y mynydd o Drawfynydd [*sic*] Yn nhrymder y Gauaf Goddiweddwyd hi gan Ystorm o eira Collodd y ffordd am beth amser ac yn ol ei chael dywedodd'. Gellir dweud i'r cymysgu a fu rhwng y ddwy Werful (Gwerful Mechain a Gwerful Fychan) ddatblygu'n fath o draddodiad ynddo'i hun.¹²³

Och! lety, gwely gwaeledd,—anniddan (cerdd 23)

Nid oes cyfeiriad at yr englyn hwn yn MFGLL. Un fersiwn llawysgrifol yn unig a geir ohono a hwnnw yn CM 117, 211, lle y digwydd islaw fersiwn o'r englyn 'Eira gwyn ar fryn fry—a'm dallodd'. Ei deitl yw 'Englyn i'r Bedd gwaith yr un Awdures' a than y testun nodir, 'Gwerfil a'i Cant' (gw. y nodyn a geir yn CM 117, 211 dan gerdd 22).

Ni chynhwysir y cerddi canlynol yn y testun golygedig oherwydd y mae'n bur annhebygol mai Gwerful Mechain a'i cyfansoddodd:

Dydd barn dydd cadarn

Diboen merch Coel Godebog

Dyn tanboeth anoeth

Duw'r tad Duw'r mab

Dau beth hoyw odieth

Dihelbul ond antur fydd dyn.

Gan fod yr englynion hyn wedi eu cadw yn y drefn a nodir uchod, rhwng dau fersiwn o gerdd 15 yn llaw John Jones, Gellilyfdy, yn LIGC 3039B [= Mos 131], 404–6, cymerir yn RWM i, 92 mai gwaith Gwerful Mechain ydynt i gyd er na cheir ei henw wrth yr englynion hyn mewn unrhyw ffynhonnell arall. Sut bynnag, priodolir yr englyn cyntaf i Rys ap Siôn yn

¹²² Ceridwen Lloyd-Morgan, '“Gwerful, ferch ragorol fain”': golwg newydd ar Gwerful Mechain', YB xvi (1990), 94–5, gw. n. 37. Gw. hefyd erthygl Cathryn A. Charmell-White, 'Alis, Catrin a Gwen: tair prydyddes o'r unfed ganrif ar bymtheg. Tair chwaer?', *Dwned*, v (1999), 89–104.

¹²³ Dafydd Johnston, *art.cit.* 32. Am ragor o fanylion, gw. yr isadrannau 'Hywel Fychan' a 'Gwerful Fychan', tt. 2–4 uchod.

LIGC 3039B [= Mos 131], 407, priodolir yr ail englyn i Rosser Siâms yn Card 2.26 [= RWM 18], 223 a phriodolir y pedwerydd englyn i Iolo Goch yn IG 665. Y mae'n bosibl fod John Jones wedi rhoi'r englynion gyda'i gilydd yn fwriadol, ond diogelach fyddai eu gwrthod yn hytrach na'u derbyn i'r canon, yn enwedig o gofio i'r englyn cyntaf gael ei briodoli i Werful ac i Rys ap Siôn yn LIGC 3039B [= Mos 131].

Gwae'r undyn heb gywreindeb (cerdd 4)

Yn MFGLI caiff y cywydd hwn 'I ateb Ieuan Dyfi am gywydd Anni Goch' ei gymysgu â chywydd gan Siôn Tudur gan fod llinell gyntaf y ddau gywydd yr un fath, gw. GST i, 711–14 (cerdd 179). Dim ond pum copi llawysgrif o gerdd 4 a geir, sef BL Add 14896 [= RWM 43], 25^r; Card 3.37 [= RWM 20], 376; LIGC 566B, 83; Llst 124, 375; Pen 99, 119.

Gwerful wyf o gwr y lan

Yn MFGLI priodolir y cywydd hwn, y ceir pedwar copi llawysgrif ohono, i Werful Mechain. Yn Card 4.156 [= RWM 64], 192 fe'i priodolir yn syml i Werful 'yr hon oedd dafarnwraig'. Ond yn y tri chopi arall, sef BL Add 14875 [= RWM 30], 5^v; CM 169, 79; LIGC 112B, 4, priodolir y cywydd i Werful ferch Gutun, tafarnwraig Tal-y-sarn. Dywed Dr Enid Roberts am Werful Mechain, 'Nid tafarnwraig mohoni; y mae'r Gwerful Fychan neu Fechan oedd yn cadw tafarn ym Mhen-y-sarn-hir yn Ardudwy yn perthyn i gyfnod o leiaf ganrif yn ddiweddarach',¹²⁴ ac y mae'r nodyn islaw'r testun yn llawysgrif LIGC 112B, 4, fel petai yn cadarnhau damcaniaeth Dr Roberts. Yn ôl J.H. Davies, NLWCM 113, 'The preceding poems were sent to Edward Jones by William Owen Pughe with a note as to the latter "I copied the above poem thinking you would like it being the production of a jolly Landlady of the sixteenth century. W.O."'.

Gwylwch na chodwch i edrych

Yn MFGLI priodolir y gyfres hon o englynion brud i Werful Mechain a Dafydd Llwyd o Fathafarn, a hynny oherwydd bod eu henwau'n ymddangos islaw'r testun yn Llst 173, 177. Ond ar waelod y ddalen honno dechreu cyfres o englynion brud y gellir yn hyderus eu priodoli iddynt hwy, sef cerdd 11. Nid olnod i'r gyfres hon yw enwau'r ddau fardd, felly, ond teitl i gyfres arall o englynion. Hwn yw'r unig gopi o'r gyfres englynion sy'n hysbys ac felly gellir derbyn nad gwaith Gwerful Mechain a Dafydd Llwyd mohonynt, yn enwedig o ystyried bod y geiriau a ganlyn yn digwydd o flaen yr englyn olaf yn y gyfres, *dyna redfa owen lowgoch ar ...*

¹²⁴ Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981, 12. Gw. hefyd drafodaeth Dr Marged Haycock yn *Sefwch Allan Forynion: Merched a Llenyddiaeth cyn c.1500* (i ymddangos).

Hiraeth glwys alaeth glaw sydd

Priodolir yr englyn hwn i Werful Mechain yn MFGLI, ond enw Gwenhwyfar ferch Howel ap Gruffydd a geir oddi tano yn y ddau gopi llawysgrif, sef LIGC 1553A, 518 a LIGC 3039B [= Mos 131], 530.

Iesu Duw Iesu dewiso

Priodolir yr awdl hon i Werful Mechain yn MFGLI, ond y mae'n darllen yn gwbl bendant fel awdl sy'n perthyn i gyfnod y Diwygiad Protestannaidd:

Y côr a'r allor a ddrylliwyd—ar gam
 Ac ymaith fo'u taflwyd,
 A'r Ladin a erlidiwyd
 O gôr a llan y gŵr llwyd.

Dwyn caregl Iesu o'r eglwysi
 Heb les ond rhodres a gwrhydri,
 Gwilian' eto eu symio a'u llwyr siomi
 A'u balchder a'u hyder a Duw'n eu hoedi.¹²⁵

Mae'r gynfas yn fras ar fryn

Priodolir yr englyn hwn i Werful Mechain yn MFGLI, ond enw Gwenhwyfar ferch Howel ap Gruffydd sydd i'w weld o dan yr unig gopi llawysgrif ohono sy'n hysbys, sef Card 2.202 [= RWM 66], 370e.

Ni wn o'r byd hwn i ble tynnaf

Yn MFGLI priodolir yr englyn hwn, sef y cyntaf mewn cyfres o bedwar, i Werful Mechain. Fe'i priodolir i nifer o bobl eraill hefyd ond dichon ei fod yn perthyn i gyfres o bedwar englyn a ganodd Hywel ap Syr Mathew i'r angau ac yntau ar ei 'glaf wely', gw. CM 552, 405; LIGC 436B, 109 a Llst 165, 140.

Rho Duw gal rhaid i'w gwyliaw

Priodolir y cywydd hwn, sef 'Cywydd y gal', i Werful Mechain yn y llawysgrifau canlynol, Card 5.10i [= RWM 48], 89; CM 244, 98^v; CM 317, 253; LIGC 3047C [= Mos 144], 139; LIGC 7191B, 114; LIGC 12873D, 29^v a Llst 35, 194, ac fe'i priodolir iddi yn MFGLI. Ond ar sail astudiaeth fanwl o'r cynganeddion a nodweddion crefft y cywydd casgla'r Athro Dafydd Johnston mai Dafydd ap Gwilym a'i canodd. Wrth ei gymharu â 'Cywydd y gont' (cerdd 9), dywed, 'The two poems are clearly not the work of the same poet.'¹²⁶ Ceir nodyn sy'n cryfhau'r amheuon ynghylch priodoli'r cywydd hwn i Werful Mechain ar ddiwedd copi CM 317, 253, 'Cywyddau Cywilyddus o [ffug-] waith Gweyrful Mexain'.

¹²⁵ BL Add 14908, 9^v, LIGC 278B, 11 a Pen 73, 115, llau. 57–60, 65–8.

¹²⁶ David Johnston, 'Cywydd y Gal by Dafydd ap Gwilym', CMCS ix (Summer 1985), 74.

Y gŵr a gaiff gyrru gwin

Yn ôl MFGLI, priodolir y cywydd hwn o waith Ieuan Deulwyn yn gyntaf i Werful Mechain ac wedyn i Ieuan Deulwyn yn BL Add 14967 [= RWM 23], 198. Ond mewn gwirionedd nid oes cambriodoli, fel y cyfryw, wedi digwydd. Ymddengys i gopiïdd y llawysgrif ddechrau copïo'r cywydd hwn ond iddo ei adael tua hanner ffordd drwodd a mynd ati i gofnodi'r cywydd 'Dioddefaint Crist' (cerdd 1) gan Werful Mechain. Yr hyn a geir yn BL Add 14967 [= RWM 23], 198, felly, yw hanner cyntaf cywydd Ieuan Deulwyn a hanner olaf cywydd Gwerful Mechain.

Y gŵr a roes ei wryd

Yn MFGLI priodolir y cywydd hwn i Werful Mechain, Huw Cae Llwyd, Maredudd ap Rhys, Ieuan Brydydd Hir, Llywelyn Goch ap Meurig Hen, Syr Phylip Emllyn, Rhys Goch Eryri a Dafydd Nanmor, ond dangosodd Mr M. Paul Bryant-Quinn mai gwaith Ieuan Brydydd Hir ydyw, yn ôl pob tebyg.¹²⁷

Ysbïwch farch glas buan

Yn MFGLI priodolir y darn hwn o gywydd yn gofyn march glas i Werful Mechain. Awgrymodd yr Athro Dafydd Johnston, fodd bynnag, mai gwraig arall y bu cymysgu rhyngddi a Gwerful Mechain a'i cyfansoddodd, sef Gwerful Fychan gwraig Tudur Penllyn.¹²⁸

Merched a barddoniaeth: y cyd-destun ehangach

Gwerful Mechain yw'r Gymraes gyntaf y mae *corpus* o'i barddoniaeth wedi goroesi. Priodolwyd mwy o farddoniaeth iddi hi nag i'r un ferch arall yn ystod yr Oesoedd Canol a cheir 19 testun o'i gwaith yn y golygiad hwn. Yn achos Gwenllïan ferch Rhirid Flaidd, sef y bardd benywaidd cynharaf sy'n hysbys, un englyn yn unig o'i gwaith sydd wedi ei gofnodi yn y llawysgrifau.¹²⁹ At hynny, y mae cryn amheuaeth ynghylch dilysrwydd y cerddi a briodolir i Werful Fychan, gwraig Tudur Penllyn, ac ymddengys y dystiolaeth am farddoniaeth dybiedig tair merch y bardd Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan yn yr unfed ganrif ar bymtheg, sef Alis, Catrin a Gwenhwyfar, yn gymysglyd ac ansicr.¹³⁰ Yn ddiweddarach cawn sôn am Malen ac Ann, sef merched y carolwr Dafydd Manuel o'r Byrdir, Trefeglwys, a oedd yn barddoni tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, ac yn y

¹²⁷ M.P. Bryant-Quinn, '“Enaid y Gwir Oleuni”: y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, ii (1996), 51–93; gw. hefyd GIBH cerdd 12 ac yn arbennig tt. 157–9.

¹²⁸ Dafydd Johnston, 'Gwenllïan ferch Rhirid Flaidd', *Dwned*, iii (1997), 32.

¹²⁹ *Ib.* 27–32; priodolir yr englyn i Wenllïan ferch Rhirid Flaidd yn y llawysgrifau, ond y mae'r Athro Johnston o'r farn, *ib.* 28, ei bod yn llawer mwy tebygol mai Gwenllïan ferch Tudur Penllyn oedd gwir awdur yr englyn.

¹³⁰ *Ib.* 32. Cathryn A. Charnell-White, *art.cit.* 89–104.

ddeunawfed ganrif yr oedd y brydyddes Siân ach Ifan, merch o Lanfair Caereinion, yn bresennol yn yr eisteddfod a gynhaliwyd yn y Bala adeg y Sulgwyn 1738.¹³¹ Fodd bynnag, wrth sôn am y traddodiad barddol benywaidd yng Nghymru o'r Oesoedd Canol a thu hwnt pwysleisia Dr Ceridwen Lloyd-Morgan brinder y farddoniaeth gan ferched sydd wedi goroesi yn y llawysgrifau.¹³² Ar sail y dystiolaeth a ddaeth i'r golwg hyd yn hyn ynghylch barddoniaeth merched yn ystod yr Oesoedd Canol, ymddengys Gwerful Mechain a'i barddoniaeth yn hynod eithriadol. Y mae'n rhaid ystyried hefyd y posibilrwydd mai cyfran fechan yn unig o'i gwaith a gofnodwyd ac a ddiogelwyd yn y llawysgrifau. Ymddengys fod Dafydd Jones o Drefriw, yn ei englynion coffa i Angharad James, hefyd yn ymwybodol o arbenigrwydd Gwerful Mechain fel bardd:

Angharad gariad ddi-gweryl, ddistaw

Dda ystŷr fwyn Annwyl

Ai gyrfa megis Gwerfyl

Un wedd a hi 'nhuedd hwyl.¹³³

Y mae'n amlwg fod cymharu gyrfa Angharad James ag eiddo Gwerful Mechain yn gryn ganmoliaeth. Atgyfnerthu'r dyb honno a wna'r nodyn a geir yn y llawysgrif wrth ymyl y cyfeiriad at Werful, sef 'Gwerfyl ferch Howel Fychan prydyddes odiaeth oedd'.¹³⁴

Er bod barddoniaeth Gwerful Mechain yn dangos yn eglur ei bod yn wraig ddeallus ac annibynnol ei natur, ni chadwyd unrhyw wybodaeth am ei haddysg farddol nac am ei statws fel bardd amatur. Ni wyddys a oedd hi'n llythrennog ai peidio nac i ba raddau y câi ei derbyn gan ei chyfoeswyr gwrywaidd. Rhaid pwyo'n drwm ar dystiolaeth y farddoniaeth wrth geisio casglu gwybodaeth amdani, ond, mewn ymgais i ganfod beth a ddylanwadodd arni ac a fu o bosibl yn gyfrifol am ysgogi ei gweithgarwch barddonol, fe dâl i ni ystyried rhai ffactorau neu rymoedd a oedd ar waith yn y gymdeithas yn y cyfnod hwnnw.

Hinsawdd economaidd a chymdeithasol

Yn 1612 cyhoeddwyd y gyfrol *L'Égalité des hommes et des femmes* (Paris) gan Marie de Gournay, awdur a gredai mai magwraeth ac nid natur a bennai alluoedd gwraig. Wrth geisio esbonio'r rhesymau a oedd i gyfrif am lwyddiant deallusol gwragedd yn rhai diwylliannau arbennig pwysleisia de Gournay bwysigrwydd y rhyddid a brofai benywod yn sgil y '*commerce du monde*' a nodweddaï rai dinasoedd arbennig. Fel y nododd Ann Rosalind

¹³¹ E. Wyn James, 'Ann Griffiths: y cefndir barddol', LICy xxiii (2000), 147–70.

¹³² Ceridwen Lloyd-Morgan, 'Oral composition and written transmission: Welsh women's poetry from the Middle Ages and beyond', *Trivium*, xxvi (1991), 89.

¹³³ LIGC 11993A, 66.

¹³⁴ Hoffwn ddiolch i Cathryn A. Charnell-White am dynnu fy sylw at y cyfeiriad hwn.

Jones wrth drafod damcaniaeth de Gournay am bwysigrwydd y ‘*commerce du monde*’:

Her term has several connotations: economic exchange, contact with diverse social milieux, open conversation. De Gournay pinpoints the cultural exposure essential to women writers anywhere, a kind of freedom, as her *ville / village* opposition suggests, less available in the country or a small town than in a full-fledged city.¹³⁵

Serch hynny, wrth gymharu barddoniaeth Veronica Franco (1546–91), a oedd yn un o *courtisanes* nodedig Fenis, â barddoniaeth Louise Labé (c. 1520–66), gwraig o ddinas Lyon yn Ffrainc, dywed Ann Rosalind Jones:

But Labé and Franco wrote about sexual pleasure as sexual pleasure. Economic and cultural mobility in Lyon and Venice can hardly account for this new feminine eroticism in its entirety. But the openness of both cultures certainly made possible what their conservative moralists were trying to prevent: outspoken women celebrating their sexual and rhetorical power simultaneously. The enfranchised cities of Lyon and Venice certainly contributed to Labé’s and Franco’s oppositional feminism and their challenging reinscription of sixteenth-century languages of love.¹³⁶

Yr oedd Lyon a Fenis yn ddinasoedd blaengar a chosmopolitanaidd a oedd yn nodedig am eu ‘*commerce du monde*’. Ymhlith nifer o ffactorau eraill, y mae’n bosibl i natur arbennig y dinasoedd hyn fod yn ysbardun i hybu gweithgarwch barddonol gan ferched. Er nad oedd yr un ddinas yng Nghymru a’r Gororau y gellid ei chymharu â Lyon neu Fenis, fe dâl i ni ystyried dylanwad trefi megis Croesoswallt—tref hynod bwysig i drigolion y Canolbarth yn ystod yr Oesoedd Canol—wrth geisio darganfod pa ffactorau a allai fod wedi chwarae rhan yn natblygiad gyrfa farddol Gwerful Mechain. Er bod bwrdeistref Croesoswallt yn wreiddiol yn ganolfan filwrol ac yn symbol o’r goncwest, yr hyn a nodweddi’r gymuned drefol hon oedd cymathiad yn hytrach na gwrthdrawiad.¹³⁷ Yr oedd yn enghraifft brin iawn ymhlith cymunedau trefol Cymru’r Oesoedd Canol a’r Gororau o’r modd y gallai diwylliant y wlad a’r dref ymdoddi i’w gilydd ac y gallai’r Cymry a’r Saeson gyd-fyw yn heddychlon. Ymddengys fod trefi’r Gororau wedi bod yn fwy parod i groesawu ymsefydlwyr Cymraeg i’w mysg na bwrdeistrefi garsiwn y Gogledd-orllewin a pharhâi’r ffaith honno’n wir yn ystod y bymthegfed ganrif. Erbyn diwedd y ganrif honno yr oedd Croesoswallt ‘yn Gymreiciach na bwrdeistrefi Seisnig Cymru ei hun’.¹³⁸

¹³⁵ Ann Rosalind Jones, *The Currency of Eros: Women’s Love Lyric in Europe, 1540–1620* (Indiana, 1990), 155.

¹³⁶ *Ib.* 200.

¹³⁷ Llinos B. Smith, ‘Oswestry’, *Boroughs of Mediaeval Wales*, ed. R.A. Griffiths (Cardiff, 1978), 219–20.

¹³⁸ D.J. Bowen, ‘Croesoswallt y beirdd’, *Y Traethodydd*, cxxxv (Gorffennaf, 1980), 137.

Yr oedd Croesoswallt yn ganolfan fasnach nodedig, a'r diwydiant gwlan yn hynod bwysig i'w heconomi. Yn ogystal â chynnal swyddi i fasnachwyr y dref gallai poblogaeth y gymuned wledig gyfagos ac ar draws y Canol-barth ychwanegu at eu henillion drwy nyddu a phannu gwlan. Yn ôl Syr Glanmor Williams:

Cloth-making depended, for its supplies of wool, on the growing flocks of sheep reared on Welsh hills during the fifteenth century. Though a good deal of this wool was regarded as too coarse and rough to be woven into anything but inferior cloth, some of that produced along the eastern borders of Wales was of high quality and much esteemed. Large quantities of the Welsh wool-clip continued to be exported by land and sea, but a substantial amount was retained locally to be worked into cloth. It was collected, spun, and woven by small farmers and their families, including children who gathered and carded the wool.¹³⁹

Yn sgil y prif ddiwydiant hwnnw, datblygodd cysylltiadau masnachol sefydlog rhwng masnachwyr gwlan y dref ac ardaloedd magu defaid yng nghanolbarth Cymru ar y naill law, a masnachwyr o Amwythig, Llwydlo, Bryste a Llundain ar y llall arall. Câl rhywfaint o wlan a deunydd ei gludo dramor wedyn i Iwerddon a gwledydd megis Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal. Dadleuodd Eileen Power fod y fasnach wlan yn Lloegr mor bwysig fel ei bod wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad rhan o'r *haute bourgeoisie*.¹⁴⁰

Rhaid cofio bod gan ferched ran weithredol bwysig ym myd busnes a masnach y diwydiant gwlan yn yr Oesoedd Canol, fel y tystia'r 'Wife of Bath' gan Chaucer. Medd P.J.P. Goldberg:

The association of women with textiles extends beyond their manufacture and working to their merchandising.¹⁴¹

Awgryma hyn iddynt dderbyn rhyw gymaint o addysg, gan fod llythrennedd yn rhaganghenraid i fasnachwyr. Dangosodd Dr Llinos Beverley Smith, er enghraifft, fel y mae ewyllysiau a chofnodion gweinyddol o'r bymthegfed ganrif yn awgrymu bod nifer o uchelwyr a masnachwyr yn gallu ysgrifennu dogfennau eu hunain.¹⁴² Felly, er nad oedd angen i'r merched a oedd yn nyddu neu'n cardio gwlan fod yn llythrennog, y mae'n bur debyg fod hynny'n ofynnol i'r merched a ymwnâi â'r gwaith o'i farchnata. Erbyn diwedd y bymthegfed ganrif, os nad ynghynt, ceir tystiolaeth o lythrennedd ymarferol ymhlith lleygwyr hefyd.

¹³⁹ Glanmor Williams, *op.cit.* 72.

¹⁴⁰ Eileen Power, *The Wool Trade in English Medieval History: Being the Ford Lectures* (Oxford, 1941), 109.

¹⁴¹ P.J.P. Goldberg, *Women, Work, and Life Cycle in a Medieval Economy: Women in York and Yorkshire c.1300–1520* (Oxford, 1992), 124.

¹⁴² Llinos Beverley Smith, 'Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales', *Literacy in Medieval Celtic Societies*, ed. Huw Pryce (Cambridge, 1998), 206.

Chwaraeai'r diwydiant amaeth ran bwysig yn economi Croesoswallt yn ogystal. Yn sgil y farchnad anifeiliaid, datblygodd y dref yn ganolfan hanfodol bwysig a glymai economi'r ucheldiroedd yng Nghymru â'r gwastadeddau bras yn Lloegr. Denid niferoedd helaeth o bobl o'r ddwy ochr i'r ffin i'r marchnadoedd a'r ffeiriau prysur, lle y gwerthid brethyn, defaid a gwartheg. Yn ôl Syr Glanmor Williams:

The trade in store cattle with England, dating back maybe to pre-Norman days, was growing steadily in importance in the later Middle Ages. Sheep, though less important than cattle, in spite of the apparent suitability of much of the countryside for rearing them, had become considerably more significant in the fifteenth century.¹⁴³

Yr oedd y pris uchel a delid am gnu yn ystod y bymthegfed ganrif yn gymhelliaid sylweddol i ffermwyr i gadw rhagor o ddefaid, gan fuddsoddi eu henillion yn y diwydiant gwlan. Ymhellach, fel y nododd Syr Glanmor Williams, gyrrid nifer o ddefaid i'w gwerthu yn Lloegr, gan fod cig dafad Cymru bron mor boblogaidd â'i chig eidion.¹⁴⁴

Yr oedd amryw o feirdd y bymthegfed ganrif, megis Tudur Penllyn, Guto'r Glyn a Llywelyn ap Gutun, yn borthmyn defaid. Yn ôl Thomas Roberts:

Ond gellir barnu na bu neb ohonynt mor llwyddiannus â Thudur. Ymddengys ei fod yn llawn awydd i ymgyfoethogi, a'i fod yn berchen preiddiau niferus o ddefaid, a thebyg fod ganddo nifer o geffylau a buches lawn o wartheg hefyd. Ychwanegodd at ei olud trwy werthu gwlan, canys yr oedd galw mawr am wlan i'w allforio o'r deyrnas yn ogystal ag i'w weithio gartref yn y ganrif honno.¹⁴⁵

Ceir ymryson llawn hiwmor a gwawd rhwng Tudur Penllyn a Guto'r Glyn ynglŷn â phorthmona defaid lle yr edrydd Guto am yr holl helyntion a thrychinebau a ddaethai i'w ran ac fel y bu iddo golli defaid person Corwen.¹⁴⁶ Y mae ar glawr hefyd ymryson barddol rhwng Dafydd Llwyd o Fathafarn a Llywelyn ap Gutun ynglŷn â chymhortha defaid.¹⁴⁷ Egyr Dafydd yr ymryson trwy ddisgrifio sut yr oedd Llywelyn yn ceinioca, wyna, defeitia ac arianna drwy'r holl wlad. Yn ôl Dafydd Llwyd:

O Geri 'dd aeth i Gaerddydd,
O Lan Dyfi i Lwyndafydd,
O Gaerwedros dan grwydraw
I Enau'r Glyn ar y glaw.

¹⁴³ Glanmor Williams, *op.cit.* 60.

¹⁴⁴ *Ib.* 76.

¹⁴⁵ GTP xiii.

¹⁴⁶ GGI² 84–92 (cerddi XXXI–XXXIII).

¹⁴⁷ GDL1 151–9 (cerddi 69–72).

O Fachynllaith dug daith deg
 I Gowres a Thre'r-Garreg;
 O Gaersŵs i Groes Oswallt,
 O dir y Rhos i'r dŵr hallt.¹⁴⁸

Canodd Dafydd Llwyd o Fathafarn gywydd ymryson arall ar destun cymhortha defaid yn ateb i gywydd Syr Rhys o Garno.¹⁴⁹ Ymddengys fod y beirdd amatur yn gyfarwydd â theithio oherwydd ceir tystiolaeth i gysylltiadau daearyddol eang y beirdd yn y farddoniaeth. Fel y gwelwyd eisoes, canodd Dafydd Llwyd o Fathafarn gywydd masweddus sy'n adrodd sut y bu iddo ddal clefyd gwenerol pan oedd yn Llundlo ar ei ffordd i Lundain at y brenin.¹⁵⁰ Yng nghywydd Ieuan Brydydd Hir i 'Elen deg o Landaf' adroddir stori ddigrif am helyntion carwriaethol Tudur Penllyn yng Nghaerdydd.¹⁵¹ Ac fel y gwelwyd eisoes, gellir dweud bod Croesoswallt yn arbennig wedi profi'n gryn atyniad i feirdd y Canolbarth. Yr oedd yn gyrchfan fasnachol a chymdeithasol lle y câi syniadau a ffasiynau'r oes yn ogystal â nwyddau materol eu cyfnewid. Yr oedd nifer o farchnadoedd lleol yn y cymydau Cymreig cyfagos, ond, fel yr esboniodd Dr Llinos Beverley Smith, ni ellid cymharu'r un ohonynt â marchnad Croesoswallt.¹⁵²

Canwyd cywyddau yn moli tref Croesoswallt gan Guto'r Glyn, Tudur Aled, Lewys Glyn Cothi a Siôn Ceri. Medd Dr Smith ymhellach:

Oswestry was not a large borough, but its physical appearance and the image of urbanity which it displayed were more important than its size. To the fifteenth-century poets it was a complex of streets, a centre of luxury and sophistication, of learning and of elegance.¹⁵³

Nid yw'n syndod fod y beirdd yn cyfeirio at Groesoswallt fel canolfan dysg oherwydd yr oedd David Holbach, a oedd yn gyfreithiwr blaenllaw ac yn dirfeddiannwr lleol, wedi sefydlu ysgol ramadeg yno mor gynnar â dechrau'r bymthegfed ganrif (rhwng c. 1404 a 1408). Datblygodd y gymhariaeth rhwng Croesoswallt a Llundain yn dops yn y farddoniaeth (fel yn achos trefi eraill hwythau) gyda'r pedwar bardd uchod yn moli Croesoswallt drwy gyffelybu'r dref i ddinas Llundain. Yn ôl Guto'r Glyn, Croesoswallt oedd Llundain Cymru, a'i siopau yn atyniad llawn cystal â'r rheini a welid yn Cheapside:

Llundain gwlad Owain a'i dir
 Llawndai gwin a pherllandir.¹⁵⁴

¹⁴⁸ *Ib.* 151–2 (69.35–42).

¹⁴⁹ *Ib.* 160–2 (cerddi 73–4).

¹⁵⁰ Gw. td. 19.

¹⁵¹ GIBH cerdd 3.

¹⁵² Llinos B. Smith, 'Oswestry', *Boroughs of Mediaeval Wales*, ed. R.A. Griffiths (Cardiff, 1978), 220.

¹⁵³ *Ib.* 228.

¹⁵⁴ GGI² 183 (LXIX.21–2).

Yn yr un modd canodd Lewys Glyn Cothi:

Llundain, o dderw ugain allt,
wtreswyr yw tre Oswallt.¹⁵⁵

Ac, yn ôl Tudur Aled, yr oedd y dref yn lle hwylus i'r beirdd:

Gardd Oswallt, gaer ddewiswerdd,
Goreu 'r aeth gair gwŷr wrth gerdd;
Guto, dug yno gannwyl,
Ag i'w tai 'r ai Guto, 'r wyl;
Awn i ddwyn, awen ddyinion,
Aur, dra fo hael, i'r dref hon!¹⁵⁶

At hynny, yn ei gywydd 'Moliant i Groesoswallt' y mae Siôn Ceri yn cymharu'r dref â Chaerdroea a Llundain, ac yn tynnu sylw at yr atyniadau a'r croeso a geid yno:

Wyth o wledydd, a thlodion,
Â i'r cinio hir acw'n hon.
Mae *i* 'nhafod, bob man hefyd,
Bib osai draw bob ystryd.
Byrddau na chost beirdd ni chaid
Heb hon, nyth y penaethiaid.
Rhoi'r aur i'r glêr, hir yw'r glod,
Rhannu'r aur, hen eryrod.¹⁵⁷

Tueddai trefi megis Croesoswallt i fanteisio'n arbennig ar dwf y datblygiadau ym myd masnach a gofynion cynyddol y gymdeithas am safon byw uwch. Fel y cynyddai'r galw am foethau a nwyddau mwy egsotig, megis sbeisys, gwinoedd arbennig a dillad ysblennydd, yn ogystal ag am nwyddau hanfodol megis cwyr a haearn a fewnforid o Sbaen neu'r Baltig, câi disgwyliadau newydd a chwaeth yr oes ddylanwad ac effaith uniongyrchol ar ffyniant y trefi a'u marchnadoedd. Darlunnir dylanwad ac ymateb y gymdeithas i'r datblygiadau egnïol hyn ym marddoniaeth y beirdd cyfoes. Fel y dengys Syr Glanmor Williams:

Far from being an impoverished and woebegone community, it is one whose leading figures are comfortably enough placed to patronize poets generously, dispense hospitality lavishly, build themselves new houses, consume choice and even exotic foods and wines, wear fine clothes, surround themselves with rich possessions, and generally to enjoy life.¹⁵⁸

¹⁵⁵ GLGC 453 (208.29–30).

¹⁵⁶ TA 263 (LXV.77–82).

¹⁵⁷ GSC 52.49–56.

¹⁵⁸ Glanmor Williams, *op.cit.* 80.

Yr oedd Siôn Mechain, person Llandrinio, yn dirfeddiannwr ac yn fasnachwr defaid a lwyddodd, yn sgil y ffactorau cymdeithasol ffafriol, i wneud digon o elw i allu noddï beirdd yn hael. Yn ôl Guto'r Glyn:

Pan fo rhif neu gyfrif gwŷr,
Pwy yw Oswallt Powyswyr?
Person ni chêl pwrs na chost,
Pwy ond efo'r [diwyg.] paun difost?¹⁵⁹

Fel y gwelwyd eisoes, dengys y farddoniaeth fod beirdd y cyfnod yn hen gyfarwydd â theithio cyn belled â'r Gororau a'r tu hwnt i'r ffin. Gan nad oedd Croesoswallt ond rhyw ddeng milltir o Fechain, gellir bod yn sicr fod Gwerful Mechain yn hen gyfarwydd â'r dref, fel y byddai eraill o'r ardal yn y canrifoedd dilynol. Hanai Rhys Cain (m. 1614) a'i fab Siôn Cain (*fl. c.* 1575–1650) yn wreiddiol o ardal Llanfechain, sef bro Gwerful Mechain, a chymerodd Rhys Cain ei enw barddol oddi wrth Afon Cain ym Mechain Is Coed er iddo dreulio'r rhan helaethaf o'i oes yng Nghroesoswallt ac iddo gael ei gladdu yno hefyd. Y mae ymwneud y ddau fardd hyn o ardal Mechain â thref Croesoswallt yn dangos, efallai, apêl y bywyd trefol i drigolion ardaloedd gwledig cyfagos. Wrth nodi cysylltiadau posibl Gwerful Mechain â thref Croesoswallt y mae'n werth crybwyll fel y bu i'w merch Mawd, yn ôl yr achau, briodi gŵr o'r enw Roger Draper.¹⁶⁰ Oherwydd arwyddocâd y cyfenw 'Draper', gellir cynnig bod gan y mab yng nghyfraith gysylltiad â'r diwydiant gwlan neu ei fod yn fasnachwr gwlan, efallai yn nhref Croesoswallt, er nad oes sicrwydd o hynny. Byddai rhwymyn priodasol o'r fath, yn ddamcaniaethol, yn creu dolen gyswllt gadarn i Werful a'i theulu rhwng ardal Mechain â Chroesoswallt, gan gryfhau ac amlhau cysylltiadau'r bardd â'r dref honno.

Yn yr un modd, yn y ganrif flaenorol y mae'r cyfeiriadau niferus at ymwneud Dafydd ap Gwilym â threfi megis Aberystwyth yn hysbys ddigon. Câl Dafydd gwmni'r bwrdeisiaid a'r masnachwyr teithiol wrth ymweld â thafarnau a ffeiriau yn yr amrywiol drefi ac y mae'n ddiau i'r gwmniâeth gymysg honno ddylanwadu ar ei waith. Cafodd hosanau a medlai yn anrheg gan Elen Nordd, gwraig Robin Nordd (Robert le Northern), y marsiandiwr gwlan a oedd yn un o fwrdeisiaid Aberystwyth. Yn ôl y bardd:

Ni chymer hon, wiwdon wedd,
Gerdd yn rhad, gwrdd anrhydedd.
Hawdd ym gael, gafael gyfa,
Haws no dim, hosanau da;

¹⁵⁹ GGI² 273 (CVI.17–20).

¹⁶⁰ Gw. td. 2.

Ac os caf, liw gwynnaf gwawn,
Fedlai, hi a'm gwna'n fodlawn.¹⁶¹

Disgrifir Robin Nordd gan Ddafydd fel marsiandïwr moel a chefngrwm a darlun digon deifiol a dychanol a geir o Elen, y wraig a'r *lediaith lud*, hefyd. Cyfeirir ati mewn modd digon gwawdlyd fel *Brenhines*, *arglwyddes gwlan*, a thynnir sylw at ei barusrwydd a'i hariangarwch. At hynny, awgryma Dafydd yn goeglyd fod y Saesnes hon, a gredai fod *hosanau da* yn dâl anrhydeddus am gerdd, wedi camddeall y gyfundrefn nawdd yn ddybryd.

Wrth drafod ymwneud Dafydd ap Gwilym â Cheredigion a'r dylanwadau posibl ar ei waith, dywed yr Athro D.J. Bowen:

Cyn belled ag y mae a fynnem â dylanwadau o'r Cyfandir, digon dweud i'r goncwest Eingl-Normanaid gyrraedd y sir hon yn ei thro, ac yr oedd tafarnau bwrdeistrefi fel Aberteifi ac Aberystwyth yn amlwg yn fannau lle gallai Cymro ymgynefino â chaneuon estron ...¹⁶²

Nodwyd droeon gan ysgolheigion na ddylid bychanu dylanwad y bwrdeistrefi cosmopolitanaidd ar yrfa farddol Dafydd ap Gwilym,¹⁶³ ac awgrymwyd y gallai bywyd cymdeithas drefol a'r caneuon tafarn a glywid yno fod wedi dylanwadu ar ei waith a'i ysbarduno i ganu mathau newydd o gerddi. Gallai'r dylanwadau hynny, o bosibl, fod yn gyfrifol am ysgogi natur arbrofol y bardd a chyfrannu at newydd-deb ei ieithwedd a'i ddewis o themâu, gan ddwyn i'w farddoniaeth elfennau newydd a adlewyrchai'r grym newydd a ddatblygodd yng nghymdeithas y bwrdeistrefi a chwaeth wahanol y gynulleidfa.

Felly, os bu i fwrdeistref megis Aberystwyth ddylanwadu ar Ddafydd ap Gwilym yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, y mae'n deg awgrymu i firi a berw diwylliannol tref Croesoswallt ddylanwadu rhywfaint ar Werful Mechain ganrif yn ddiweddarach. Fel yn achos Dafydd ap Gwilym, efallai fod Gwerful hithau, wrth ymweld â Chroesoswallt, wedi dod i gysylltiad â dylanwadau estron a chyfandirol yn ogystal â chael cyfle i droi yn yr un cylchoedd â'r beirdd Cymraeg eraill a oedd yn amlwg yn mynychu'r dref. At hynny, gellid awgrymu'n betrus mai mewn tref fel hon, lle yr oedd merched yn cymryd rhan flaenllaw ym myd masnach, y canfu'r rhyddid a'r hyder i fentro barddoni, i arbrofi â themâu ac i leisio safbwynt benywaidd croyw. Yng Nghroesoswallt, o bosibl, y gwelodd ferched gweithredol ac annibynnol eu natur yn cyfrannu ym myd masnach dan yr un amodau â dynion. Ai rhy fentrus fyddai tybio bod awyrgylch o'r fath yn gallu gweithredu fel ysgogiad i ferched gynhyrchu barddoniaeth? Yn ychwanegol, gellir barnu y byddai mewn amgylchedd o'r fath gynulleidfa gymysg a fyddai'n gwerthfawrogi clywed caneuon a barddoniaeth arbrofol a dorrai dir newydd

¹⁶¹ GDG³ 266 (98.23–8).

¹⁶² D.J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Cheredigion', LICy xiv (1983–4), 203.

¹⁶³ Gw. *id.*, 'Dafydd ap Gwilym a'r trefydd drwg', YB x (1977), 190–220.

ac a adlewyrchai eangfrydedd a datblygiad cymdeithas drefol mewn oes o dwf a chynnydd. Er ei bod hi'n anodd dod i unrhyw gasgliad pendant ar sail y ffeithiau sydd gennym, y mae'n werth ystyried dylanwad posibl bywyd trefol wrth geisio rhoi cyfrif am yrfa farddol Gwerful Mechain a hynny'n ogystal ag ystyried dylanwadau'r cylchoedd barddol yn y Canolbarth.

Dosbarth cymdeithasol ac addysg

Yn wahanol i'r trwbadwriaid ym Mhrofens, a ddeilliai o haenau cymdeithasol amrywiol, ymddengys fod y *trobairitz*, sef y beirdd benywaidd, yn gyfyngedig i'r bendefigaeth. Y mae hyn yn wir am wledydd eraill hefyd. Fel y dengys tystiolaeth yr achau, yr oedd Gwerful Mechain yn perthyn i'r uchelwriaeth. Gwyddys bod y bardd Mary Wroth, a gyfansoddai yn Lloegr yn ystod hanner cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg, yn perthyn i'r bendefigaeth Seisnig a bod Isabella Whitney (*fl.* 1567–75) yn ferch i deulu bonheddig o Gaerlleon. Yr oedd Florencia Pinar, bardd serch o Sbaen a oedd yn ei blodau ar ddiwedd y bymthegfed ganrif, yn amlwg yn wraig ddysgedig a gellir awgrymu ei bod hi, fel y bardd Pernette du Guillet (*c.* 1520–45) o Lyon, yn perthyn i deulu a oedd yn ddigon breintiedig i allu cynnig addysg dda i'w merch.

Gwelwyd eisoes fod merched mewn rhai teuluoedd diwylliedig yng Nghymru yn dysgu barddoni megis eu brodyr.¹⁶⁴ Yn Iwerddon, ar y llaw arall:

a woman could be recognised as a fully-fledged poet, though it must have been regarded as unusual. It is probable that the admission of a woman into the poetic class occurred mainly when a poet had no sons, and a daughter showed some aptitude for the profession ... it would seem that most women who composed verse were not legally recognised poets, but satirists who used verse for malicious purposes ...¹⁶⁵

Er nad oes unrhyw dystiolaeth fod Gwerful Mechain wedi derbyn hyfforddiant mewn cerdd dafod gan aelodau o'i theulu, gellir awgrymu bod ganddynt fodd i gynnig addysg i'w merch. Gellir cynnig ymhellach y byddai hi o leiaf wedi cael cyfle i glywed barddoniaeth ar aelwydydd ei thylwyth. Digon bylchog ac anghyflawn yw'r wybodaeth am gyraeddiadau addysgol merched yn ystod y bymthegfed ganrif, ond ceir rhai cyfeiriadau yn y farddoniaeth sy'n pwysleisio rhinweddau dysg a doethineb. Yn ei gywydd marwnad i Wenllïan ferch Rhys dywed Lewys Glyn Cothi:

Addwyn oedd y winwydden
a da o ddysg ydoedd Wen;

¹⁶⁴ Gw. td. 18.

¹⁶⁵ Fergus Kelly, *A Guide to Early Irish Law* (Dublin, 1988), 49.

da ddoe a hael ydoedd hi,
doeth oedd, fy mendith iddi,¹⁶⁶

ac wrth farwnadu Gwladus ferch Syr Dafydd Gam dywed:

Marsia gynt, Gymrâes gall,
ar ddwyiaith a rôl ddeall.¹⁶⁷

Mewn cywydd ‘I ofyn gwely gan bedair gwraig’, sef Gwenllïan ferch Owain Glyndŵr, Efa ferch Lywelyn, Mallt ferch Ieuan Fychan ac Elen ferch Ruffudd Goch, dywed Lewys:

Wrth y rhain o Werthrynon
y dysg mil hyd Wysg a Môn.¹⁶⁸

At hynny, wrth farwnadu Gwenllïan ferch Owain Glyndŵr canodd Lewys:

Nid oedd Wenllïan annoeth,
a Gwen oedd dda ac yn ddoeth,¹⁶⁹

ac yn ei gywydd ‘Marwnad Gwerful ferch Fadog’ o Abertanad molir Gwerful fel:

Athrawes rhom a Throea
oedd â dysg i’r gwragedd da.
Anaml wedy ei eni
ar ei hôl o’i chyfryw hi.¹⁷⁰

Y mae’n anodd gwybod i ba raddau yr oedd y confensiwn llenyddol uchod yn adlewyrchu gwir ddysg y merched hynny. Ni wyddom ychwaith a oedd ‘dysg’ y merched hyn yn y bymthegfed ganrif yn dibynnu ar lythrennedd ai peidio. Sut bynnag, y mae cyfeiriadau Dafydd Nanmor yn ei gywydd ‘Cyffes y Bardd’ yn awgrymu’n gryf fod ei gariad, Gwen o’r Ddôl, yn llythrennog:

Ysgrivenv â du yn dec
Gair mwyn ar gwr i manec.
Ni thorris vn llythyrenn
O bin ag ingk heb ennw Gwen ...
Danvonwn o’r memrwn mav
Lwyth eryr o lythyrrav,
J geissio yn negessol
Vn awr dda ar Wenn o’r Ddôl.¹⁷¹

¹⁶⁶ GLGC 107 (44.21–4).

¹⁶⁷ *Ib.* 247 (110.15–16). Am Wladus Gam, gw. D.J. Bowen, ‘Gwladus Gam a’r Beirdd’, *YB* xxiv (1998), 60–93; dadlennol yn y cyswllt hwn hefyd yw ei ysgrif ar Siân Mostyn, ‘Yr Orav o’r Mamau ar Sydd yn Traythv Iaiith Gamberaec’, *YB* xvi (1990), 111–26.

¹⁶⁸ *Ib.* 408 (186.25–6).

¹⁶⁹ *Ib.* 412 (188.21–2).

¹⁷⁰ *Ib.* 462 (212.51–4).

¹⁷¹ DN 78–9 (XXVII. 25–8, 35–8).

Ni wyddom i sicrwydd am allu Gwerful Mechain i ddarllen nac i ysgrifennu, ond y mae'r dyfyniad isod gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn yn awgrymog:

Gollwng, perhôn a'i gollu,
A wnaflatai i'th dai di,
Ar draws llif, ac ysgrifen,
Brynhawn hwyr fal brân Noe hen.¹⁷²

Rhaid cofio, sut bynnag, mai crefft lafar, i raddau helaeth iawn, oedd cyfansoddi a throsglwyddo barddoniaeth yn y cyfnod hwnnw. Fel y nododd Dr Ceridwen Lloyd-Morgan:

O edrych ar ein ffynonellau brodorol, gwelwn mai ildio i ragdybiaeth ansicr iawn fyddai mynnu mai mynd ar goll a wnaeth pob gronyn bron o wybodaeth eiriol neu weledol am ferched fel darllenwyr, copiwyd, noddwyr, ac yn y blaen, yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Dengys hanes y canrifoedd diweddarach, lle y ceir mwy o wybodaeth ar glawr am amgylchiadau bywyd merched, nad oedd testun ysgrifenedig yn *sine qua non* i feirdd benywaidd, nac i'w cynulleidfâ chwaith. Wrth ailddarganfod hanes ein diwylliant ni fel merched o Gymry Cymraeg, ac yn enwedig hanes ein llenyddiaeth, camgymeriad mawr fyddai inni dderbyn yn ddifeddwl fod llenyddiaeth a'r gair ysgrifenedig yn bartneriaid na ellid mo'u gwahanu. Camgymeriad gwaeth fyth fyddai rhagdybio na ellid cael llenyddiaeth fawr, aruchel, heb i honno gael ei chofnodi ar bapur neu femrwn. Nid yw'r ffaith fod merched yn yr Oesoedd Canol heb lawer o lyfrau yn golygu nad oedd ganddynt ddiwylliant geiriol datblygedig iawn, diwylliant y gallem ninnau ymhyfrydu ynddo. Nid oes raid i'r llenor fod yn llythrennog.¹⁷³

Yn ystod yr Oesoedd Canol yr oedd merched dysgedig yn gyfystyr i raddau helaeth â merched bonheddig a oedd yn perthyn i'r bendefigaeth a theuluoedd diwylliedig neu â lleianod (o'r un dosbarth, fel arfer). Ar y llaw arall, o droi yn ôl at y sefyllfa yn Lyon, oherwydd yr amodau economaidd a chymdeithasol arbennig a oedd yn caniatáu rhyw fath o ymreolaeth i'r ddinas, ymddengys fod y ffin rhwng dosbarthiadau cymdeithasol yn ansefydlog iawn. Esgynnodd tad Louise Labé (bardd a ganai yn Lyon yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg) yn gymdeithasol o fod yn rhaffwr cyffredin i fod yn ŵr cefnog a chanddo gryn ddylanwad. Fel arfer, dymunai pobl a oedd wedi profi mudoledd cymdeithasol o'r fath addysgu a hyfforddi eu gwragedd a'u merched. Gallai'r *bourgeoisie* hawlio moethau diwylliannol, breintiau a oedd yn draddodiadol yn neilltuedig i'r bendefig-

¹⁷² 5.21–4.

¹⁷³ Ceridwen Lloyd-Morgan, 'Ar glawr neu ar lafar: llenyddiaeth a llyfrau merched Cymru o'r bymthegfed ganrif i'r ddeunawfed', LICy xix (1996), 78. Yn ogystal gw. *id.*, 'More written about than writing? Welsh women and the written word', *Literacy in Medieval Celtic Societies*, ed. Huw Pryce (Cambridge, 1998), 149–65.

aeth. Yn sgil gofynion y *marchand écrivain* am ddysg a diwylliant datblygodd llythrennedd yn amod hanfodol i'w chwynych gan y dosbarth hwnnw.

Ymddengys i'r ddwy Ffrances Christine de Pizan (c. 1364–c. 1431), sef y bardd a'r ysgolhaig o fri, a Catherine des Roches (1542–87), a oedd yn fardd yn Poitiers, fod yn ddigon ffodus i gael addysg dda. Serch hynny, yn sgil cyni economaidd a ddaeth i'w rhan yn ddiweddarach, gorfodwyd y gwragedd bonheddig hyn i ymgymryd â gyrfa'r gyfansoddwraig broffesiynol er mwyn ennill bywoliaeth.

Dosbarth arall o wragedd a wnaeth yn fawr o'u dysg a'u diwylliant oedd y *courtisanes*. Yn ôl Ann Rosalind Jones:

But self-cultivation as a means to a profitable 'commerce du monde' paid off: courtesans constituted a distinct class of independent entrepreneurs.¹⁷⁴

Ceir ar glawr farddoniaeth gan dair *courtisane* a drigai yn Fenis yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, sef Veronica Franco (1546–91), Gaspara Stampa (1523–54) a Tullia d'Aragona (c. 1508–56). Yn y cyfnod hwnnw yr oedd Fenis yn ddinas fasnachol flaengar a ddenai bob math o deithwyr, yn wŷr busnes ac yn ymwelwyr o dramor. Ymhellach, Fenis oedd yr unig ddinas yn yr Eidal a lwyddodd i gadw ei hannibyniaeth rhag awdurdod y Pab yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd y *courtisanes* yn Fenis yn ddsbarth o wragedd annibynnol ac uchelgeisiol a oedd yn barod i fanteisio ac elwa ar gynnydd, prysurdeb a natur ryddfrydig y ddinas. Fel y rhan fwyaf o *courtisanes*, dilynodd Veronica Franco a Tullia d'Aragona gamre gyrfaol eu mamau. Cafodd Veronica Franco a Gaspara Stampa fynediad i'r *ridotti*, sef y salonau llenyddol tra dethol a geid yn Fenis ac y derbynnid unigolion iddynt ar sail eu crebwyll a'u dysg yn hytrach na'u statws cymdeithasol. Er nad oedd Tullia d'Aragona yn aelod o'r *ridotti* llwyddodd hithau i hyrwyddo ei gyrfa farddol drwy ddatblygu rhwydwaith o gysylltiadau ymhlith y bendefigaeth yn Fenis. Yn ôl Germaine Greer:

The courtesans were trained to exercise taste in all aspects of refined living and therefore were expected to be expert in all the arts of love, including music and poetry.¹⁷⁵

Yr oedd disgwyl i'r gwragedd hyn fod yn ddiwylliedig, gan ddfyrru trwy farddoni, ffaith a ymddengys yn rhyfeddol o gofio bod i ferched yn gyffredinol safle goddefol mewn cymdeithas. Serch hynny, nid yw'r syniad o ddyletswydd yn unig yn rheswm argyhoeddiadol dros fodolaeth eu barddoniaeth.

¹⁷⁴ Ann Rosalind Jones, *op.cit.* 179.

¹⁷⁵ Germaine Greer, *op.cit.* 14.

Cylchoedd llenyddol

Wrth ystyried barddoniaeth y gwagedd a gyfansoddai yn yr Oesoedd Canol ymddengys un ffactor yn gyffredin i'r rhan fwyaf ohonynt, sef eu cysylltiadau â chylch neu salon lenyddol. Fel y gwelwyd uchod, enillodd Veronica Franco (1546–91) a Gaspara Stampa (1523–54) enwogrwydd yn y *ridotti*, ac yn yr un modd yr oedd salonau llenyddol Lyon yn ffactor hynod bwysig yn natblygiad gyfaoedd barddonol Louise Labé (c. 1520–66) a Pernette du Guillet (c. 1520–45). Yn ôl Domna C. Stanton:

Pernette Du Guillet, Maurice Scève, and Louise Labé form the triad of what is called the Lyonnaise school of poetry. Situated in a city of great literary activity in the sixteenth century, this 'school' helped promote the Petrarchism and neo-Platonism of the Italian Renaissance in France.¹⁷⁶

Ymddengys fod Catherine des Roches a'i mam yn gyfrifol am gynnal salon lenyddol yn Poitiers.

Yn absenoldeb cylchoedd llenyddol o'r fath, gallai cyfeillion a theulu fod yn ddylanwad pwysig iawn ar y merched a gyfansoddai, gan gynnal a meithrin eu galluoedd barddonol yn yr un modd ag y gwnâi'r salonau. Fel y dengys Germaine Greer, ymddengys fod Mary Wroth yn ddyledus i'w modryb, Mary Herbert, Iarles Penfro, am ei magwrfa lenyddol.¹⁷⁷ Er bod dylanwad y salon ar yrfa farddol Catherine des Roches yn amlwg yn bwysig ni ddylid anghofio dylanwad ac esiampl ei mam, Madeleine Neveu. Ymddengys fod y ddwy yn cael eu comisiynu i gyfansoddi barddoniaeth ac ymdrechent yn ddiwyd i hybu cyhoeddusrwydd i'w cyfansoddiadau. Yn ogystal, defnyddiai'r fam a'r ferch eu cartref fel salon lenyddol. At hynny, yr oedd gan Isabella Whitney, a oedd yn ysgrifnwraig broffesiynol yn Llundain yng nghanol y 1570au, frawd a gyfansoddai hefyd. Gellir cynnig nad cyd-ddigwyddiad syml o ran diddordeb a oedd rhwng y brawd a'r chwaer hyn ond, yn hytrach, enghraifft arall o gydweithrediad proffesiynol. Yn ôl Ann Rosalind Jones:

Her brother Geoffrey Whitney was the author of *A Choice of Emblemes* (1586), which included a stunning total of ninety-three dedications to potential patrons. Obviously, brother and sister both promoted their writing by any means possible.¹⁷⁸

Derbynnir yn gyffredinol mai brawd y Sbaenes Florencia Pinar oedd y 'Pinar' a oedd yn gyfrifol am nifer o'r esboniadau a'r deongliadau yn y *cancioneros*. Efallai fod arwyddocâd i'r ffaith i'r 'Pinar' hwnnw wneud sylwadau ar un o gerddi Florencia Pinar yn y *cancioneros* hefyd. Wrth drafod yr ychydig wybodaeth sy'n hysbys am Florencia a'i brawd awgryma

¹⁷⁶ *The Defiant Muse: French Feminist Poems from the Middle Ages to the Present: A Bilingual Anthology*, ed. Domna C. Stanton (New York, 1986), 202.

¹⁷⁷ Germaine Greer, *op.cit.* 15.

¹⁷⁸ Ann Rosalind Jones, *op.cit.* 37.

Angel a Kate Flores ei bod yn dra thebygol eu bod yn perthyn yn agos i lys Isabel a Ferdinand a deyrnasai o 1479 ymlaen, neu hyd yn oed yn rhan ohono.¹⁷⁹

Yn achos y *trobairitz* ym Mhrofens rai canrifoedd ynghynt, y mae'n bwysig cofio am eu cysylltiadau â'r trwbadoriaid, pa un a oeddynt yn gyfeillion, yn wragedd, yn chwiorydd neu'n noddwragedd iddynt. Fel y dywed Meg Bogin am y *trobairitz*:

There is little doubt that all of them knew male troubadours and lived among them. Tibors was a sister of the brilliant troubadour Raimbaut d'Orange; Maria de Ventadorn married into a long line of viscount-troubadours named Ebles. Guillelma de Rosers, Alamanda and Isabella exchanged *tensons* with Lanfrancs Cigala, Guiraut de Bornelh and Elias Cairel, respectively. Almost a third of them at least—Clara d'Anduza, Almucs de Castelnaud, Tibors, Maria and Garsenda—were patrons. Their lives spanned the full development of courtly poetry, from its first flourishing to its decline; and they lived in the centers where the art was practiced and refined.¹⁸⁰

Y mae pwysigrwydd y 'gymuned lenyddol' i'w ganfod hefyd yn y corff hynod bwysig o lenyddiaeth ddiwinyddol, gyfriniol a defosiynol a gyfansoddwyd gan aelodau'r cylch a adwaenir fel gwragedd Helfta. Sefydlwyd lleiandy Helfta, a oedd yn ganolfan ragorol o ddysg a duwioldeb, yn yr Almaen yn 1229, a'r gwragedd mwyaf adnabyddus a gysylltir â'r lle yw Mechthild o Magdeburg, Gertrude Fawr a Mechthild o Hackeborn. Er bod Gertrude a Mechthild o Hackeborn yn gyndyn i ysgrifennu dim am eu gweledigaethau ar y dechrau, cafodd eu profiadau cyfriniol eu cofnodi wrth iddynt gefnogi ei gilydd a derbyn anogaeth y chwaeroliaeth neu'r 'writerly community', chwedl Carolyne Larrington.¹⁸¹ Gellir dweud bod y gymuned yn Helfta yn gweithredu fel teulu, gan gynnig cefnogaeth a hyder ac ymdeimlad o hunaniaeth i'r lleianod yno. Yng ngeiriau Rosalynn Voaden:

The visionary writings of the nuns of Helfta reflect a positive sense of self which perhaps diminished the impact of misogynistic perceptions of their female corporeality and gave them confidence in their spiritual authority.¹⁸²

Sylwer bod y sefyllfa yn Helfta yn enghraifft arbennig o'r modd y gallai gwragedd oresgyn rhwystrau trwy gynnal breichiau ei gilydd, gan fagu

¹⁷⁹ *The Defiant Muse: Hispanic Feminist Poems from the Middle Ages to the Present: A Bilingual Anthology*, ed. Angel Flores and Kate Flores (New York, 1986), 143.

¹⁸⁰ Meg Bogin, *The Women Troubadours* (New York and London, 1976), 64.

¹⁸¹ Carolyne Larrington, *Women and Writing in Medieval Europe: A sourcebook* (London and New York, 1995), 226.

¹⁸² Rosalynn Voaden, 'All girls together: community, gender and vision at Helfta', *Medieval Women in their Communities*, ed. Diane Watt (Cardiff, 1997), 75.

hyder i gyfansoddi, hynny yw, cyflawni'r trawsnewidiad hollbwysig a datblygu'n awduron ('becoming textual', fel y'i disgrifir). Yn ôl Carolyne Larrington:

The tradition of female sanctity, however slight, and the solidarity and support of the female community thus could function as authorization for some women writers.¹⁸³

Wedi dweud hynny, nid ymddengys fod y gwraedd hyn yn teimlo rheidrwydd i'w cyfiawnhau eu hunain neu i ymddiheuro am eu cyfansoddiadau ar sail eu rhyw. Yn hytrach, canmoliaeth a balchder sy'n nodweddu cyfeiriadau'r lleianod wrth ddisgrifio'r gymuned yn Helfta. Ymfalchïo ac ymhyfrydu yn eu dysg a wnaent oherwydd rhoddid bri mawr ar awdurdod benywaidd a phwysigrwydd y gymuned fel meithrinfa ar gyfer datblygiad deallusol ac ysbrydol y lleianod. Fel y dywed Rosalynn Voaden:

The supportive, empowering environment at Helfta encouraged the women of the community to develop a strong sense of spiritual authority and to appropriate, expand, and give uniquely female expression to the cult of the Sacred Heart.¹⁸⁴

Dywed hefyd:

Mechtild of Magdeburg, Gertrude, and Mechtild of Hackeborn articulated their visions in words and images drawn from their physical experiences as women and from the companionship of the cloister. They rewrote their culture by inscribing the female on the divine. In so doing they created a mystical discourse centred on the Sacred Heart, developing a devotional cult which reflected their shared female biology and gave spiritual expression to their sense of community.¹⁸⁵

Fodd bynnag, nid oes dim cyffelyb i hyn wedi dod i'r amlwg yng Nghymru, lle yr oedd lleiandai yn brin.¹⁸⁶ Yn y byd secwlar y perthynai Gwerful Mechain iddo, rhaid edrych yn hytrach i gyfeiriad y teulu a'r cylchoedd barddol lleol. Cyfeiriwyd eisoes at awgrym yr Athro Dafydd Johnston fod rhai merched diwylliedig yn dysgu barddoni fel eu brodyr,¹⁸⁷ ond:

Yn anffodus, nid oes dim tystiolaeth i ddangos fod Gwerful Mechain hithau wedi etifeddu diddordeb mewn cerdd dafod trwy ei theulu, ond gwyddys ei bod yn perthyn i gylch barddol ym Mhowys wedi'i ganoli ar

¹⁸³ Carolyne Larrington, *op.cit.* l.c.

¹⁸⁴ Rosalynn Voaden, *op.cit.* 86.

¹⁸⁵ *Ib.* 86–7.

¹⁸⁶ Gw. Jane Cartwright, 'The desire to corrupt: convent and community in Medieval Wales', *Medieval Women in their Communities*, ed. Diane Watt (Cardiff, 1997), 20–48.

¹⁸⁷ Gw. tt. 18 a 40.

yr hynafgwr awdurdodol, Dafydd Llwyd o Fathafarn, cylch a gynhwysai feirdd proffesiynol ac amaturiaid trwy'r trwch.¹⁸⁸

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y 'nythaid' hwn o feirdd, chwedl Enid Roberts,¹⁸⁹ ar yrfa farddol Gwerful Mechain.¹⁹⁰ Yr oedd cysylltiadau barddol o'r fath cyn bwysiced â theuluoedd fel magwrfa i feirdd amatur ac yn aml iawn byddai'r beirdd mewn cylchoedd fel hyn yn perthyn i'w gilydd p'run bynnag. Felly, gellir maentumio i Werful Mechain, yn rhannol efallai yn sgil ei chysylltiadau â Dafydd Llwyd, gael mynedfa i'r 'salon farddol' honno ym Mathafarn.

Gellir dweud hefyd fod cartrefi noddwyr y beirdd yn gweithredu fel meithrinfeydd llenyddol, fel y gwnâi salonau llenyddol mewn gwledydd a diwyllianau eraill. Yr oedd y plastai nawdd hyn yn gyrchfannau hynod bwysig i'r beirdd ar eu teithiau a'u cylchoedd clera, yn enwedig yn ystod y tair gŵyl arbennig, sef y Nadolig, y Pasg a'r Sulgwyn, ac ar adegau arbennig eraill o'r flwyddyn. Yn ôl Dr Enid Roberts:

Amhosibl traethu'n gyffredinol ar faint y teithiau a'r cylchoedd clera. Mae cymaint o resymau i'w hystyried, yn eu mysg rhesymau economaidd a thueddiadau personol. Ar un ystyr gellid tybio bod y cylch yn ehangu fel yr oedd nifer yr uchelwyr yn cynyddu.¹⁹¹

Er bod nifer y cartrefi neu'r llysoedd y canai beirdd iddynt ar gynydd, canghennau newydd o hen deuluoedd adnabyddus oedd y rhan fwyaf ohonynt. Nid oedd y cynnydd hwnnw yn rhywbeth cyfyngedig i sir Drefaldwyn. Ceir digon o esiamplau o'r datblygiad hwnnw mewn ardaloedd eraill; er enghraifft, ymgartrefodd cangen newydd o deulu Fychaniaid Brodorddyn (sir Henffordd) yn Nhretŵr, Brycheiniog, yn ystod y bymthegfed ganrif.¹⁹² Dengys map o waith Dr Enid Roberts a Melville Richards y tai y byddai'r beirdd yn ymweld â hwy ym Mhowys.¹⁹³ Er bod y map yn frith o enwau tai uchelwyr, pwysleisia Enid Roberts fod y rhestr yn anghyflawn.¹⁹⁴ Ni ddiogelwyd unrhyw dystiolaeth am ddatblygiad na hyfforddiant barddol Gwerful Mechain. Serch hynny, y mae'r dystiolaeth amgylchiadol yn dangos iddi gael ei magu mewn ardal ac iddi draddodiad anrhydeddus o noddi beirdd. Cofier hefyd fod y doreth hon o gartrefi nawdd a'r holl weithgarwch llenyddol yn adlewyrchu cyfoeth yr ardal a'i thrigolion. Sylwer bod ardaloedd lle y ceid ffyniant economaidd a phobl dda

¹⁸⁸ Dafydd Johnston, '*Canu ar ei fwyd ei hun*': *Golwg ar y Bardd Amatur yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Abertawe, 1997), 11.

¹⁸⁹ Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981, 11.

¹⁹⁰ Gw. yr adran fywgraffyddol am gyfeiriadau at feirdd eraill.

¹⁹¹ Enid Roberts, *Braslun o Hanes Llên Powys* (Dinbych, 1965), 49–50.

¹⁹² Gw. D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r beirdd', *YB* xxiv (1998), 60–93.

¹⁹³ Enid Roberts, *op.cit.*, yn wynebu td. 98.

¹⁹⁴ *Ib.* 50.

eu byd yn gyfystyr i raddau helaeth ag ardaloedd a oedd yn ffyniannus yn ddiwylliannol ac felly'n cynnig amodau delfrydol ar gyfer datblygiad barddoniaeth. At hynny, y mae'n bwysig cofio y gallai Gwerful arddel cysylltiadau teuluol â thrigolion nifer o'r plastai arbennig hyn. Fel y dangoswyd eisoes, trigai ewythr iddi, sef Ieuan Fychan, yn y Bryngwyn, Llansanffraid-ym-Mechain.¹⁹⁵ Yr oedd ei mam yng nghyfraith yn ferch i Ddeio ap Llywelyn o Ddolobran ger Pontrobert, sef cangen o deulu Fychaniaid Llwydiarth, a'i thad yng nghyfraith yn hanu o ardal Main, Meifod a Mechain. Byddai'r teuluoedd uchelwrol hyn yn aml yn cydbriodi er mwyn diogelu a chadarnhau eu sefyllfa gymdeithasol freintiedig. Gwyddys, er enghraifft, fod Fychaniaid Llwydiarth wedi cydbriodi droeon â theulu Mathafarn.¹⁹⁶ Felly, y mae'n deg casglu i Werful Mechain amsugno gwerthoedd a syniadaeth y rhwydwaith nodedig a thrawiadol hwn o deuluoedd a gefnogai gerdd dafod ac a ymddiddorai ynddi. Gellir awgrymu hefyd ei bod, fel Dafydd ap Gwilym o bosibl, wedi amsugno elfennau dieithr a mentrus yn sgil ei hymweliadau â threfi cynhyrfus fel Croesoswallt, gan fanteisio ar y cyfle i gymathu'r hen a'r newydd, y traddodiadol a'r chwyldroadol yn ei barddoniaeth.

Wrth drafod barddoniaeth Gwerful Mechain a'i dewis swyddogaeth fel bardd ni ellir honni dim â sicrwydd. Eto gellir tybio, fel yn achos y merched eraill a fu'n barddoni yn ystod yr Oesoedd Canol, fod nifer o ffactorau yn gyfrifol am ei hysgogi. Yn hytrach na cheisio lleoli nac ynysu un ffactor arbennig fel ysbardun posibl, dylid derbyn bod cyfuniad o ffactorau ac amodau ffafriol, yn rhai economaidd, cymdeithasol, diwylliannol yn ogystal â phersonol, yn cyfrif am yrfa Gwerful Mechain fel bardd.

¹⁹⁵ Gw. td. 4.

¹⁹⁶ Gw. td. 5.

1
Dioddefaint Crist
Gwerful Mechain

Goreudduw gwiw a rodded
Ar bren croes i brynu Cred,
I weled, gweithred nid gau,
4 O luoedd Ei welïau;
Gwaed ar dâl gwedi'r dolur,
A gwaed o'r corff gwedi'r cur.
Drud oedd Ei galon drwydoll
8 A gïau Duw i gyd oll.
Oer oedd i Fair, arwydd fu,
Wrth aros Ei ferthyru,
Yr hwn a fu'n rhoi'i einïoes
12 I brynu Cred ar bren croes.
Gŵr â'i friw dan gwr Ei fron,
A'r un gŵr yw'r Oen gwirion.
Prynodd bob gradd o Adda
16 A'i fron yn don, frenin da.
Ni cheir fyth, oni cheir Fo,
Mab brenin mwy a'n pryno.
Anial oedd i un o'i lu
20 Fwrw dichell i'w fradychu:
Siwdas wenieithus hydwyll,
Fradwr Duw, a'i fryd ar dwyll,
Prisiwr fu, peris ar fwyd,
24 Ddolau praff, ddal y Proffwyd.
Duw Mercher wedi 'mwarchad
Ydd oedd ei bris a'i ddydd brad.
Trannoeth, heb fater uniawn,
28 Ei gablu'n dost gwbl nid iawn,
A dir furn cyn daear fedd
A'i 'sgyrsio ymysg gorsedd
Oni gad, enwog ydiw,
32 Glaw gwaed o'r gwelïau gwiw.
Duw Gwener cyn digoni
Rhoed ar y Groes, rhydaer gri,
A choron fawr, chwerw iawn fu,
36 A roesant ar yr Iesu,

- A'r glaif drud i'w glwyfo draw
 O law'r dall i'w lwyr dwyllaw.
 Trwm iawn o'r tir yn myned
 40 Oedd lu Crist wrth ddileu Cred
 A llawen feilch, fellýn fu,
 Lu Sisar pan las Iesu.
 Wrth hud a chyfraith oediog
 44 Y bwrien' Grist mewn barn grog
 Er gweled ar Ei galon
 Gweli fraisg dan gil Ei fron.
 Ni bu yn rhwym neb un rhi,
 48 Ni bu aelod heb weli.
 Marw a wnaeth y mawr wiw nêr
 Yn ôl hyn yn ael hanner.
 Ar ôl blin yr haul blaned
 52 A dduodd, crynodd dir Cred.
 Pan dynnwyd, penyd einioes,
 Y gŵr grym o gyrrau'r groes,
 Sioseb a erchis Iesu
 56 I'w roi'n ei fedd, a'i ran fu.
 Pan godes, poen gyhydedd,
 Cwrs da i'r byd, Crist o'r bedd,
 Yna'r aeth, helaeth helynt,
 60 Lloer a'r haul o'u lliw ar hynt,
 A phan ddug wedi'r ffin ddwys
 Ei bridwerth i baradwys,
 Troi a wnaeth Duw Tri yn ôl
 64 I'r ffurf y bu'n gorfforol.
 Duw Naf i'r diau nefoedd
 Difiau'r aeth, diofer oedd,
 Yn gun hael, yn gynheiliad,
 68 Yn enw Duw, yn un â'i Dad.
 Un Duw cadarn y'th farnaf,
 Tri pherson cyfion y caf.
 Cawn drugaredd a'th weddi,
 72 Down i'th ras Duw Un a Thri.
 Cael ennill fo'n calennig
 Pardwn Duw rhag Purdan dig:
 Profiad llawen yw gennym
 76 Praffed gras y Proffwyd grym.

Ffynonellau

A—Bangor 305, 73 B—Bangor 758, 278 C—Bangor 1268, 60^v D—Bangor 14677, 24 E—Bangor (Mos) 5, 73^r F—BL Add 14879 [= RWM 38], 97^v G—BL Add 14880 [= RWM 36], 10^v H—BL Add 14893 [= RWM 37], 51 I—BL Add 14967 [= RWM 23], 198 J—BL Add 14972, 66^r K—BL Add 14979, 146^r L—BL Add 14979, 224^v M—BL Add 14984, 158^v N—BL Add 15007, 3^v O—BL Add 15010, 25^r P—BL Add 31056, 43^r Q—BL Add 31060, 108^v R—BL Add 31060, 177^r S—Brog (y gyfres gyntaf) 5, 167 T—Card 1.2 [= RWM 12], 98 U—Card 1.133, 120 V—Card 2.26 [= RWM 18], 187 W—Card 2.114 [= RWM 7], 692 X—Card 3.37 [= RWM 20], 345 Y—Card 3.68, 97 Z—Card 4.156 [= RWM 64], 111 a—Card 5.44, 44^v b—Card 5.167 [= Thelwall], 14 c—CM 33, 87 d—CM 110, 17 e—CM 148, 52 f—CM 207, 4 g—CM 242, 170 h—CM 324, 119 i—CM 1491, 13 j—Esgair 1, 62 k—LIGC 162D, 28 l—LIGC 428C, 141 m—LIGC 435B, 23 n—LIGC 670D, 146 o—LIGC 722B, 24 p—LIGC 841E, 5 q—LIGC 873B [= Wrecsam 2], 37 r—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 86 s—LIGC 1578B, 81 t—LIGC 3047C [= Mos 144], 724 u—LIGC 3048D [= Mos 145], 302 v—LIGC 3057D [= Mos 161], 323 w—LIGC 3487E, 41 x—LIGC 5283B, 25 y—LIGC 6499B, 192 z—LIGC 6681B, 9 **A**—LIGC 8363D, (a) **B**—LIGC 8363D, (b) **C**—LIGC 8363D, (c) **D**—LIGC 12677B, 151 **E**—LIGC 13061B, 187^v **F**—LIGC 13071B, 202 **G**—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 81 **H**—LIGC 19661A, 5^v **I**—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 19 **J**—LIGC Mân Adnau 55B [= Abertawe 1], 354 **K**—Llst 47, 271 **L**—Llst 133, 197 **M**—Llst 134, 76 **N**—Llst 167, 256 **O**—Pen 124, 31 **P**—Pen 195, 48^v **Q**—Pen 221, 4

Y mae rhai darlenniadau yn llawysgrifau GHNPQYcfio**OP** yn aneglur oherwydd traul. Ni nodir y rhain oni bai fod rheswm i gredu y byddai'r darlenniadau hynny, petaent yn gyflawn, yn wahanol i'r testun golygedig uchod. Ni ddefnyddiwyd dau fersiwn llawysgrif o'r cywydd hwn a ddarganfuwyd yn rhy hwyr i'w hystyried wrth lunio'r testun golygedig, sef LIGC 13079B, 49 a LIGC 15543B, 32. Priodolir y ddau gopi hyn i Siôn Cent a dim ond 38 llinell o'r testun golygedig a geir yn y ddau fersiwn. At hynny, y maent yn gopiau eithaf llwgr ac ni cheir ynddynt unrhyw ddarlenniadau amrywiol arwyddocaol. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 183–92.

Amrywiadau

1 *CRVWfgyB* y gorevdduw gwiw, *K* y gerevdduw gwiw, *X* Gare dduw gwiw, *bc* Goreudduw gwir, **G** y gorevdduw gwir; *P* y gwr addwyn gwiw a rodded, *i* []dduw gwir a rodded, *nD* *Y* gwir Dduw gwiw a rodded, *q* Gora y ddyw gwiw a roddwyd, *uv* y gwr addfwyn gwiw a Rodded. 2 *arEIM* i brenn croes, *k* ar ben Crous; *G* Ar brenn kroes wir brenny kred, *J* ar bren croes brenin cred, *M* ar bren croes gwir brynnû cred, *bG* ar bren croes gwir

brynwr kred; (U)V yr pryny cred, y ei brynv cred. 3 *GNVWgny(z)CD* er gweled, *KP* a gweled; *BA* i synied gweithred wyf gau; *ADOUYdhkhwH* gweithred wyd gau, (A)*Zej* gweithred oedd gau, (L) gweithred nod gau. 4 *CP* i leoedd, *ETs* o leoedd, *FX* o leuodd, *G* o lioedd, *LbG* o levoedd, *P* o leved, *ZarEIM* i lüoedd, *t* o lvedd, *x* o lüvedd, *z* eluoedd; *ABOUehjlwA(C)FHKL* lüoedd i holl weliaiv, *D* Lusedd ei holl weliau, *J* a oleuodd i weliau, *Yk* luoudd I holl weliau, *cdon* O luoedd i holl weliau, *pBJ* Ei leoedd a'i weliau, *q* o lyoedd o weliaiv, *uv* o lvoedd y gweliaiv, *C* O luoedd ei foliannau, (L) O lyfydd ei weliau, (P) i leoedd i holl weliau. 5 *D* Gwaed ar d'ol, gwedi'r Dolur, *M* I waed ar dal gwedi yr dolûr, *N* gwa[]d ar dal gwadyr dolyr; *YkzH* gwedv yr dolur, *q* gwedi y dolyr, *uv* gidar dolûr. 6 *CETpBJP* gwaedv or korph gwedir kvr, *F* gwaed ar korff gwedi r kvr, *H* gwaed or Corff gweir Cvr, *JLQX* gwaed or korff gwedi r kûr, *P* a gawd or corff gidar cur, *Z* a gwaedu r corph gwedi yr cûr, *bG* a gwaed ar y korff gwedyr kur, *k* a gwaud ar corff wedi yr cyr, *H* gwayd or corph gwedi yr cur, *N* a gwaed ar dal or korff gwedi r kvr (*gydag* ar dal *wedi ei groesi allan gan yr un llaw*); *Y* gwed yr cyr. 7 *CKMTpBJP* drvd fv ir galon drwydoll, *E* drvd fv i galon drwydoll, *R* drvd fy ir galon drwy dwyll, *bG* drvd fv ir galon rwydoll, *f* drvd fy ir galon drwydwl, *i* []fu ir galon drwydoll, *z* Drud fur yr galon drwyddoll, *C* Drodd o ei galon drwy ddoll, *N* drwd y galon drwydoll; *ABDOUYZad ehjlrwA(C)EFHI* ir galon drydoll, *GM* i galonn drvdoll, *N(z)* ir galon drwydoll, *V* y galon drydoll, *X* i galon rywdoll, *k* ir galon ddigoll, *nD* ei galon drwy r goll, *q* i galon drwy dwl, *suv* yw galon drwydoll, (z) ir galon draw doll. 8 *L* a giav dv, *X* ar giav dvr, *z* ar giau duw, *N* a gae dddw; *D* A grau o Duw i gyd oll, *J* a giau duw ai gwad oll, *V* ag ef yw dyw y gid oll, (L) Ac ef yw Duw i gyd oll; *Zgy* ei gÿd oll, *pBJ* eu gÿd oll. 9 *CRfpsuvBJP* oer oedd yw fam, *E* oer oedd oi vam, *K* oer oedd yw fair, *Tz* oer oedd i fam, *V* Oer oedd y fam, *y* Oer oedd ei fair, *C* Oer oedd ei fawr, *L* Oer oedd y farn; *H* oer oedd i fair a arwdd fv, *X* oer oedd y fan ar waedd fv, *g* Oer oedd ei fair arwydd a fu, *H* Oer oedd I fair Arwydd y fu. 10 *k* wryf aros. 11 *BA* yr hwn fu'n rhoi einioes, *CFJLNOPSUYabehjklpqrwxyzBEFHMP* yr hwnn a vy n rhoi einoes, *H* yr hwn a fv yn Rhi einies, *Rf* yn rwydda fv n roi einoes, *V* hwnn y fy yn rroy einoes, *Wg* y rrwn yw yn rroi i einioes, *Z* yr hwn fu'n rhoi i Einioês, *nyCD* y rhwn yw yn rhoi einioes, *v* Roes düw yn vlin i einnioes. 12 *B* ar y bren croes (*gydag* y *wedi ei chroesi allan gan yr un llaw*). 13 *ADOUdhlwHO* Gwr ai fraw, *arzM* gwr aü vriw, *ej* Gŵr a fraw; *BA* garw fraw dan gwr ei fron, *Ccmqs(C)NP* y gwr ai friw dan gwr i fron, *E* y gwr ai friw ynghwr i fron, *HN(W)* y gwr ai friw gar i fron, *Q* []gar i fron, *W* y gwr ai friw dan i fron, *V* y dunn ay friw dan y fron, *X* y gwr ai frath dan gwr i fron, *gnyCD* y gŵr ai friw ger ei fronn, *o* y gwr ai friw dan gyrie i fron. 14 *PZpBJ* yr vn gwr, *R* ac vn gwr, *e* ar lin gwr; *k* Ar un gwr yr oun gwirion, *H* yr un gwr iw yr Oen gwirion; *c* [gwirion]. 15 *EFJLMX(z)* er adda. 16 *h* A fron; *S* ai fronn yn dwyn frenin da, *Z* ai fron don â frenin da,

q ai fron yn don duw frenin da; *JLNTz* frenin daf. 17 *ADOYejk(C)HO* Ni chei fyth, oni cheri fo, *FJLWbF* ni chair fyth ar na char fo, *Nz* ni chair fyth ar na charo fo, *PgnyCD* ni cheir fyth ar na char fo, *Stx* ni chair fyth gann na chair fo, *U* Ni chei fyth on' cheri fo, (*U*) Ni cheir fyth on' cheri fo, *V* ny chayr vyth ar y char fo, *Z* ni chawn fyth oni chei fo, *arEKM* ny chair vyth ag ny char vo, *m* ni chair fyth arna chair fo, *o* ni chair fyth arni charo fo, *q* ni chair fyth kan na chair fo, *uv* ni chair vyth pwy ni char y vo, *G* ni chair chair vyth ar na vo, *I* ny chair vyth ay ny char vo; *BA* oni cheri fo, *CEHXpsBJL* oni chair fo, *K* oni char fo, *cN* on i cheir y fo, *d(h)* oni cheri fo, *w* oni cherir fo. 18 *H* vn mab prenin mw an p[], *P* mab prenin m[]an pryno, *X* was breis mwy an prynno, *ar* ar y prenn wr aü pryno, (*C*) Mal brenin mwy a'th bryno, *EIM* ar y prenn wr ai pryno, *L* Mab un brenin mwy'n pryno; *ADOUYehjklwHO* mwÿ ath bryno, *BZZ* mwy a bryno, *CRST(U)eftDFK* mwy ai pryno, *L* fyth an prynno, *M* fyth ai prynno, *V* mwy yn pryno, *d* fyth ath brynno, *CJ* mwy a'u pryno. 19 *Dy* Amal oedd, *Q* anap oedd, *C* Anal oedd; *H* ni al I roed I vn oi lv, *N* ... al oedd i vn oi lv, *X* yn ail oedd i yn ai lv, *g* Aml oedd ei un o'i lu, *q* anial oedd vn oi ly, *K* ynial oedd i vn o lv. 20 *ABDFHJOQU VYZadehlorwAEFH IKMNO* vryd awchus i vradychv, *CMTpBJP* fwriad awch i fradychv, *L* fryd owch i fradychv, *N* []rw dichell oi fradychy, *RbfG* vryd vchel i vradychv, *c* fryd owchys i fraychv, *k* brad owchys I fradychu, *q(C)* fryd owchys yw fradychy, *z* frad achos i fradychu; *EWgnyD* oi fradychv. 21 *ADOUejHO* Iüdas wenheithüs, *BA* Judas weneithgas, *CX* Svddas wenheithys, *EFQcx* Siwdas wenhevthvs, *H* Siwdas wanhevthvs, *JKLWbfmzG* Svddas wenhevthus, *Pg* Svddas wenhieithvs, *R* Svddas wenheythas, *SptuBJ* Sywdas wenheithvs, *T* Ivdas winhevthvs, *Y* Iudas weneythus, *arIKM* Sidas wenaithvs, *hl* Judas wenieithus, *i* Suddas wenheithus, *k* Gwas weneythus, *q* Siywdas wenheithys, *s* Siwdas wenevthvs, *w* judas wenheithus, *E* Südas wenaithys, *F* Siwdas wenaithys, *L* Siddas wenhiaethus, (*L*) Suddas wenhiaethus, *N* Suddas wenhewthvs, *P* Siddas wenheithus; *M* Siwdas wenheithus dhüdwyll, *N* []jas wenheythvs hydwyll, *V* Siwdas wenheithis o dwyll, *Z* Iudas wenheithus dudwyll, *d* Iudas weniaeth wâs hÿdwyll, *nD* Suddas wenieithus hyddwyll, *o* []wdas wenhevthvs hydwyll, *v* SSvddas wenheithvs hvstwyll, *C* Suddas weniaethus hyddwyll. 22 *ADOUehjlw(C)HO* A frâd Duw, *Z* o frad duw; *N* []dyw ai fryd ar dwyll, *Y* []ad Duw ai frud ar dwyll, *k* brad Daw ai frud ar dwyll; *arM* aü vryd ar dwyll. 23 *Wo(z)FIK(L)M* prysvr fv, *arE* prysür vodd, *m* prisiwr a fv; *ABDOUehjLA(C)HO* pryssür fû parodd ar fwÿd, (*A*) Pryssur fu prsiodd ar fwÿd, (*B*)(*A*) prysur fu pares ar fwyd, *H* prisiwr a fv peris ai fwvd, (*U*) Prysur fu parwys ar fwyd, *Y* prysyr a fy parodd ar fwyd, *Z* prydd a fu parodd o fwyd, *d* prudd a fu parodd ar fÿwyd, *g* Pryssur fu'r pris ar fwyd, *k* pa gysyr a fy parodd ar fywyd, *nD* Prysur fu pris ar fywyd, *w* prusÿr fÿ parodd arswyd, *yC* pryssyr fv pris ar fwyd, (*D*) Prysur fu pris ar ei fwyd; *C* peris ar fowyd, *X* peris ar swyd, *pBJ* peris ar fÿd. 24 *A* DDola praff,

EWX(z)C ddial praff, *V* ddolew praff, *gy* ddiall praff, *hl* Ddoli praff, *txN* ddolef praff, *w* ddôl praff, *I* ddale praff, *L* Ddu lu praff, (*L*) Ddeu lu praff; *T* ddole praff i ddal proffwyd, *m* ddole praff wrth ddal y proffwyd (*gydag* wrth *wedi ei groesi allan gan yr un llaw*), *nD* Ddeall praff ddull y prophwyd; *q* ddala proffwyd. 25 *pBJ* Dy mercher, (*z*) die mercher, *L* Duw merchur; *AdeijHO* Dÿdd mercher wedi ymwarchad, *D* Duw Merched wedi ymwarchad, *E* dvw merchvr wedi'm warchad, *MOXcqt* Dvw mercher wedi marchnad, *S* Duw Mercher nodi marchnad, *k* dydd mercher wedi yr gwarhawd, *u* diemercher wedi marchnad, *v* duw mercher vvr dechrevad, *x* dûw merchyr wedi marchnad, *C* Duw marchor wedi ymwarchad; *B* wedi mawrchwad, (*B*)*A* wedi mwarchwad, *C(D)OWZaghlmorswyEFIKMNP* wedi ymwarchad, *H* wei marchnad, *J* wedi ni warchad, *K* wedir mowrchwad, *N* wedi ym warchawd, *Rf* wedir mowrchad, *T* wedi ymwrchad, *V* gwed ym warchad, *Y* gwedi yr gwarawd, *bG* wedir ymwarchad, *nD* wedi ymwarchod, *z* wedv yw ymwarchad (*gydag* yw *wedi ei groesi allan gan yr un llaw*). 26 *ADOQUWZbdehfwGHO* y roedd i bris, *CKRfP* I roedd i bris, *Xmox* y doedd i bris, *i* a oedd i bris, *z* i roed i bris; *BglnyAD* y roedd ei bris ar ddydd brâd, *N* []brys ai dydd brad, *S* i ddoedd i bris ar ddydd brâd, *Y* []ydd I bris ai ddydd brawd, *k* rhydd ei bris ar ddydd brawd, *C* A rodd ei bris ar ddydd brad; (*I*)*uv* ar ddydd brad. 27 *CP* Tranwaeth heb; *X* pan aeth heb fatter vniawn, *Y* []onyth heb fater trwm iawn, *cN* trannoeth ddfatter vniawn, *k* anyth heb fater trwm iawn, *w* Taranoeth heb fatter trwm iawn, *C* Tranoeth pob fater uniawn; *ABDOUdhIA(C)HO* fater trwm iawn, *L* fatter vnion, *ej* fatter trym iawn, (*h*)(*l*) fatter tramawr, *q* fader uniawn. 28 *N* []v yn dost gwbl on dawn, *Vkm* cably yn dost cwbl on dawn, *X* i gabl n dast gwbl on dawn, *Y* []gablu yn dost gwbl on dawn, *r* i gabv n dost gwbl on dawn, *C* I gablu'n dysg gwbl o'n dawn; *BEFHJKLO-SUWad-hjlnoqs-ADEFHIK-O* gwbl on dawn, *D* gwbl o'u dawn, *bG* gwbyl on dawn, *c* gwbl ond iawn, (*l*) gwbl ond awr. 29 *P* di fym yn day[]fedd. 30 *P* a'i ysgwrsio ymysg orsedd. 32 *uv* gylaw gwaed. 33 *ADOUYZdehjkwHO* Dydd gwener, *pBJ* Dy' Gwener, *u* die gwener; *WgnyD* yn digoni, *C* in digoni. 34 *K* y rhoed ar y groes, *L* rhoes ar y groes, *PbmouvG* i roed ar y groes; *ADOUdehjlwHO* êf rhoed ar groes, *rhÿ* daer gri, *Eqtx* y rhoed ar groes rhydaer gri, *H* i rhoed ar y gros poen fawr gri, *N* []ar groys rhydaver gri, *SWZanryzDEFIKM* i roed ar groes rry daer gri, *V* rhoedd ar y groes rhydae gri, *Yk* I roud ar grous rhyd dauar gru, *g* Ei rhoed ar groes rhydaer gri, *i* rhoed ar y grog rhu daer g[], *p* Rhoed ar y groes o hy daer gri, *C* Rhodd ar y groes rhyw daer gri, (*C*) Ef rhoed ar groes rhu dagr gri; *X* rhy der gri. 36 *v* a Roysant. 37 *AOYejkw(C)H* Ar glais dÿr, *DFLUhmoFK* ar glaif dvr, *KPuv* a glaif drvd, *W* a glaiff drvd, *bzG* y glaif dur, *cst* ar glais drud, *gy* A glif drÿd, *O* Ar llais dÿr; *BA* ar glais dur a gloese draw, *CP* claiiff dur oedd iw glwyfo draw, *EM* glaif dvr oedd yw glwyfo draw, *T* glaif dvr oedd iw glwyddo draw, *V* A glaif dryd oy glwyfo draw, *X* ar glais drvd i glwyfo

draw, *Z* Glwyfau dŵr yw glwyfo draw, *arEM* o glaif dŵr i glwyfo draw, *d* ar big Dŵr, iw bigo draw, *i* Clef dur oedd iw clwifo draw, *n* A glif drud i glwyfo draw, *pBJ* Claif dur oedd yn clwyfo draw, *C* A glif driad yw glwyfo draw, *D* A glif drud i glwyfo draw, *I* o glaif dŵr i glwyvaw draw, *L* Ar glaif dur ei glwyfo draw; *HJ* i glwvfo draw, *Q* i glwfo draw, *Rf* yw glwfo draw, (*L*) iw glwyfau draw. 38 *MzH* o law yr dall, *Yk* o daw yr dall; *P* y[]llaw r dall yn llwyr dwyllaw, *X* llaw r dall ai lwyr dwyllaw, *Z* Lawer dyll yw lwyr dwyllaw, *v* yn llawr dall ni llwyr dwyllaw; *EFJLQWgnsuxyCD* ai lwyr dwyllaw, *H* ai lww dwvllaw, *St* oi lwyr dwyllaw, *U* iw lwyr Dwllaw, *V* o lwyr dwyllaw. 39 *c* Trwm iaw, *ej* Trwm iawn; *HQRf* trwm iawn or tir myned, *N* trwm iawn on tir yn mynedd; *E* amyned, *M(B)TXwx(A)* y myned, *Z* yn meyed, *dC* ym myned, *r* aŵ myned, *E* ai myned. 40 *ADOUhwhHO* oedd llŷ Crist, *H* oeddo lv Crist; *V* lu krist wrth ddilay kred, *X* lv krist o ddilev kred, *Yk* oudd llŷ Crist wrth ddilin cred, *c* oedd lv Crist wrth cred, (*C*) Oedd llŷ Crist wrth diben cred; *CpBJP* wrth ddeulu cred, *JPZarEFIKM* wrth ddilav kred, *K* wrth ddial kred, *Rf* wrth ediall kred, *S* wrth ddylŷ crêd, *Wy* wrth ddelev kred, *b* wrth ddiles kred, *g* wrth deleu crêd, *i* wrth ddele[], *nD* wrth oleu cred, *q* wrth ddyley kred, *t* wrth ddilŷ cred, *C* wrth ddelwau cred, *N* wrth ddvlev kred. 41 *A* A llawen falch fal llŷn fŷ, *BA* a llawen falch y llun a fu, *DOUYdehjlwHO* A llawen falch, a llŷn fŷ, (*D*) A llawen falch a Llynawn fu, *E* a llawen valch y llynn vŷ, *H* []llawen fyth fellv yn fv, *M* A llawen falch fe llynn fu, *Q* a llawen fvth fellv fv, *R* a llawen falch fy llyn fv, *V* A llawen feilch y llon y fu, *X* llawen feilch fy llyn a fv, *Z* a llawen falch y llŷ fŷ, *aIM* a llawen vaith a llyn vy, *k* llawan falch a llyn fy, *rE* a llawen vaith ellyn vy, *u* a llawen fyth fy llyn hwn fv (*gyda* hwn *wedi ei groesi allan gan yr un llaw*), *v* a llawen vyth llv hwnn vv, (*C*) A llawen fallch a llun fu, *FK* a llawen vailch a llyn vy, *L* A llawen falch hyll iawn fu; *CFJKLfosxP* fy llynn fv, *S* fell hyn fu, *T* fallyn fv, *bG* val hyn vv, *m* fal llyn a fv, *nD* fel llyn fu, *pBJ* eu llun fu, *t* fy llymy fŷ, *z* val hyn vv. 42 *ABLOUdhLAO* lv Cessar, *D* Lu Caisar, *FMRSX-aejiknp-twB(C)DEFH-MP* lv Sesar, *Wy* lv Seissar, *V* lvs Cesar, *cmov* Lu SySar, *g* Eu Ssesar, *z* lys Sisar, (*z*) lylv Sisar; *G* lv Sisar ban[], *H* []ar pen las Iesv, *J* oedd lu Cesar pan las Iesu, *P* []Sesar pen las Iessv, *C* Yn gogan pan las Iesu. 43 *CTiuvP* gwrthod y gyfraith oediog, *G* wrth hvd y gy[], *H* []d y gyfraith oediog, *K* gwarth oedd ir gyfraith oidiog, *P* gwarth yd[]gyf[]og, *R* gwarth oedd ir gyfraeth odidog, *V* Gwarthaedyr gyfraith oy diog, *b* Gwarthad ir gyfraith eidiog, *f* gwarth oedd ir gyfraeth odiog, *pBJ* Gwrth droed y gyfraith oediog, *z* Gwarthad ir gyfraith oediog, *G* gwarthad y gyfraith eidiog; *DEFJLQWXgnsyCD* y gyfraith oediog, *M* y gyfraith odidog, *k* a Chyfraith odiog, *F* o gyfraith oediog. 44 *CGP* a varnai grist i varn grog, *G* y bwrienw grist[], *K* a farnie grist i farn grog, *M(L)* y bwrien Grist i farn grog, *Q* I bwren grist i mewn barn groc, *Rf* a farnie grist i farn y grog, *T* a fvrniai grist i farn grog, *b* a varnav grist i varn grog, *c* I bwrien grist mewn barn y grog, *i* a

ymliw rhwydd, *FXm* er hyn nid gwiw nod rhiw rhwydd, *H* Er hynn nid gwiw nad rriw rrwydd, *b* er hyn nid rhaid rhyw nod rhwydd, *ef* er nad gwiw rhiw nad gwydd; *EJ(M)NRWajk* rhiw nod rhwydd, *ILMSUh* rhyw nod gwydd, *P* Ruw noot gwydd. 24 *B* Edrych ar i nynadrwydd, *C* edrych ar ynanadrwydd, *D* edrych ar yn nanadrwydd, *EJ* edrych i anynadrwydd, *FHV* edrych ar i anadrwydd, *ILS* edrych ar ananadrwydd, *KNUW(j)k* edrych ar i anynadrwydd, *P* edrych ar i ynannadrwydd, *Raj* edrych ar i ananadrwydd, *Xm* ydrych ar i ynfyrwydd, *b* edrych ar i ynadrwydd. 25 *L* rhaid er i fwyn ddwyn yn ddaf, *M* Er ei fwyn ei ddwyn ydd âf, *d* Er ei fwyn ei ddwyn ei ddâf, *g* Er vwyn i ddwyn i ddaf; *C-FH-KNPQSUVYZbchjlm* ddwyn i ddaf, *O* ddwyn y raf, *ef* ddwyn i dda. 26 *L* i roir attaf, *Nj* a roddir attaf, *P* a ror attaf, *(j)* a roer atta ef, a rodder attaf. 27 *B A* doedwn, *KNRVXajm* o doedwn; *CDh* O doedwn ryw air didwyll, *FHMYZc* o doedwn eiriau didwyll, *(J)* O dwedwn ni air didwyll, *L* o dywedwn eirie didwyll, *Ol* ag o dwedwn air didwyll, *Pe* o ddwedwn air didwyll, *S* o doedwn ni air didwyll, *T* o doeda rŷw air didwŷll, *W* O d'wedwn ei air didwyll, *f* o dywedwn air didwyll, *g* []dywedwn air didwyll. 28 *AIKQUVdef* ni choeliai nad elai n dwyll, *O* Ny choylai nas delai n dwyll, *X* Ni chredo nad elo'n dwyll, *Zc* ni chredau nad Elau yn dwyll, *g* []choelai nad elai n dwyll, *h* ni chreai nad elai n dwyll, *l* ny choilai na delai n dwyll, *m* ni chrede nad ele yn dwyll; *BCDFHLMSTYb* nad elai'n dwyll. 29 *AIKQUVd* er hynn o fost; *g* []hyn o frost ar osteg; *c* er osteg. 30 *BCDLOTbefgh* rhaid yw ceisio, *S* rhaid ceisio; *l* raid yw kaisso dwyllo n deg; *P* dwyllo yn deec, *V* ddwylo n deg. 31 *FYdg* O daf dan, *KV* od a dan, *bm* nid af dan; *R* Oa a dan ddail haf hi; *a* ddail haf hi. 32 *U* draw ddavydd, *d* Draw ei ddafydd; *O* Draw y Ddafydd trwy Difi. 33 *B* Pa ddelw, *FH* pa n ddiawl, *I* pa ddail, *P* pa dail, *S* i ddiawl; *Ol* pa ddail pam na ddialwn, *Xm* yn ddilis gwn na ddylwn; *CKLMTUVZbcfh* pam na ddialwn, *Ej* pa na feddylwn, *(E)J* pa na ddialwn, *NRWak* pan na fyddyliwn. 34 *B Y* mod, *Xm* fyth fod. 35 *A-FH-VX-ce-m* nid hawdd; *AIKUV* i gymrv heddiw, *CDPegil* i gymryd heddiw, *O* y gymeryd heddiw, *Q* i gymry heddyw, *b* i hwn vod heddiw, *d* ei gymru heddiw, *f* ei gymryd heddiw. 36 *A* Oll i'n llwydd, *KQUV* oll yn llwydd, *P* oll yn llwy, *Th* oll yn llaeth, *d* Oll ein llwydd; *I* oll yn lladd megis llvn lliw, *Ol* yn wr llwyd yn yr vn lliw; *FHMc* fegis llvn lliw, *J* megis Llyr lliw, *(Z)b* vegys vn lliw, *g* yn yr vn llyw, *i* fal yn llyn lliw. 37 *AIQU* rhybydd ydyw r grydd ar gran, *L* Rhybudd ywr grudd or gran, *d* Rhybydd ydiw r grudd or grân, *e* Rhy bridd i rvdd ar vr eiriau, *f* Rhy brydd y rhydd ar wr eirian, *g* rry brvdd i rrvdd ar i rran; *BNaj* yw r grvdd ar y gran, *CD* yw i rudd oi ran, *EJ* yw r grudd ar gran, *MRWYk* ywr grvdd ar y gran, *P* ywr gvrvdd ar y gran, *T* ŷw r grydd ar graen, *Zc* yw y grûdd ar y grân, *b* yw y grûdd ar grann, *hi* ydiw r grvdd ar graen. 38 *CDEJNPRTWaefjk* rhyw awdur; *AIMQYbdi* Rvw awdvr da n Roi oedran, *B* Rhuadrwr da'n rhoi adrann, *(B)* Rhuadrwr da'n rhoi oedran, *FH* Ryw wydr da n Roi oedran, *KL(M)UVZc* rhiw awdvr da yn rhoi oedran, *S* rhyw awdr da'n rhoi oedran, *g*

rrvw wowdydd yn rooi oedran, *h* rhyw awdvr da n rhoi oedraen. 39 *MYZi* hynod fardd, *O* Hunod fydd, *P* hynnod vyth, *d* hynod fu, *g* honod fyd; *I* hynod fv hon ydiw fo, *KUV* hynod fy hen ydyw fo, *L* hynod fu n hun ydiw fo, *c* hynod hun ydyw fo. 40 *l* glog eyrner; *L* glug eirn nar golwg arno, *O* Glog eyrner nar golwg arno, *i* gil gwern nar golwc arno; *A-FH-KMNP-XZ-fh(j)km* nar golwg arno, *g* ar golwg arno. 41 *FHXgm* dwyflwydd ywch; *d* fal cledr; *CD* clod y daflawd, *M* lledr y daflawd. 42 *FY* a chevgain aeth, *V* a chweiger aeth, *g* a chevgen ayth, *j* a chweingain aeth; *H* a[]aeth uwx i gnawd (*rhan o'r ll. yn eisiau*); *AQ* yn i chnawd, *I* yn i gnawd, *d* yn ei gnawd. 43 *L* hyn ywr gwr hun nor garreg, *OZc* Hwn yw r gwr hyn na r garreg, *R* Hÿn yw r gwr hvn nar garreg; *DHMTdfghm* nar garreg. 44 *AQd* yw am gwen deg, *IKNUV* wy am gwenn deg, *Lb* wy a gwen deg, *P* yw a gwen deec, *RSWa(d)jk* wyf am gwen deg, *Xm* wyf ach gwen deg, *Zc* wyf i a gwen dëg. 45 *e* oed Am vrgoed; *Xm* om irgoed a mi margen. 46 *B* Na wreiddiodd hi ar wydd hên, (*B*) Na wreiddiodd hi arwydd hên, *L* ni wra hi ar wr hen, *MWak* ni wreiddiai hi ar wraidd hên, *Nj* ni wreiddie hi ar wraidd hen, *Ol* ny wraidda imp or dday hen, *P* na wriddie hi ar wydd hen, *Th* na wreiddie hi n arwydd hên, *Xm* na wreiddia y rhawg ar wraidd hen, *b* na wreiddio hi ar wydd hen, *g* ni wreidda hymp or ddav hen; *C* arwydd hên, *DGEf* ar wydd hen, *EFHJRi* hi ar wraidd hen, *S* hil arwydd hên. 47 *AQd* Kelffynt o honynt, *O* Cylsaint o henaint, *l* Kylffaint o henaint. 48 *CDGYZcf* gorweiddiog ag ir oeddwn, *M* gorweddiog ac yr oeddwn, *O* A gwraidd deg ag ir ayddwn, *P* a gwreiddiog ac iroyddwn, *W* A gwreiddiog ar yr oeddwn, *e* gorweiddiog ag vr oeddwn, *k* a gwreiddiog ar ir oeddwn, *l* a gwraiddog ag ir oyddwn. 49 *L* a buno. 50 *P* obru ynnol, *l* obryn nol; *Afg* e bryn eilwayth, *d* fo bryn eilwaith, *e* ebrin eilwaith. 51 *I* ni wel dros, *M* Ni wyr dros; *T* Ni wÿl yn henav a bun, *h* ni wÿl yn honav alvn; *B* Dannau Alun, *H* Domas Alun, *L* danay alun, *O* donne y lyn, *P* donne alun, *Q* donau a lun, *Xm* donau eulyn. 52 *BCD(e)f* efo i haint, *e* y fo i kaint; *O* Ef ay haint ne y faie hyn, *j* ef ai haint ai vai i hvn, *k* ef i faint haint ai fai i hvn (*gyda faint wedi ei groesi allan gan yr un llaw*); *FHMRTXahm* ai fai i hvn, *L* nai feio i hun, *N* ai faif i hvn, *W* a'i faint ei hun, *g* nai veiaf ehvn, *l* nay vai ai hyn. 53 *AQd* ni chwadd duw, *DNe* Ni chwaddo duw, *P* na chwaddo duw; *F* ni charodd duw chwerwodd dwr, *H* Ni xarodd[]xwerwodd Dwr (*rhan o'r ll. yn eisiau*), *I* ni chwaddo duw cherddys dwys, *KUV* ni chwaddo dûw chwerddydd dwys, *Th* Ni chwaddo dwv chwerwedd dwys, *Xm* na char gwen mae n chwerw y gwr, *g* ni charddo dwv chwreidd dwys; *Ra* chwerddydd dwys, *c* chwerweddud dwys. 54 *G* wrthi hwnw athro wenwys, *Xm* yn anynad vn henwr; *FH* arth o henwr, *N* arth o henwys, *P* arth owennvs, *U* arthûr o wenwys, *f* arch o Wenwys. 55 *AQ* Pan fynodd gwahoddodd gwen, *B* Pan geisiawdd nid er gwahawdd Gwenn, *IKTUV* pen geissiodd er gwahodd gwenn, *L* pen geisioedd er gwaoedd gwen, *MYZc* er pen geisiodd gwahodd gwen, (*M*) Er pan geisiawdd gwahawdd gwen, *P* pan geisiodd ir gwaodd gwen, *b* pan geisiodd

er gwaodd gwen, *d* Pan geisiodd gwahoddodd Gwen, *g* pan geawdd er i gawdd gwen; *G* or gwawdd gwen, *S* er gwahwdd gwenn, *ef* er gwawdd gwen. *56 A* Wys erw, *CDG* yw sorw, *FHL* wisorw, *T* yw sorow, *g* o Sorow; *B* Wissiarw i wâs o Urien, *IKUV* ws erw i was o vrien, *MYZc* iw sorw i was vrien, *PSXbm* wisorw i was ovrien, *Qd* wÿs erw i wâs o vrien, *ef* yw sorw was o eirien, *h* yw sorow i wâs o vrien.

Teitl

A EJ yr ateb, *B* Cywydd o Fawl i Gwerfyl Fychan ac i ddyfalu'r Prydydd Daf: Llwyd: yr hwn oedd wedi anfon Llyw: ap Guttun yn Llattai atti, *CDETh* ateb ir kowyd or blaen, *I* Llewelyn yn gwnevthvr y neges yn y gwrthwyneb, *MY* Cowydd ateb ir vn or blaen, *Qd* Atteb ir 5 kowydd, *R* llyma gywyddeu llateieth I weryl Mechain o waith David lloyd llewelyn ab Gruffyth, *S* Atteb llin ap Gvtvn i dd llwyd, *Wak* Atteb ir kywydd vchod, *Xm* Kow: y llatai yn gwradyddo i feistir drwy ddoedyd drosto i hun, *Zc* Cywydd ateb ir Cywydd or blaen, *e* kowidd i ddavidd lloyd o fathavern esq, *f* Cywydd i Ddafydd Llwyd Llen ab Gr. o Fathafarn am iddo hela Ll. ab G. i ymofyn Gwerfil Mechain, *i* C i Ddafydd Llwyd ap Ll. ap Gr. o Fathafa ... Esqr (*ymyl y ddalen wedi braenu*), *j* kowydd i ateb y kowydd vchod.

Olnod

A Lln ap Gutto Terfyn *B* Llywelyn ap Guttun Bardd a Thelyniwr, *CF* Llywelyn ap Gvtvn, *DEGLMORXYcejl* llywelyn ap gyttyn ai kant, *G* Llywelyn ap Gvtvn ap Ienn llydan ai kant i ateb vaellwyd lloen ag yr yng hylch gwyrflv a chowel vchan, *H* Llywelyn ap Guttyn Delyniwr flourish'd Anno 1480, *I* Llewelyn Guttyn ap Ieuan llydan, *KSUVa* llen ab gyttyn ai kant, *N* ll ap gyttyn ai kant, *P* Ll ap y gvttn ai kant, *Q* felly terfyn Llywelyn ap Gytto ai cant, *Th* lln ap gyttyn ai k: Terfyn yr ymryson yma, *Wbk* Lln ap Gvtvn, *d* 1480 Llewelyn ap Gytto, *f* Llywelyn ab y Gyttyn a'i cant, *g* llen ap Guttyn ap Ienn llydan ai k vixit 1480, *m* Llywelyn ap Guttyn ai kant 1480.

Trefn y llinellau

AQ 1-4, [5-6], 7-22, [23-4], 25-56.

B 1-4, 7-10, 5-6, 11-52, i, 53-6.

C 1-52, ii, [53-4], 55-6.

D 1-52, iii, 53-6.

EFHJNPRTWhjk 1-18, [19-20], 21-56.

G [1-42], 43-4, 46, 45, 47-56.

M 1-12, 35-44, 17-20, 13-16, 45-52, 21-34, 53-6.

O 1-20, [21-2], 25-36, [37-8], 39-40, [41-2], 23-4, 43-52, [53-6].

X 1-6, [7-8], 9-18, [19-20], 21-34, iv, 35-6, [37-8], 39-56.

YZc 1–12, 35–44, [45–6], 17–20, 13–16, 47–50, [51–2], 21–34, 53–6.

d 1–22, [23–4], 25–56.

i 1–12, [13–16], [19–34], 35–44, 17–18, [45–56].

l 1–21, [22], 23–36, [37–8], 39–40, [41–2], 43–52, [53–6].

m 1–6, [7–8], 9–18, [19–20], 21–34, v, 35–6, [37–8], 39–56.

i

Ac fo wyl nid cweryl call
Yn arw feiau un arall.

ii

Da lattai danfonai fo
mynai doll mwyn i dwyllo.

iii

Da lattai danfonai fo
mynnai doll mwyn i dwyllo.

iv

A lletted am y llattai
Diwid fodd i dowod i fai
Douda fal herod didwyll
Wcha bun i chwi i bwyll.

v

a lletted am y llattai
diwid fodd i dowod i fai
douda fal herod didwyll
wcha bun i chwi i bwyll.

Cywydd y gont
Gwerful Mechain

- Pob rhyw brydydd, dydd dioed,
 Mul rwysg wladaidd rwysg erioed,
 Noethi moliant, nis gwrantwyf,
 4 Anfeidrol reiolf, yr wyf
 Am gerdd merched y gwledydd
 A wnaethant heb ffyniant ffydd
 Yn anghwbl iawn, ddawn ddiwad,
 8 Ar hyd y dydd, rho Duw Dad.
 Moli gwallt, cwnsallt ceinserch,
 A phob cyfryw fyw o ferch,
 Ac obry moli heb wg
 12 Yr aelïau uwch yr olwg.
 Moli hefyd, hyfryd tew,
 Foelder dwyfron feddaldew,
 A moli gwen, len loywlun,
 16 Dylai barch, a dwylaw bun.
 Yno, o brif ddewiniaeth,
 Cyn y nos canu a wnaeth,
 Duw yn ei rodd a'i oddef,
 20 Diffirwyth wawd o'i dafawd ef.
 Gado'r canol heb foliant
 A'r plas lle'r enillir plant,
 A'r cedor clyd, hyder claer,
 24 Tynerdeg, cylch twn eurdaer,
 Lle carwn i, cywrain iach,
 Y cedor dan y cadach.
 Corff wyd diball ei allu,
 28 Cwrt difreg o'r bloneg blu.
 Llyma 'nghred, gwlad y cedawr,
 Cylch gweflau ymylau mawr,
 Cont ddwbl yw, syw seingoch,
 32 Dabl y gerdd â'i dwbl o goch,
 Ac nid arbed, freuged frig,
 Y gloywsaint wŷr eglwysig
 Mewn cyfle iawn, ddawn ddiffreg,
 36 Myn Beuno, ei deimlo'n deg.

- Am hyn o chwaeu, gaen gerydd,
 Y prydyddion sythion sydd,
 Gadewch yn hael, gafaél ged,
 40 Gerddau cedor i gerdded.
 Sawden awdl, sidan ydiw,
 Sêm fach len ar gont wen wiw,
 Lleiniau mewn man ymannerch,
 44 Y llwyn sur, llawn yw o serch,
 Fforest falch iawn, ddawn ddifreg,
 Ffris ffrail, ffwrwr dwygaill deg.
 Pant yw hwy no llwy yn llaw,
 48 Clawdd i ddal cal ddwy ddwyllaw.
 Trwsglwyn merch, drud annerch dro,
 Berth addwyn, Duw'n borth iddo.

Ffynonellau

A—Bangor 6, 475 B—BL Add 14870 [= RWM 53], 316^v C—Card 5.10i
 [= RWM 48], 90 D—Card 5.11 [= RWM 33], 334 E—CM 244, 99^v F—
 CM 317, 255 G—LIGC 3047C [= Mos 144], 140 H—LIGC 7191B, 115
 I—LIGC 12873D, 29^v J—LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwllch], 145
 K—Llst 14, 221 L—Llst 35, 195 M—Llst 133, 1119

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 183–92.

Amrywiadau

2 *J* Brwysg wladaidd; *ABDKM* wladaidd wysg erioed, *CEGI* gwladaidd i rhoed, *H* wladaidd rhwysg ydoedd. 3 *CEI* Nithio moliant. 4 *KM* ei rwyf. 7 *ABDFGHJ–M* ddawn ddiiddad. 8 *ABD* Rhyd y Dydd rho, *FHJL* rhyd y dydd i rho, *G* rhyd y dydd a rho, *KM* Rhyd y dydd y rho. 9 *CEG* kwswallt keinserch, *H* cownsalt ceinserch, *I* cwswllt keinserch, *J* cownswallt ceinserch. 10 *ABDFHL* a ffob cyfryw sy vyw, *I* a phob cyfriw fan aferch. 11 *H O* bai a moli heb wg, *J Ag* o ben moli heb w̄g. 12 *CI* uwch nar olwg, *J* ywch law'r olwg. 13 *ABDMFL* tyfryd tew, *J* dyfryd t̄wf. 14 *BDFKLM* foelder y ddwyfron, *CEG* fal deifr ddwyfron, *I* fel difir ddwyfron; *J* dwyfron fyddaldwyf. 15 *ABDFHKLM* [a] moli, *J A* breichiau gwen; *ABDFKLM* lenn liwlvn, *CI* benn loewlûn. 16 *A–EGIKM* a dwylo bun. 17 *J Yno* oi brif; *H yno* brin y ddewiniaeth; *CEI* brif ddiweniaeth. 19 *H Duw* yn arodd; *AD Duw* yn ei radd âi addef, *J duw* er ei radd ai addef; *B a'i* Addef. 20 *ABDFGKLM* diffwrwyth dawd; *CEI* iw dafawd ef, *H yw* i dafawd êf, *J fo* dafawd êf. 21 *ABDJL* gadv'r canol, *C Cadore* canol, *F Iadu'r* canmol, *KM Gady'r* cenol. 22 *CI* llei ynillir y plant, *E* llei ynillir plant, *GH* lle ir ynillir plant, *K* lle 'nillir y plant. 23 *FL* hvder claer, *J rhagor* claer. 24 *ABDGKLM* tynerdav kylch, *F tymerdav* kylch, *J Tynerdew* cylch; *G twn* eirdaer, *H tin* eirdaer, *J*

twyn y taer. 25 *A–FHIKLM* llei karwn i; *J* Llei carwn lliw cowrain iach. 26 *CEGI* tann y kadach. 28 *FL* kwrt diffrek; *H* cowrt di reg ar bloneg blv. 29 *CI* llyma nychied, *H* llyma anghrêd; *E* gwlad kedawr, *G* llyma ynghyred, *J* têt yw cedawr. 31 *CEG* knot ddwbl; *ABDFM* Cont yw fyw Feingoch, *H* Cont yw yn fyw yn feingoch, *J* Cont yno wrth din fin ffloch, *K* Cont ydyw i'w fyw feingoch, *L* kont yw syw seingoch. 32 *J* dabl o gerdd; *AB* dwbl [o] Coch, *D* dwbl [o] gôch, *I* dwblu ô goch. 33 *CEGI* freudeg frig, *J* freisged frig. 34 *ABDFGKLM* a glowssant wyr, *H* a gais o wyr, *I* y glowseint wyr, *J* A glowsant gwyr. 36 *CI* my Beuno deimlo i boneg, *J* myn Beuno oi deimlo'n dêg. 37 *H* Am hyn och maen gaen gynydd, *J* Am hyn o gaen chwaen chwerydd; *AD* gaen gerfydd, *CI* caen gerydd. 38 *H* y prydyddion ffyddion ffydd, *J* Y prydyddion sychion sydd. 39 *J* Gadewch heb ffarl er cael cêd; *ADFLM* hael cael ked, *B* hael gael ced, *H* hael er cael cêd, *K* hael in gael ged. 40 *H* gerddor cedor, *K* Cerddeu Cedor; *J* Gerddau i gedor gerdded. 41 *AD* Sawdwen awdl, *CI* Cadwen owdl; *I* sida y yiw. 42 *ABL* sem faech lenn, *CI* sem fach lem, *F* sem falch lem, *H* seim falchlen, *KM* Sem faech lem; *J* Assen falch wen ar gont wen wiw. 43 *CEI* lluniau mewn, *G* lliniav mewn, *H* lliniaw mewn; *CI* man im hannerch, *H* man yw hannerch. 44 *CI* y llwyn sydd yn llawn, *EG* y llwyn y su'n llawn. 45 *CEI* iawn ddiffr iawn ddifreg, *G* iawn ddawn ddiffr iawn ddifreg. 46 *CEI* ffris eraill ffwr, *G* ffris eraill ffwrwr. 47 *ABDFHKLM* kont yw hwy; *I* pan iw hwy na llwy yn llaw, *J* Cont hwy na llwy ag na llaw; *ABDFGKLM* na llwy na llaw, *CE* na llwy yn llaw, *H* na llwy nag a llaw. 48 *K* cal dwy ddwylaw. 49 *ABD–GIKLM* Trwysglwyn merch, *H* Traws llwyn merch; *J* Breisglwyn berth drÿd anferth dro. 50 *GI* berth addfwyn; *E* duw borth iddo.

Teitl

ABD Cywydd y Kedor, *CI* Cowydd i Gont, *EFL* K y gont, *G* Kowydd y gont o waith gweryl mechain, *HKM* Cywydd y Gont, *J* Cywydd Ir Gont

Olnod

B D. ap Gwilym, *CI* Gwerfil Mechain, *D* Terfyn, *E* Gweril Mechain ai kant, *F* GweyrÛl mechain ai kant, *G* gweirryl mechain ai kant, *H* Gwyrfil ap Howel fychan ai Cant, *J* Gwerfyl Fechain, *K* Dafydd ap Gwilym a'i cant, *L* gweyrÛl mechain ai kant, *MDG* a'i cant

Trefn y llinellau

A–IKLM 1–50.

J 1–4, 7, 8, 5, 6, 9–26, [27–8], 29–30, 47, 48, 31–42, [43–6], 49–50.

I wragedd eiddigus
Gwerful Mechain

Bath ryw fodd, beth rhyfedda',
 I ddyn, ni ennill fawr dda,
 Rhyfedda' dim, rhyw fodd dig,
 4 Annawn wŷd yn enwedig,
 Bod gwagedd, rhyw agwedd rhus,
 Rhwydd wg, yn rhy eiddigus?
 Pa ryw natur, lafur lun,
 8 Pur addysg, a'i pair uddun?
 Meddai i mi Wenllian,
 Bu anllad gynt benllwyd gân,
 Nid cariad, anllad curiaw,
 12 Yr awr a dry ar aur draw.
 Cariad gwagedd bonheddig
 Ar galiau da, argoel dig.
 Pe'm credid, edlid adlais,
 16 Pob serchog caliog a'm cais,
 Ni rydd un wraig rinweddawl,
 Fursen, ei phiden a'i phawl.
 O dilid gont ar dalwrn,
 20 Nid âi un fodfedd o'i dwrn:
 Nac yn rhad nis caniadai,
 Nac yn serth er gwerth a gâi.
 Yn ordain anniweirdeb
 24 Ni wnâi'i ymwarded â neb.
 Tost yw na bydd, celfydd cain,
 Rhyw gwilydd ar y rhiain
 Bod yn fwy y biden fawr
 28 Na'i dynion yn oed unawr,
 Ac wyth o'i thylwyth a'i thad,
 A'i thrysor hardd a'i thrwsiad,
 A'i mam, nid wyf yn amau,
 32 A'i brodyr, glod eglur glau,
 A'i chefndyr, ffyrf frodyr ffydd,
 A'i cheraint a'i chwiorydd:
 Byd caled yw bod celyn
 36 Yn llwyr yn dwyn synnwyr dyn.

- Peth anniddan fydd anair,
 Pwnc o genfigen a'i pair.
 Y mae i'm gwlad ryw adwyth
 40 Ac eiddigedd, lawnedd lwyth,
 Ym mhob marchnad, trefniad drwg,
 Tros ei chal, trais a chilwg.
 Er rhoi o wartheg y rhên
 44 Drichwech a'r aradr ychen,
 A rhoi er maint fai y rhaid,
 Rhull ddyfyn, yr holl ddefaid,
 Gwell fydd gan riain feinir,
 48 Meddai rai, roi'r tai a'r tir,
 A chynt ddull, rhoi *ei* chont dda
 Ochelyd, na rhoi'i chala,
 Rhoi'i phadell o'i chell a'i chost
 52 A'i thrybedd na'i noeth rybost,
 Gwaisg ei ffull, rhoi gwisg ei phen
 A'i bydoedd na rhoi'r biden.
 Ni chonais 'y nychanon,
 56 Gwir Dduw hynt, ddim o'r gerdd hon,
 I neb o ffurfeidd-deb y ffydd
 A fyn gala fwy no'i gilydd.

Ffynhonnell

LlGC 3050D [= Mos 147], 360

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 189.

Darlleniadau'r llawysgrif

4 a nawn wyd. 14 ar galie daf. 21 nis kynhiadai. 24 ni nai. 38 gefigen. 40 ag eiddigedd. 46 rrvll dyfn. 49 roi chont dda. 50 na roi chala. 51 rroi ffadell. 52 ai thrybeth nai noth rvbosd. 54 na rhoi i biden. 55 ni chenes ynvch anon.

Teitl

Cowydd i wragedd eiddigvs.

Olnod

Gwevrfvl achowel fychan ai kant.

*Gwerful Mechain yn holi Dafydd Llwyd**Gwerful Mechain*

- Pa hyd o benyd beunydd—yn gwyllo
 Yn gweled byd dilwydd,
 A pha amser, ddiofer Ddafydd,
 Y daw y byd ai na byd?
- 4

Dafydd Llwyd

- Pan fo yr ych mawr uchod—anturiwr
 Yn tirio'n rhith Ffrancod,
 Yn ddewr ei arfau, yn dda'i arfod,
 Yn wâr gynt, yn wâr y god.
- 8

- Rhwng y naw a'r deunaw y dôn'—pob gofal
 A gofid gan ladron,
 A dinistr a wna dynion,
 Rhai sydd yn yr ynys hon.
- 12

- Neidr fain a'r glain i Golunwy—y rhed
 Ac i'r rhyd ar Gonwy,
 Neidr a fernir 'rhyd 'Fyrnwy,
 Nodi'r glain gynt glan Gwy.
- 16

- Yna y gwyl Gwerful y gorfod—ar y bryniau,
 A'r brenin mewn trallod
 Ar y mynydd 'Nghyminod,
 A min cledd yn mynnu clod.
- 20

Ffynonellau

A—BL Add 14974, 82^r B—LIGC 7191B, 169 C—LIGC 13691C, i D—
 Llst 167, 34 E—Llst 173, 178

Y mae rhai darlenniadau yn llawysgrif E yn aneglur oherwydd traul. Ni nodir y rhain oni bai fod rheswm i greu y byddai'r darlenniadau hynny, petaent yn gyflawn, yn wahanol i'r testun golygedig uchod. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 183–92.

Amrywiadau

1 *AD* beunydd y gwiliwn. 2 *E* byd dyliwdydd. 3 *B* a ffar amser diofer Dafydd, *E* []ffar amser diofer dafydd. 4 *B* i daw yr bÿd, *E* []daw yr byd; *AE* ai ni bydd. 5 *AD* Pen weler yr ÿch; *E* antir i ni. 6 *A* yn taro, *C* Yn twrio'n; *A* ymhlaid Ffrancod, *D* ymlith ffrangcod. 7 *B* yn ddewr arfau; *A* yn ddewr i Arfeu'n dda i arfod, *C* Yn dewr arfog yn di orfod, *E* yn ddewr arf yn ddiarfod. 8 *B* yn war mar gynt yn wr y gôd, *C* []yn wr y gôd (*dechrau'r ll. hon yn eisiau*); *E* wr o goyd. 9 *E* ar dawnaw. 11 *E* []ewys dir a na dynion. 12 *B* a rhai sydd. 14 *B* ag ir hÿd ar gonwy. 15 *B* ar hÿd fynnwy. 16 *C* gynt glan hwy. 17 *A(D)* yna y gwel; *E* []wyl gwerful i gorfod a bryn i orth. 18 *A* y Brenin. 19 *E* []nydd yn kychwyn y nod. 20 *E* []ledd y myn i glod.

Teitl

A Gwerfyl yn gofyn, *BC* Gwerfyl mechain n gofyn i ddafydd Lloyd, *D* Gwerfyl Mechain yn gofyn, *E* gwerfil yn gofyn i ddafydd llwyd.

Priodoliad

A Dafydd Llwyd yn ateb, *C D*. Llwyd, *D* Davidd llwyd yn i hateb, *E* []llwyd ap ll ai kant.

Trefn y llinellau

AD 1–8, [9–16], 17–20.

BC 1–16, [17–20].

E 1–12, [13–16], 17–20.

*Ymddiddan rhwng Dafydd Llwyd a Gwerful Mechain**Dafydd Llwyd*

4 Dywaid ym, meinir, meinion—yw d’aeliau,
 Mae d’olwg yn dirion,
 Oes un llestr gan estron,
 A gwain hir y gannai hon?

Gwerful Mechain

8 Bras yw dy gastr, bras gadarn—dyfiad
 Fal tafod cloch Badarn;
 Brusner cont, bras yn y carn,
 Brasach no membr isarn.

12 Hwde bydew blew, hyd baud blin,—Ddafydd,
 I ddofi dy bidin;
 Hwde gadair i’th eirin,
 Hwde o doi hyd y din.

16 Haf atad, gariad geirwir,—y macwy,
 Dirmycer ni welir.
 Dof yn d’ôl oni’ m delir,
 Gwas dewr hael â’r gastr hir.

20 Gorau, naw gorau, nog arian—gwynion
 Gynio bun ireiddlan
 A gorau’n fyw gyrru’n fuan
 O’r taro, cyn twitsio’r tân.

Ffynhonnell

LIGC 1553A, 473

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 188.

Darlleniadau’r llawysgrif

8 brasach na. 17 nag arian; gwnio.

Teitl

Davydd llwyd ap llen ap gr: a gwervl mechen a gane fal hyn.

Olnod

gwerfvl mechen a dd llwyd ap llen ap grvff.

Gwerful Mechain yn gofyn i Ddafydd Llwyd

- 4 Ateb i'm hwyneb o'm hiaith—fanwl
 Am a fynwy'n ddilediaith,
 Pa bryd y cair, er Mair mawr iaith,
 Drwy Rufain yr un afiaith?
- 8 Pan ddêl aer yn daer o'r dyn—o Ladin
 I ledio pob dyffryn,
 Deliwch pan lygrer Dulyn
 Fe ddaw tro i hon trwy hyn.
- 12 Pan aner lloer, poen anian—osodiad,
 Ar Sadwrn Pasg Bychan,
 Yr ail lau yn ôl Iyfan,
 Yn y tir ynynnir tân.
- 16 Cyn y dêl rhyfel daw rhyfeddod—ar y môr,
 Mawr yw gwyrthiau'r Drindod,
 A'r prif ar naw'n profi'r nod,
 Gwae ynys y gwiddanod.

Ffynonellau

A—LIGC 7191B, 169 B—Llst 167, 34 C—Llst 173, 177

Y mae rhai darlenniadau yn llawysgrifau B a C yn aneglur oherwydd traul. Ni nodir y rhain oni bai fod rheswm i gredu y byddai'r darlenniadau hynny, petaent yn gyflawn, yn wahanol i'r testun golygedig uchod. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 183–92.

Amrywiadau

1. *BC* [fanwl]. 2 *B* am a ofynwif, *C* am synwyr; *A* yn ddiledniaith. 3 *A* pa brÿd i keir; *B* pa brid er mair ei []hiaith, *C* pa bryd y keir er mair i iaith. 4 *A* drwy Rûfen yr vn araith, *B* yn Rhufen or vn afiaith. 5 *B* pan ddel Aer y[]daer yn adern o Ladin, *C* pen ddel gair yn dair or ddwyr[]. 7 (*B*) losger Dulun. 8 (*B*) Efe ddaw tro ei handlo hyn.

Teitl

A Gwerfyl etto yn gofyn i Ddafydd Lloyd, *C* gwerfil mechain yn gofyn i ddafydd ll[].

Trefn y llinellau

A 1–4, [5–16].

B 1–5, [6], 7–8, [9–16].

*Dafydd Llwyd yn ateb Gwerful Mechain**Gwerful Mechain*

4 Cei bydew blew cyd boed blin—ei addo
 Lle gwedde dy bidin;
 Ti a gei gadair i'th eirin,
 A hwde o doi hyd y din.

Dafydd Llwyd

8 Cal felen rethren i ruthro—tewgont,
 A dwygaill amrosgo,
 Fel dyna drecs o dôn' ar dro
 A wnâi'r agen yn ogo'.

Ffynhonnell

LlGC 3039B [= Mos 131], 109

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 189.

Teitl

Dav Englyn serch diflas a fv rrwng Gwerfyl mechain a Dafydd Llwyd ap llewelyn ap Gruffydd ar llail oll sy n dyfod ar ei hol nv wnn pwy av kant.

I'w gŵr am ei churo
Gwerful Mechain

Dager drwy goler dy galon—ar osgo
 I asgwrn dy ddwyfron;
 Dy lin a dyr, dy law'n don,
 A'th gleddau i'th goluddion.

Ffynonellau

A—BL Add 14990, 18^v B—LIGC 3039B [=Mos 131], 404 C—LIGC 3039B [=Mos 131], 406 D—Llst 119, 138 E—Llst 145, 90 F—Pen 94, iii

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 183–92.

Amrywiadau

1 *BC* Dy ddager; *AD* dy galon osgo. 3 *B* ath lin a dyr ath law yn don, *C* a thrwy dy fraych ag at dy fron. 4 *B* ath gleddef i golvddion, *C* ag eilwaith trwy dy galon, *EF* dy gledheu yth goludhion.

Olnod

AEF Gwerrvul Mechain yw gwr am ei churo, *B* Gwerfyl Mechein yw gwr ai kant, *C* Gwerfyl mechain, *D* Englyn a wnaeth gweryl mechain iw gwr am i churo.

16
Gwlychu pais
Gwerful Mechain

Fy mhais a wlychais yn wlych—a'm crys
A'm cwrsi sidangrych;
Odid Gŵyl Ddeinioel foelfrych
Na hin Sain Silin yn sych.

Ffynonellau

A—BL Add 14964, 13^r B—BL Add 14965, 4^v C—BL Add 14990, 66^v
D—LIGC 643B, 76^v E1—LIGC 3039B [= Mos 131], 801 E2—LIGC
3039B [= Mos 131], 849 F—LIGC 13118B, 17 G—LIGC 13155A, 295

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 183–92.

Amrywiadau

1. *ABCE²FG* Ymhais a wlychais; *D* am kwrssy, *E¹* vy nghrys. 2 *ABCF* am
cowrsi, *D* am korsed, *E¹* vy nghwrsi; *D(E²)* sidanwych. 3 *E²* odid wyl; *A*
Ddenioel, *B* ddeniel, *C* Ddeiniel, *D* ddeineol; *D* foelgrych. 4 *ABCF* a gwyl
Sain Silin, *D* na/a hin Sain Silin, *E¹E²* na gwyl Sain Silin, *G* A hin gwyl
Silin.

Teitl

AB Coel an hinedd ar y ddaû ddigwyl isod nev am vn or dyddie hynny, *E¹*
Gwervvl mechain a wlychodd yn dyfod adref or gwyl mabsant ar wyl sain
Silin, *E²* *G*: y verch a wlychodd yn dyfod or gwyl mapsant ar wyl Sain Silin,
F Coel am yr hîn sef coel anhinedd ar y ddau ddigwyl isod, neu am un o'r
dyddiau hynny, *G* Anhinedd, foul weather, Llyma Englyn coel anhinedd ar y
ddau ddigwyl isod neu ar un o'r dyddiau hynny.

Olnod

ABCG Gwerfyl mechain, *E¹E²F* Gwervvl mechain ai kant.

Llanc ym min y llwyn
Gwerful Mechain

Rhown fil o ferched, rhown fwyn—lances,
Lle ceisiais i orllwyn,
Rhown gŵyn mawr, rhown gan morwyn
Am un llanc ym min y llwyn.

Ffynhonnell
LIGC 1553A, 694

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 188.

Olnod
gwerfvl mechen.

I'w morwyn wrth gachu
Gwerful Mechain

Crwciodd lle dihangodd ei dŵr—'n grychias
 O grochan ei llawdwr;
 Ei deudwll oedd yn dadwr',
 Baw a ddaeth, a bwa o ddŵr.

Ffynonellau

A—CM 149, 56 B¹—Pen 198, 7 B²—Pen 198, 7

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 183–92.

Amrywiadau

1 B² Crwgeiodd; A Cryciodd diengodd ei dwr Yn grychias; B¹B² [’n]. 2 A O grochan y llawdwr. 3 B² Ei deudwr.

Teitl

A Englyn a gant Gwerfil Mechain i’w morwyn wrth ei gweled yn cwrcydu i rydhau ei chorff, B¹ Englyn o waith gwerfil Van Iw morwyn oedd yn Rhyddhau I chorff.

Olnod

A G.M.

*Pwy a gâr fwyaf?**?Dafydd ab Edmwnd*

4

Ofnhau yr wyf yn fy nhyb
 O ddal ar serch ddolur Siob,
 O eiriau nwyf a wŷr neb,
 Ai cymaint serch merch â mab?

?Gwerful Mechain

8

Cywirais ddydd, cerais ddoe
 Cwyr dan sêl cariad a sai',
 Clwyf ail modd, clyw fal y mae:
 Cymaint yw serch merch a mwy.

Ffynonellau

A—Bangor 92, 30^v B—BL Add 14892, 64^v C—BL Add 14974, 101^r D—
 Card 4.10 [= RWM 84], 416 E—Card 4.156 [= RWM 64], 621 F1—CM
 25, 115 F2—CM 25, 151 G—CM 149, 89 H—LIGC 253A, 460 I—LIGC
 644B, 108 J—LIGC 672D, 108 K—LIGC 836D, 29 L—LIGC 10248B, 63
 M—Llst 165, 178 N—Pen 198, 185 O—Pen 244, 76 P—Pen 245, 93 Q—
 Wy 6, 140

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 183–92.

Amrywiadau

1 *F¹I* Ofnhav rwy; *D* O fu nhau i Rwy'n fu nhyb, *E* O ofynhau yn fy nhyb, *K* Ofynhau'r wy'n fy nhyb, *M* Ofnhau yr wy i yn fy nhyb, *N* Ofnhau i rwy n yn fy nhyb (*gydag yn wedi ei groesi allan gan yr un llaw*), *P* Ofni fy nhwŷll yn fy Nhûb. 2 *K* o ddall o ddal ar serch ddolur Siob (*gydag o ddall wedi ei groesi allan gan yr un llaw*), *M* ddal ar ei serch ddolur siob. 3 *ABJOQ* o eiriav yn wir a wyr neb, *DL* o eiriav mwy a wyr neb, *F²* o eirian yw a wyr neb, *K* o eiria'n wir a wyr neb, *M* ar ei nwy a wyr neb. 4 *G* Pa gymaint serch, *OQ* Ai Cymun serch; *I* ai kimin yw serch merch a mab. 5 *P* Lliniais ddydd cowirais ddoe. 6 *AJOQ* Cowir da sel, *B* kowyr da sel; *EP* Cûr dan sêl cariad a saù, *M* Cwyr dan ei sêl, cariad a sai; *F²* cariad i sai, *H* cariad a say. 7 *M* clwy ail ir modd; *E* Clwyf ail modd coelio fal mau.

Teitl

A gofyn pa un fwya yn Caru ai Mab ai Merch, *B* pwy vn fwyaf ai mab ai merch sy yn karv, *EP* Englynion, *G* Englynion Drost Cariad, *J* pa un fwya câr mab ai merch, *L* I ofyn ai kimint serch merch a mab, *OQ* Pa un fwya n Caru mab ai merch.

Priodoliad

DF¹F² Sion Brwynog, *G* Gwerfyl Mechain/D ab Edmnt, *K* ateb o waith Sion Brwynog, *N* Gwerfyl Mechain ai cant/dafydd ap Edmwnt.

*Gwerful yn ateb Dafydd Llwyd**?Dafydd Llwyd*

Os ceffyl cul, coeliwch—y feinir,
 A fynych farchogwch,
 Tost a chaled gochelwch
 4 Hallt a blin yw hollti blwch.

?Gwerful Mechain

Ni hyllt naws gwyllt yn oes Gwen—galchw ...
 Fo amgylchwyd y fargen;
 ... e gïau'n ôl ar ei dolen,
 8 ...

Ffynhonnell

Pen 198, xiii

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 192.

Teitl

Englyn o waith Dafydd Llwyd ab Llywelyn ab Gruffydd pan gyfarfu ef
 Gwerfÿl o Aber Tanat yn ferchog ar Geffyl Llymsi yn myned drwy Afon
 Dana[].

Ynghylch ei thad
?Gwerful Mechain

Howel Fychan o Gaer Gai ac ef ddim yn iach a ddanfonodd ei ferch Gwerful Mechain i gymanfa yn ei le ac yn ei thŷ llety daeth dynes i holi am Howel Fychan; hithau a ofynnodd ei gweled ac a ddywedodd wrthi:

Gŵr penwyn sydyn at siad—findenau
 Adwaenir drwy'r hollwlad,
 Gŵr penllwyd o grap anllad,
 4 Gŵr edwyn hŵr ydyw 'nhad.

Gwedi ei dyfod yn ôl, ei thad a ofynnodd pa fodd y bu a pha beth a welodd; hithau a atebodd:

Gweles eich lodes lwydwen—eiddilaid[d],
 Hi ddylai gael amgen;
 Hi yn ei gwres, gynheswen,
 8 Chwithau 'nhad aethoch yn hen.

Ffynonellau

A—LIGC 436B, 104^v B—Pen 203, 137

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 183–92.

Amrywiadau

5 *A* lodas; *A* lwudwen ddiledd. 6 *A* ni ddylai. 7 *A* y hi yn hyswi gynheswen.
 8 *A* a chwithau nhad.

Olnod

A gwerfil fy ai cant, *B* Gwerfyl Mechain.

Trefn y llinellau

A [1–4], 5–8.

Oerflawd, daeargnawd, du oergnu—mynydd,
 Manod wybren oerddu;
 4 Eira'n blât, oer iawn ei blu,
 Mwthlan a roed i'm methlu.

Eira gwyn ar fryn fry—a'm dallodd,
 A'm dillad yn gwlychu;
 8 O, Dduw gwyn, nid oedd genny'
 Obaith y down byth i dŷ.

Ffynonellau

A—Card 1.2 [= RWM 12], 405 B—Card 4.10 [= RWM 84], 1040 C—CM 24, 12 D—CM 25, 11 E—CM 117, 211 F—LIGC 16B, 262 G—LIGC 11087B, 88 H—Llst 165, 141

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 183–92.

Amrywiadau

1 *CH* Gwnflawd davargnawd; *H* oergnu i mynydd. 3 *G* oer iawn blu. 4 *CH* im mathlu. 5 *H* Ei ... gwyn (*ceir staen ar y llawysgrif*). 6 *D* oedd yn gwlychu, *E* yn gwynu. 7 *A* o dwv gwyn, *BC* duw ... , *DF* myn dwv gwyn, *H* Lyw gwyn. 8 *B* down i byth i dŷ.

Teitl

E Gwerfil Goch neu Mynor Vychan Caer Gai wrth ddychwelyd dros y mynydd o Drawfynydd [*sic*] Yn nhrymder y Gauaf Goddiweddwyd hi gan Ystorm o eira Collodd y ffordd am beth amser ac yn ol ei chael dywedodd, *F* y Bardd mewn temestl o Eira, *G* Englyn ir eira.

Olnod

C Gwerfyl Fechan ai kant, *H* Gwerfil fechan ai cant.

Trefn y llinellau

ABDEF [1–4], 5–8.

G 1–4, [5–8].

23

Y bedd

?Gwerful Mechain

Och! lety, gwely gwaeledd,—anniddan
Anheddle i orwedd,
Cloëdig, unig annedd,
Cas gan bawb yw cwsg y bedd.

Ffynhonnell

CM 117, 211

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 187.

Teitl

Englyn i'r Bedd gwaith yr un Awdures.

Olnod

Gwerfil a'i Cant.

Nodiadau

1

Pwysleisir ar ddechrau'r cywydd hwn fod Iesu Grist wedi marw ar y Groes er mwyn achub a gwaredu dynolryw. Ailadroddir arwyddocâd canolog y digwyddiad ymhellach yn llinellau 11–12, 15, 17–18 a phwysleisir hyn drachefn ar ddiwedd y gerdd wrth sôn am *Pardwn Duw rhag Purdan dig fel calennig* (llau. 73–4) a enillwyd drwy aberth Crist ac a sicrheir drwy weddio'n gyson. Manylir ar glwyfau a dioddefaint Crist a'i aberth ar y Groes er mwyn sicrhau gwaredigaeth dyn. Cyflwynir y rhannau o'r corff dioddefus ac ymateb y 'lluoedd' a Mair Ei fam: *Oer oedd i Fair, arwydd fu, / Wrth aros Ei ferthyru* (llau. 9–10). Wedyn ceir sôn am Jwdas Iscariot yn bradychu'r Iesu ac yn ei gablu'n dost gyda sylw drachefn i'r *gweliâu* (hyd ll. 48). Celfydd yw'r modd y creir gwrthgyferbyniad rhwng Iesu'n *prynu* (llau. 12, 15, 18) *pob gradd o Adda* (ll. 15) a Jwdas y *prisiwr* (llau. 23, 26) yn ei werthu. Manylir ar Ddydd Gwener y Groglith a marwolaeth Crist a chyfeirir at Joseff o Arimathea yn cludo corff yr Iesu i'w roi yn ei fedd ei hun. Trafodir atgyfodiad Crist a'i esgyniad i'r nef ar Ddydd Iau Dyrchafael. Diweddir y cywydd drwy bwysleisio gras y Drindod a llawenydd achubiaeth rhag y purdan.

Yr oedd cerddi defosiynol a fydryddai stori'r Pasg, gan roi sylw manwl a graffig i'r dioddefaint, yn boblogaidd iawn. Thema gyffredin gan y beirdd Cymraeg, megis beirdd gwledydd Ewrop benbaladr, oedd manylu ar ddwystr dioddefaint Crist ar y Groes, Ei waed a'i glwyfau a'i gystudd corfforol. Yr oedd cyflwyno dioddefaint Crist mewn ffordd graffig ac emosiynol yn fodd i wneud i bobl sylweddoli natur yr aberth a bod Duw wedi dioddef fel dyn meidrol. Fel y dywedodd Rosemary Woolf:

The main subjects of the medieval religious lyric are those central to medieval meditation, the Passion, and the Last Things, especially death, with the emotions proper to them, love and fear. In order that the reader of the poems may feel these emotions personally and keenly, he is persuaded by the lyric to imagine himself in a scene which will provoke them, and which is described often in minute visual detail. The reader is to imagine ... that he is present at the Crucifixion and that Christ on the Cross appeals to him personally for compassion ... ¹

¹ Rosemary Woolf, *The English Religious Lyric in the Middle Ages* (Oxford, 1968), 19.

Er mai'r Grog oedd y symbol grymusaf o'r croeshoeliad yn yr eglwys, câi'r gynulleidfa ei hatgoffa'n gyson o ddiodeffaint Crist wrth weld nifer o wrthrychau eraill a gynrychiolai'r Pasiwn, megis y lluniau a baentiwyd ar furiau'r eglwys, y cerfluniau a'r ffenestri gwyrdd lliw. Ni châi'r gynulleidfa gyfle i anghofio nac i ddianc rhag arwyddocâd y symbolau grymus hyn ac felly nid yw'n syndod fod y Pasiwn wedi datblygu'n destun cwbl ganolog ym marddoniaeth grefyddol y beirdd fel yr oedd yn ddelwedd ganolog yng nghelfyddyd Gristnogol yr Oesoedd Canol. Yn ôl Nicola Coldstream:

Medieval Christian art was centred not on Man, but on God. Its focus was the cross of the crucifixion ... The Rood—the carved image of the crucified Christ between the Virgin Mary and St John—was suspended before the congregation in every church. Similar images appeared in large and small scale, in wall paintings, sculpture, stained glass, manuscript illuminations, portable images, ecclesiastical vestments, and liturgical furnishings.²

Gwneir yr un pwynt gan Syr Glanmor Williams:

The five long odes of Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd to the Rood at Chester and Gruffudd Llwyd's shorter, but very striking, *cywydd* to the Rood at Welshpool, are reminders of what powerful aids to Christocentric devotion men found in the reproductions of contemporary artists in wood, paint, and stone. These poems are the forerunners of a very numerous and popular class of religious poems of the fifteenth century in which the rood was the focus of the poet's worship.³

Ceir nifer o gerddi i grogau gan y beirdd: er enghraifft, canodd Dafydd ap Gwilym i'r grog yng Nghaerfyrddin,⁴ Guto'r Glyn i'r grog yng Nghaerlleon,⁵ ac Ieuan Brydydd Hir a Siôn Ceri i'r grog enwog yn Aberhonddu.⁶

Awgrymodd Dr Enid Roberts mai wrth fyfyrion ar y portread mewn gwyrdd lliw o Grist ar y Groes yn ffenestr eglwys Llanwrin y canodd Gwerful Mechain ei chywydd 'Dioddefaint Crist'.⁷ Er ei bod hi'n ddigon posibl fod sail i'r awgrym hwnnw, y mae'n deg dweud y byddai amrywiol wrthrychau yn cynrychioli Croeshoeliad Crist i'w cael ym mhob eglwys yn y Canolbarth. Ym Meifod, er enghraifft, goroesodd darlun o'r Crist croeshoeliedig wedi ei naddu ar lechfaen, ac yng Ngheri ceir bedyddfaen wedi ei

² Nicola Coldstream, 'The visual arts', *The Oxford Illustrated History of Medieval England*, ed. Nigel Saul (Oxford, 1997), 208.

³ WCCR² 110–11.

⁴ GLIBH 49–91.

⁵ GGI² 283–4 (cerdd CX).

⁶ GIBH cerdd 12; GSC cerdd 54.

⁷ Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981, 22–3.

naddu sy'n dangos amrywiol wrthrychau'r Pasiwn.⁸ At hynny, yn hen eglwys Llanwddyn, a foddwyd bellach yn sgil codi argae, ceid ffresgos arbennig a fesurai naw troedfedd ar hugain o hyd a chwe throedfedd o uchder. Yr oedd y murluniau hyn yn darlunio naw golygfa ym Mhasiwn Crist, yn eu plith y Swper Olaf, golchi traed Pedr, y cystudd yng ngardd Gethsemane, bradychu a dal yr Iesu, gwatwar a churo'r Iesu, gwadiad Pedr, dedfrydiad Iesu a'i Groeshoeliad.⁹

Yn ôl tystiolaeth beirdd y bymthegfed ganrif, yr oedd eglwys Croesoswallt yn adeilad rhagorol ac yr oedd i'w saernïaeth a'i haddurniadau apêl synhwyrus amlwg. Yn ôl Tudur Aled:

Eglwyswyr, dduw gŵyl Oswallt,
Yr a mwg aur am eu gwallt,
Cŵyr a sens oll, caer Sain Siâm,
Clochdy aruthr, clych Duram;
Eglwyswyr yn galw Iesu,
A'r organ fawr, a'r gân fu;
A glyw sy fyw, eglwys fawr,
Araith well ar wyth allawr?
Wyth gôr Duw, wyth gair dewis,
Ag un i'r Grôg, awn i'r gris ...

Y grôg wyn, gwyarog wallt,
Yng nghôr Iesu, yng nghaer Oswallt,
A'i harian-grair, yr hen-groes,
I'w chadw i gyd, iechyd ag oes!¹⁰

O ystyried disgrifiad Tudur Aled ohoni, gellir awgrymu bod yr eglwys hon yn cynnig awyrgylch ddelfrydol i'r sawl a oedd am fyfyrïo ar Basiwn Crist. Efallai i Werful Mechain hithau brofi awyrgylch hudol yr adeilad cysegredig hwnnw ac mai yno, neu mewn eglwys gyffelyb, y cyfansoddodd ei chywydd 'Dioddefaint Crist'. Ond gallai yr un mor hawdd fod wedi ei hysbrydoli gan furlun, brodwaith, neu ddelw symudol, neu gan gerddi crefyddol beirdd eraill.

At ei gilydd, confensiynol ac ystrydebol yw barddoniaeth grefyddol y bymthegfed ganrif ac nid yw gwaith Gwerful Mechain yn eithriad. Dilyn themâu poblogaidd ei hoes a wna, gan gyfleu syniadau digon cyfarwydd mewn llinellau stoc:

⁸ Richard Haslam, *The Buildings of Wales: Powys (Montgomeryshire, Radnorshire, Breconshire)* (Harmondsworth, 1979), 160, 114.

⁹ *Ib.* 151; Glanmor Williams, *Recovery, Reorientation and Reformation: Wales c.1415–1642* (Oxford, 1987), 123.

¹⁰ TA 261 (LXV.13–22), 264 (LXV.99–102).

Ar bren croes i brynu Cred,¹¹

Pardwn Duw rhag Purdan dig.¹²

Yn ddiddorol iawn, sylwer bod Gwerful Mechain, fel beirdd eraill y cyfnod, yn credu y gellid prynu enaid o'r Purdan, neu ennill pardwn Duw, cyn marw. Ni ellir dweud bod unrhyw nodweddion neilltuol o fenywaidd ym marddoniaeth ddefosiynol Gwerful Mechain. Sonia am waed a briwiau corfforol Iesu ac am dristwch Mair Ei fam, ond dilyn yr un llwybr â'i chymheiriaid gwrywaidd a wna yn hyn o beth. Yn wahanol i fyfyrddodau cyfriniol benywaidd a thra phersonol Margery Kemp (ganed c. 1373), anodd canfod llais unigolyn neu lais merch yma. Cyfeiria Margery ati ei hun yn fynych fel priodferch Crist ac at ei gallu i gymuno â'r Hollalluog yn sgil ei phriodas gyfriniol ag Ef. Nid yw dewis *genre* Gwerful, fodd bynnag, fel petai'n caniatáu inni ymglywed â defosiwn benywaidd o'r math arbennig hwnnw.

Tystia'r ffaith fod 68 copi llawysgrif o'r cywydd hwn ac iddo gael ei gyhoeddi yn *Y Gwyllydydd* (1826) a'r *Brython* (1862–3) i'w apêl a'i werth amlwg.¹³ Y mae ei adeiledd yn fedrus a chaboledig a'i fynegiant yn syml ac urddasol. Adlewyrchir ynddo wybodaeth a dealltwriaeth sicr Gwerful Mechain o arwyddocâd y Dioddefaint. Trafodir delweddau graffig ac elfennau emosiynol ar Basiwn Crist â disgyblaeth feistrolgar, gan osgoi eu gorliwio. Fel y nodwyd uchod, pwysleisir aberth yr Iesu, gan gyferbynnu'n grefftus y weithred honno o brynu gwardedigaeth dyn â'r darnau arian a gafodd Jwdas Iscariot am fradychu Crist. Gwelwn yr un peth gan Ruffudd Gryg yn ei gywydd i Dduw, lle y cyferbynnir gweithred yr Iesu yn 'prynu' nef i bawb â gweithred ysgeler Jwdas yn 'gwerthu' Crist trwy frad (llau. 31–2, 35–6).¹⁴ Ymhellach, sylwer bod Gwerful (llau. 35–8), fel Guto'r Glyn, yn cyfeirio at y goron ddrain a'r traddodiad chwedlonol am Longinus, y canwriad dall (gw. ll. 38n).¹⁵

21 Siwdas Jwdas Iscariot.

30 Pan ddilynai dwy ffrwydrol leisiol *s* yn uniongyrchol, yr arfer oedd peidio â chaledu'r gytsain, gw. D.J. Bowen, 'Cynganeddion Gruffudd Hiraethog', LICY vi (1960–1), 12. Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi.

¹¹ 1.2. Ceir yr un ll. yn union gan Faredudd ap Rhys yn ei gywydd 'I Grog Caerlleon' (gw. *Gwaith Maredudd ap Rhys*, gol. Enid Roberts (i ymddangos), 2.20); a hefyd yn BDG 482 (ll. 34), a GIBH 12.4 (yr amrywiadau).

¹² 1.74.

¹³ 'Cywydd ar farwolaeth Iesu', *Y Gwyllydydd*, iv (1826), 374–5; 'Cywydd i farwolaeth Crist', *Y Brython*, v (1862–3), 336.

¹⁴ DGG 146–7 (cerdd LXXVIII).

¹⁵ GGI² 283 (CX.5–8); gw. hefyd M.P. Bryant-Quinn, "'Enaid y Gwir Oleuni": y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, ii (1996), 51–93 a GIBH 7.45n.

- 38 **llaw'r dall** Cyfeiriad at y chwedl am ŵr dall o'r enw Longinus yr adferwyd ei olwg iddo wedi iddo wanu ystlys Crist ar y Groes ac i'r gwaed ddiferu ar ei lygaid. Ceir sawl cyfeiriad at y chwedl gan y beirdd, gw. G. Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (London, 1912), 179–81. Gw. hefyd GDG³ 488 (52.35n) a cf. GIBH 7.45n.
- 42 **Sisar** Cesar Awgwstws (63 C.C.–14 O.C.), ymherodr Rhufain.
- 47 **rhi** Sef 'brenin, tywysog' yma; nid amhosibl, fodd bynnag, fyddai darllen *rhi*' (o *rhif*) 'parch, anrhydedd', gw. GPC 3069 d.g. *rhif*¹.
- 51 **blin** Defnyddir *blin* fel e. ('blinder, gofid') yn hytrach nag a. yma er na chofnodir yr ystyr hon yn GPC 286.
- 55 **Sioseb** Joseff o Arimathea, y gŵr a ofynnodd i Beilat am gorff yr Iesu er mwyn Ei roi yn ei fedd ei hun (Math xxvii.57–60).

2

Fel yn achos cywydd Gruffudd Gryg i Dduw sy'n agor drwy holi'n rhyethregol *Pwy yw'r gŵr piaw'r goron?*,¹ egyr y cywydd hwn ar ffurf cwestiwn, gyda'r bardd yn holi pwy a fydd yn dod yn gadarn ar Ddydd Barn. Â Gwerful rhagddi i ateb mai Duw, yr hwn a ddiodeffodd ar y Groes, a ddaw, gan foli campau'r Goruchaf drwy bwysleisio tragwyddoldeb y Creawdwr. Yn null beirdd fel Madog Dwygraig a Siôn Cent, dywedir bod angau yn dod i ran pawb heb arbed neb (llau. 25–8) a bod rhaid paratoi ac edifarhau gan na rybuddir yr anffodusion a syrth i'w fagl. Yn yr un modd, bydd rhaid i bob un wynebu'r Farn ddwyfol anochel pan fydd Crist, a fydd yn eistedd ar fwa'r cyfamod, yn didoli'r eneidiau. Yna ceir rhestr o *exempla*: enwogion a gipiwyd gan angau, sef Adda, Noa, Abraham, Moses a Dafydd Broffwyd. Cynrychiolai y gwŷr hyn bum oes yr henfyd, syniad sy'n deillio yn rhannol o destunau fel 'Ysbeilio Uffern' a 'Gweledigaeth Pawl yn Uffern'. Yn ôl yr Athro Catherine A. McKenna:

Closely related to this heroic vision of the crucifixion is the theme of the Harrowing of Hell as one of the redemptive acts of Christ. The patristic theory that after His death Christ descended into hell to liberate the souls of the just imprisoned there since Adam's fall had a great appeal for the medieval imagination and gave rise to a number of narrative accounts of the episode in Latin and in the European vernaculars.²

Pwysleisir y dwys angen i edifarhau ar fyrder gan fod cabledd a phechod yn arwain at boenau'r purdan ac uffern ac esbonnir y bydd Duw yn anrhegu daioni. Diweddir y cywydd trwy ddweud mai Duw sy'n rhoi bywyd yn ogystal â'i gipio a hydera'r bardd y bydd Ef yn ein dwyn i'r nef.

¹ DGG 146–7 (cerdd LXXVIII).

² MWRL 89.

Datblygodd y cysylltiad amlwg rhwng marwolaeth a barn yn thema gyffredin yng ngwaith y beirdd. Rhoddent bwyslais mawr ar fyrhoedledd bywyd ac anocheledd angau. Ni lwyddodd hyd yn oed mawrion y gorffennol—boed y rheini'n frenhinoedd grymus, yn rhyfelwyr dewr, yn wŷr doeth neu'n wragedd hardd—i osgoi angau. Wrth drafod syniadau'r beirdd ynglŷn ag angau a barn, meddai G.E. Ruddock:

Linked with this are a number of themes which centre around the idea of the transitory nature of temporal things. One of the best known is that of *Ubi sunt?* or 'Where are they now?' A technique employed here is the naming of famous people who were in their day great or powerful, but who have all succumbed to the call of death. They have all been obliterated. (A close variant of this theme is that which emphasizes that all grades of society are swept away by death, irrespective of social standing.) Physical beauty and strength are all lost in death's clutches, as are wisdom, learning, and political power.³

Fel y dengys Dr Marged Haycock, gwelir thema *Ubi sunt?* yn aml wedi ei hasio gyda thema'r 'Naw Cadarn'.⁴ Yr oedd hi'n hanfodol bwysig felly i feidrolion werthfawrogi natur ddarfodedig a breuder eu bodolaeth ar y ddaear. Yn ei gywydd 'I Gyffelybu Dyn i Ddiwrnod', pwysleisia Siôn Cent ebrwydded oes dyn sy'n darford mor sydyn â threigl diwrnod.⁵ Dengys y beirdd mor ddiflanedig oedd bywyd er mwyn pwysleisio sicrwydd angau a'r Farn Fawr. Yr oedd rhaid i bob meidrolyn edifarhau a dwyn cyffes, gan fod poenau'r purdan yn fygythiad byw iawn. Serch hynny, ynghlwm wrth y Farn Fawr yr oedd dioddefaint ac aberth Crist yn cynnig gobaith am ollyngdod a bywyd tragwyddol yn y nef. Yn ôl Syr Glanmor Williams:

In an age when human life was so uncertain and expendable few could have been spared uneasiness concerning the prospect of unprepared entry into the eternal world. For beyond death, as the moralists never tired of reiterating, came the Judgement, when every human soul must render its account. It was to this that they were all primarily concerned to direct attention, however misplaced their emphasis might be from time to time on the incidental physical effects of death.⁶

Gellir cynnig bod ansicrwydd bywyd ar y pryd ynghyd ag effaith y pla yn gyfrifol i raddau helaeth am ysbarduno diddordeb newydd ymhlith beirdd y cyfnod yn y math hwn o farddoniaeth grefyddol a rhybuddiol. Câi eu neges ynglŷn ag angau a barn ei chadarnhau yng ngwaith arlunwyr yr oes. Fel y dywedodd Syr Glanmor Williams:

³ GWL ii², 157.

⁴ Marged Haycock, '“Some talk of Alexander and some of Hercules”: three early medieval poems from the Book of Taliesin', CMCS xiii (Summer 1987), 23, gw. n. 85.

⁵ IGE² 253-4 (cerdd LXXXIII).

⁶ WCCR² 470.

Painters ably seconded the poets. The Last Judgement was a favourite subject for painting over the chancel arch of many a church, where the curve of the arch irresistibly suggested a likeness with that awesome celestial rainbow. One of the more impressive of such paintings in Wales must have been that in Wrexham Church, faint traces of which can still be discerned. In churches which had no chancel arch the same scene was sometimes painted on the tympanum of the rood-screen, such as the one which once existed in the little Breconshire church of Llanelu. It was also the subject of many a stained-glass window which has disappeared or remains only in fragments.⁷

Er nad oes murlun yn arddangos y *danse macabre* wedi goroesi mewn eglwys yng Nghymru, y mae'n amlwg fod beirdd fel Siôn Cent yn gyfarwydd â'r syniad hwnnw hefyd.

Y mae'r ffaith mai un fersiwn llawysgrif o'r cywydd hwn sydd wedi goroesi yn awgrymu nad oedd y gerdd grefyddol hon mor boblogaidd â'r cywydd 'Dioddefaint Crist'. Er bod testun y cywydd yn ddramatig iawn, pwysleisio dwy thema nodweddiadol a chonfensiynol mewn barddoniaeth angau a wna, sef cyffredinolrwydd ac anorfodrwydd marwolaeth. Yn wahanol i farddoniaeth grefyddol Siôn Cent, ni wneir unrhyw ymgais i fywiogi'r gerdd trwy gynnwys elfen o feirniadaeth gymdeithasol na dychan neu ogan.

5 **henw** *h* anorganig.

11 **y fan eitha'** Dichon fod i'r ymadrodd ystyr megis 'mynd i'r pen' yma, cf. GLM 25 (VII.36).

Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf, oni hepgorir y rh.pth.

16 **dro'm** Ai ffurf gywasgedig ar y gair *drosom* a geir yma, neu efallai *droy*?

18 **heb ddiochri** Cymerir mai be. ac iddo'r ystyr 'bod yn amhleidiol, anghefnogol' yw *diochri* yma, gyda'r gair yn gyfeiriad at haelioni Duw sydd hefyd *Heb ddiwedd* (ll. 17) a *heb ddechrau* (ll. 18). Ar *ochri* 'bod o blaid (rhywun), cefnogi', &c., gw. GPC 2615; cymerir mai'r rhag-ddodiad neg. *di-* a'i rhagflaena yma. Am yr ystyr, gthg. *ib.* 1022 d.g. *diochraf* lle y rhoddir iddo'r ystyr 'unioni'; ond am yr ystyr honno mewn cyd-destun debyg i'r ll. hon, gw. GEO 3.1-2 *Di-gam y gwnaeth Duw, o'i gymwyll, / Dechrau'r byd, diochr Ei bwyll.*

30 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi.

31-2 **Bwrw a fyn bâr... / ... o'r bwa près** Awgrymir yma fod swyddog Duw, sef Angau, yn taro pob un â saeth (*pâr*) o'i fwa. Estynnir peth ar

⁷ *Ib.* 472.

- ystyron *près* (gw. GPC 2876 d.g. *près*¹) a'i ddeall yma i olygu 'gormes(gar)'.
- 36 **Noe o'r bad** Cyfeiriad at hanes y Dilyw ac arch Noa (Gen vi.8–viii.19).
- 38 **Moesen** Moses.
- 40 **a'i wŷr braff o'i dai** Fe'i deellir yn gywasgiad o 'a'i wŷr yn braff o'i dai'. Posibilrwydd arall fyddai cymryd bod *praff* yma'n goledddu *Dafydd ... Broffwyd*, gyda threigladd meddal i a. yn dilyn e.prs.
- 42 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi.
- 43 **myn hwn** Gallai *myn hwn* yn hawdd fod wedi ei newid yn *mynnwn* (gw. darlleniad y llsg.), yn enwedig os oedd llygaid y copïydd wedi taro ar *Ofnwn* y cwpled nesaf.
- 45 **Gŵr** Defnyddid y gair gynt am Dduw a Christ, h.y. ei ddefnyddio gyda'r ystyr 'gwron, arwr' a wneid (yn union fel yn y canu mawl) i gyfeirio at y Crist buddugoliaethus, gw. GPC 1693–5.
- 47 Os cyfrifir *diwgiaw* yn deirsill er mwyn y gynghanedd lusg, yna y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf; posibiliadau eraill fyddai darllen *d'wgiaw* neu hepgor y rh.pth. ar ddechrau'r ll.
- 51 A ddylid darllen y ffurfiau llafar *gwneth* a *perffeth* er mwyn cynnal y gynghanedd? Gw. Beth Thomas a Peter Wynn Thomas, *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg ... Cyflwyno'r Tafodieithoedd* (Caerdydd, 1989), 40.
- 52 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf, ond gellid cael ll. saith sillaf drwy hepgor y rh.pth.

3

Er mwyn gwerthfawrogi a gosod cywydd ateb Gwerful Mechain (cerdd 4) yn ei gyd-destun rhaid edrych yn gyntaf ar y cywydd hwn gan Ieuan Dyfi i Anni Goch.

Ar ddechrau'r cywydd y mae'r bardd yn cymharu ei sefyllfa bersonol ag eiddo'r proffwyd a'r gweledydd Myrddin Wyllt (llau. 1–6).¹ Ymddengys fod Ieuan hefyd yn manteisio ar y traddodiad a syniai am Fyrddin Wyllt fel carwr nodedig (traddodiad a welir yng ngwaith beirdd megis Hywel ab Owain Gwynedd a Dafydd ap Gwilym).² Fel y gwallgofddyn hwnnw, ni châl Ieuan *unawr* o lonyddwch (llau. 5–6) ond, yn hytrach, câi ei boenydio'n gyson. Wrth gymharu ei artaith bersonol ag eiddo Myrddin Wyllt gellir dweud bod Ieuan yn lledawgrymu nid yn unig ei gymhwyster i drafod materion carwriaethol, ond hefyd ei hawl i draethu'n awdurdodol fel proffwyd neu weledydd. Ymhellach, gellir cynnig bod Ieuan yn awgrymu ei

¹ A.O.H. Jarman, *The Legend of Merlin* (Cardiff, 1960); gw. y nodiadau isod am ragor o fanylion am yr *exempla* a ddefnyddir gan Ieuan Dyfi.

² TYP² 469–74.

fod yntau, fel Myrddin, yn dioddef oherwydd damwain (gw. ll. 1n) a'i fod yn ei gyflwyno ei hun fel dioddefwr diniwed er mwyn ceisio ennyn cydymdeimlad a chefnogaeth ei gynulleidfa. Dywed fod ei holl ymdrechion i ennill Anni Goch wedi bod yn ofer a'i fod wedi dioddef fel ynyfytyn oherwydd gwawd y ferch honno (llau. 7–12). Serch hynny, dengys nad ef oedd yr unig un i ddioddef cam: dioddefodd nifer oherwydd gweithredoedd ysgeler merched. Ymddengys fod y bardd yn dwyn cysur mawr wrth nodi bod penaethiaid dewr yn ogystal â gwŷr doeth a gwyh wedi dioddef oherwydd sarhad merch (llau. 13–16). Cyflwynir rhestr hir o *exempla*, sef enghreifftiau o ferched a achosodd ddinistr a chwyp gwŷr enwog y gorffennol y ceir eu hanes yn y Beibl, yn llenyddiaeth awduron yr hen fyd ac yng ngweithiau Tadau'r Eglwys. Yr oedd defnyddio *exempla* ystrydebol a chonfensiynol o'r fath yn arf hwylus iawn i'r sawl a drafodai thema'r *misogynist*. Fel y dengys Diane Purkiss:

From the beginning, misogyny does not purport to be originary or creative; instead, its characteristic move is to reiterate or re-cite stories or figures always already known. In this sense, misogyny is less a single unified voice than a collocation of stories and speeches that can be voiced at any time, and thus it is that some of the tropes of woman-hatred do appear to transcend cultural specificity.³

Wrth dynnu sylw at enghreifftiau o'r fath yr oedd Ieuan Dyfi fel petai'n dilysu ac yn cadarnhau'r hyn a oedd eisoes yn hysbys am ferched, gan wneud i'w feirniadaeth ymddangos yn amheronol ac yn gwbl gyfiawn. Ymhellach, wrth fabwysiadu safbwynt y *misogynist* yr oedd yn cydsynio â barn gwŷr 'deallus' ac awdurdodol y gorffennol gan ennill lle iddo'i hun o fewn traddodiad maith ac anrhydeddus.⁴ I ddechrau, nodir dau *exemplum* o'r Beibl, sef Samson a Solomon (llau. 17–26). Er gwaethaf enwogrwydd Alecsander Fawr a'i fri fel arweinydd a rhyfelwr nerthol, dysgodd yntau nad oedd wiw diystyru grym y merched Amasonaidd (llau. 27–30). Yn nesaf tynnir sylw at ddau o'r doethion Groegaidd a dwyllwyd gan ferched, sef Aristoteles a Hippocrates (llau. 31–40). Stori Jason a Medea a grybwyllir nesaf, enghraifft wych sy'n gwyrddroi'r darlun arferol o reddf famol drwy ddangos creulonder annaturiol merch (ll. 42n). Yna ceir cwpled yn datgan na fu erioed weithred fwy atgas a gofidus na *cheisio merch* (llau. 45–6). Tynnir sylw at Elen Fannog (ll. 47n) a'r ferch Policsena a barodd farwolaeth Achilles (llau. 49n, 50n). Wedyn â Ieuan ati i gymharu ei sefyllfa druenus â helyntion enwogion anffodus megis Aeneas, Brutus ap Sylus, Hercules a Paris a fu mewn cyfyng-gyngor oherwydd Fenws (llau. 51–60) cyn awgrymu mai gwraig a achosodd Gad Gamlan (llau. 61–2). Crybwyllir

³ Diane Purkiss, 'Material girls: the seventeenth-century woman debate', *Women, Texts and Histories 1575–1760*, ed. Clare Brant and Diane Purkiss (London and New York, 1992), 72.

⁴ *Woman Defamed and Woman Defended: an anthology of medieval texts*, ed. Alcuin Blamires et al. (Oxford, 1992).

Gwraig Fadog ... o Wynedd, ond ymddengys ystyr y cyfeiriad hwnnw yn annelwig (ond gw. ll. 63n). Cyfeirir at Ofydd, sef yr awdurdod nodedig ar faterion carwriaethol (ll. 65n), ac yna ymddengys fod y bardd yn ei uniaethu ei hun â Sylus (ll. 66n). Cyfeirir at Fyrddin unwaith eto ac ymddengys fod Ieuan, fel nifer o feirdd eraill y bymthegfed ganrif yng Nghymru, yn tynnu ar y traddodiad a syniai am Fyrddin fel carwr, gan gyplysu'r cyfeiriad â sôn am ei dŷ gwydr (llau. 67–70). Yn y chwedlau Ffrengig a Seisnig carcharwyd Merlin trwy hud gan ei gariad Viviane fel na chái weld neb ond hi.⁵ Dywed Ieuan mai merched fu achos dinistr yr holl enwogion a nodwyd ganddo ac felly ei fod ef, er gwaethaf ei ofidiau, mewn cwmni tra dethol (llau. 71–2). Dywed ymhellach y bydd Duw yn dial ar ferched am y fath greulonder ac felly'n dwyn *tâl*, sef yn cosbi'r rhai anghyfiawn (llau. 73–4). Ar y llaw arall, mynnu'r *Wir Grog a mannau'r Groes* a wna Ieuan, gan wrthgyferbynnu ei ddaioni ef â drygioni'r merched hynny a enynnai gosb Duw (llau. 75–6). Daw'r bardd â'r cywydd i ben â chwpled chwerw iawn yn datgan ei awydd i weld Anni Goch yn marw oni bai ei bod yn newid ei hagwedd tuag ato (llau. 77–8).

Gellir dilyn trywydd yr helynt a fu rhwng Ieuan Dyfi ac Anni Goch yn fanwl oherwydd yr wybodaeth a ddarganfu Dr Llinos Beverley Smith mewn cofnodion llysoedd eglwysig.⁶ Yn ôl cofnodion llys consistori deoniaeth Llanllieni, gwysiyd Ieuan Dyfi, Anni Goch a'i gŵr, John Lippard, i'r llys i ateb amrywiol gyhuddiadau ar fwy nag un achlysur. Gellir crynhoi'r wybodaeth am yr achosion llys, yn fras, fel a ganlyn. Mewn cofnod ar gyfer y flwyddyn 1501/2 ymddangosodd Ieuan Dyfi ac Anni Goch yn y llys i ateb cyhuddiad o odineb. Cyffesodd Ieuan ei drosedd, gan dderbyn y gosb gyhoeddus o wyth chwipiad o gwmpas eglwys Llanandras. Ond gwadu'r cyhuddiad a wnaeth Anni Goch ac erbyn y sesiwn nesaf llwyddodd i brofi ei bod yn ddieuog ar ddull 'rhaith', sef ar sail ei llw ei hun a phedwar person arall. Yn ystod yr ail gyfarfod hwnnw mynnodd Anni na fu iddi hi gydsynio i'r gyfathrach rywiol a bod Ieuan, felly, wedi ei threisio.

Yn 1517 gwysiyd John Lippard gerbron y llys am gyflawni priodas ddirgel â gwraig o'r enw Katerina ac felly roi heibio ei wraig gyfreithlon, Anni Goch. Cyffesodd John Lippard, a dyfarnwyd iddo benyd gyhoeddus o chwe chwipiad, dwy yr un o gwmpas eglwysi Llanandras, Norton a Beyton. Gellir dweud i'r achosion llys hyn gyrraedd penllanw dramatig gyda'r cyhuddiad a ddygwyd yn erbyn Anni gan ei gŵr, sef ei bod hi wedi cynllwynio i'w ladd. Unwaith eto, gwadu'r cyhuddiad a wnaeth hi. Dychwelodd Anni i'r llys drachefn gan wrth-ddweud ei phle blaenorol a chyfaddef iddi odinebu gydag Ieuan Dyfi a dau ŵr arall ac i'w gŵr ei gwerthu i Ieuan. Ceisiodd John Lippard gael ysgariad oddi wrth Anni ond gorchmynnodd y llys iddo ei derbyn yn ôl a rhoi heibio ei ordderch.

⁵ A.O.H. Jarman, *op.cit.* 8.

⁶ Llinos Beverley Smith, 'Olrhain Anni Goch', YB xix (1993), 107–26.

Nid oedd gwrthfenywiaeth yn thema newydd a ddatblygodd yn ystod yr Oesoedd Canol. Yn ôl R. Howard Bloch, gellir ystyried gwrthfenywiaeth yn dops neu *genre* a'i wreiddiau'n estyn yn ôl ymhell iawn i'r gorffennol:

The ritual denunciation of women constitutes something on the order of a cultural constant, reaching back to the Old Testament as well as to Ancient Greece and extending through the fifteenth century. Found in Roman tradition, it dominates ecclesiastical writing, letters, sermons, theological tracts, discussions and compilations of canon law; scientific works, as part and parcel of biological, gynecological, and medical knowledge; and philosophy. The discourse of misogyny runs like a rich vein throughout the breadth of medieval literature.⁷

Ond yn ystod y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg bu ymchwydd nodedig ym mhoblogrwydd llenyddiaeth wrthfenywaidd. Cyfrannodd nifer o awduron enwog yr Oesoedd Canol i'r ddadl hon ynghylch merched, gan gynnwys Boccaccio, Deschamps, Chaucer, Lydgate, Walter Map a Jean de Meung. Datblygodd llenyddiaeth wrthfenywaidd i raddau helaeth yn gyfystyr â thopos y *molestiae nuptiarum*, sef llenyddiaeth yn erbyn priodas ac o blaid diweirdeb. Bu dadl Sierôm yn ei waith *Adversus Jovinianum* yn hynod ddylanwadol yn y maes hwnnw, gan fraenaru'r tir ar gyfer awduron megis Walter Map, Deschamps a Chaucer. Yn ei waith *The Wife of Bath's Prologue*, dywed Chaucer, gan adleisio Sierôm, fod cyfle, wrth brynu ceffyl, asyn, ych, ci a dillad neu hyd yn oed gwpan neu lestr, i fwrw golwg dros y gwrthrych cyn taro bargaen. Ond ni fyddai neb yn arddangos y briodferch ymlaen llaw rhag ofn iddi beri anfodlonrwydd cyn y briodas.⁸

Yn ogystal â chyfansoddi llenyddiaeth wrthfenywaidd amlwg cyfansoddodd rhai awduron wrthddadleuon er mwyn amddiffyn gwragedd hefyd. Ymddengys yr enghreifftiau niferus o wragedd daionus a geir yng nghasgliad enwog Boccaccio, sef *De Claris Mulieribus*, fel gwrthddadl i'w lyfr *De Casibus Virorum Illustrium* sy'n trafod rhan merched yng nghwmp a dinistr dynion. Serch hynny, ceir anghytuno brwd ymhlith beirniaid llenyddol ynglŷn ag union amcan y casgliad hwnnw. Dywed rhai fod y gwaith yn arddangos mawl dyls i wragedd ond cred eraill fod y gwaith yn sylfaenol wrthfenywaidd.⁹ Y mae'r *Legend of Good Women* gan Chaucer yn enghraifft nodedig o barodi ar *genre* y gwrthddadleuon yn erbyn deunydd gwrthfenywaidd. Gellir dweud nad yw nifer o'r gwrthddadleuon honedig hyn yn ddim mwy nag ymarferion rhethregol neu'n gyfle arbennig i'r awdur wydroi'r *genre* er mwyn lleisio syniadau gwrthfenywaidd â hiwmor cynnil a chrafog.

⁷ R. Howard Bloch, 'Medieval misogyny', *Representations*, 20 (1987), 1.

⁸ *Id.*, *Medieval Misogyny and the Invention of Western Romantic Love* (Chicago and London, 1991), 20–1.

⁹ Ann McMillan, *The Legend of Good Women* (Houston, 1987), 22.

Yng Nghymru, nid ymddengys i'r ddadl ynghylch merched ddatblygu'n bwnc llosg ymhlith y beirdd tan yr unfed ganrif ar bymtheg. Fel y dengys Brinley Rees, saif yr 'Araith Ddychan i'r Gwragedd' ac ateb Wiliam Cynwal iddi yng nghanol y traddodiad hwnnw, a nodir sawl enghraifft arall ganddo gan feirdd megis Roger Cyffin, Dafydd ap Dafydd Llwyd a Rhys ap Harri.¹⁰ Y mae nifer y fersiynau llawysgrif o'r cywydd hwn gan Ieuan Dyfi (63) yn tystio'n bendant i apêl a phoblogrwydd y thema *misogynist*. Serch hynny, dengys y ffaith nad oes ond pum fersiwn llawysgrif o'r cywydd canlynol gan Werful Mechain, sy'n amddiffyn y merched, na phrofodd yr wrthddadl i'r traddodiad hwnnw yr un poblogrwydd.

Am olygiad arall o'r cywydd hwn, gw. HCLI 129–32 (cerdd LVIII), ac ar gefndir y gerdd, gw. Llinos Beverley Smith, 'Olrhain Anni Goch', YB xix (1993), 107–26.

- 1 **Merddin Wyllt** Portreedir Myrddin mewn cerddi Cymraeg cynnar fel proffwyd a gweledydd gorffwyll a drigai fel meudwy yng Nghoed Celyddon yn neheudir yr Alban wedi iddo ffoi yno o frwydr Arfderydd (573), lle y bu iddo, yn ôl yr hanes, ladd mab ei chwaer, Gwenddydd, yn ddamweiniol. Ystyrid Myrddin yn un o'r Cynfeirdd gan y beirdd, a cheir ganddynt lu o gyfeiriadau ato fel bardd a phroffwyd. Dengys cyfeiriadau yn eu gwaith fod y beirdd hefyd yn gwybod am Fyrddin fel carwr, gw. 3.67–70n isod; TYP² 469–74; Rachel Bromwich, 'Y Cynfeirdd a'r traddodiad Cymraeg', B xxii (1966–8), 30–7.
- 11 Bai crych a llyfn, gw. J. Morris-Jones: CD 146–7.
- 17 **Samson** Cymeriad o'r Hen Destament a oedd yn nodedig am ei gryfder. Fe'i bradychwyd gan Ddelila wedi iddo ddatgelu cyfrinach ei gryfder, ond dialodd ar y Philistiaid drwy ddymchwel y deml a lladd mwy ohonynt wrth farw nag a wnaeth yn ystod ei oes (Barn xvi.4–31).
- 25 **Selyf** Solomon brenin Israel a oedd yn enwog am ei ddoethineb, gw. I Br iii.12.
- 27 **Alecsander** Alecsander Fawr (356–323 C.C.), brenin Macedonia. Yr oedd yn un o gadfridogion mwyaf yr hen fyd, ac enillodd ymerodraeth enfawr iddo'i hun drwy goncwest, gw. OCD³ 57–9.
- 29 Ceir yma *r* berfeddgoll o dan yr acen.
- 30 **tent** Ai amrywiad ar *tempt* 'temtasiwn' a geir yma? Gw. GPC 3477 lle y ceir enghreifftiau o'r 16/17g. Ni restrir *tent* yn yr ystyr honno yn *ib.* 3481; gwelir yno hefyd fod y ffurf *temptasiwn* yn digwydd fel amrywiad ar *temptasiwn* (er nad oes enghreifftiau cynharach na'r 16g.).

¹⁰ Brinley Rees, *Dulliau'r Canu Rhydd 1500–1650* (Caerdydd, 1952), 86–8; gw. testun o'r 'Araith Ddychan i'r Gwragedd' ynghyd â'r 'Ateb i Araith Ddychan i'r Gwragedd' gan Wiliam Cynwal yn CRC 108–29 (cerddi 37–8).

- 31 **Aristotlus** Aristoteles (384–322 C.C.), yr athronydd Groegaidd o Facedonia, gw. OCD³ 165–9.
- 37 **Ipo** Hippocrates, y meddyg Groegaidd enwog a chyfoeswr Socrates (469–399 C.C.), gw. OCD³ 710–11.
- 41 **Siason** Jason, mab Aeson, arweinydd enwog yr Argonawtiaid, gw. OCD³ 793.
- 42 **Medeia** Medea, merch Aeetes, brenin Colchis, a oedd yn enwog am ei dewiniaeth. Syrthiodd mewn cariad â Jason, a ddaeth yno i chwilio am y cnu aur. Ar yr amod y byddai ef yn ei phriodi, cytunodd Medea i ddefnyddio'i galluoedd hudol arbennig i'w gynorthwyo i gyflawni'i dasgau, ac felly y bu. Ond pan syrthiodd Jason mewn cariad â gwraig arall (Creusa neu Glauce) cythruddwyd Medea gan genfigen a dialodd arno drwy ladd eu plant, gw. OCD³ 944 ac H.A. Guerber, *Greece and Rome* (reprint, London, 1995), 236–40.
- 44 **Cruwsa** Creusa neu Glauce, merch Creon, brenin Corinth. Fe'i gwenwynwyd gan Medea â dilledyn hud, gw. OCD³ 408 d.g. *Creon* (I) ac H.A. Guerber, *op.cit.* 239.
- 'm **murwy** Y tebyg yw mai cywasgiad o *ym murwy* ('mewn hual') a geir yma.
- 47 **Elen** Elen Fannog o Gaer Droea, y dechreuwyd rhyfel Caer Droea o'i hachos. Fe'i disgrifir yn TYP² 129 fel *y wreic y bu distriwedigaeth Tro drvy y phenn*, gw. hefyd *ib.* 343; OCD³ 675.
- 49 **Policsena** Policsena, merch Priam a Hecuba, cariad Achilles, gw. OCD³ 1213.
- 50 **Achilles** Mab Peleus a Thetis. Hudwyd Achilles i'w farwolaeth gan ei gariad Policsena. Ef yw arwr *Iliad* Homer, lle y sonnir amdano yn lladd Hector, gw. OCD³ 6–7.
- 51 **Eneas** Aeneas, mab Anchises a'r dduwies Aphrodite. Yr oedd yn arweinydd enwog o Gaer Droea yn ôl *Iliad* Homer ac yn arwr *Aeneid* Virgil, gw. OCD³ 22–3.
- 54 **Brutus ap Sylus** Gorwyr Aeneas o Gaer Droea a chyndad cenedl y Brytaniaid, yn ôl Sieffre o Fynwy. Edrydd Sieffre amdano'n glanio ym Mhrydain ac yn ei meddiannu, a dywed i Brydain a chenedl y Brytaniaid gael eu henwi ar ei ôl, gw. BD 3–21.
- 55–6 **Wedi lladd ... / Ei fam a'i dad** Yn ôl yr hanes ym Mrut Sieffre bu farw mam Brutus ar ei enedigaeth a saethwyd ei dad yn ddamweiniol ganddo wrth hela, BD 3–4.
- 57 **Ercles** Hercules, yr enwocaf o'r arwyr clasurol, a gŵr a oedd yn nodedig am ei gryfder, gw. OCD³ 688.

- 59 **Paris** Mab Priam a Hecuba, brenin a brenhines Caer Droea. Pan oedd yn faban rhoddwyd ef ar ben mynydd i drengi yn yr oerfel oherwydd proffwydwyd mewn oracl y byddai ef yn achosi marwolaeth ei deulu a dinistr ei ddinas frodorol. Dyna paham y geilw'r bardd ef yma yn *wyneb oerwynt*, gw. OCD³ 1112–13 ac H.A. Guerber, *op.cit.* 273.
- 60 **Feian** Fenws (Gwener), duwies harddwch. Tasg Paris oedd dewis y brydferthaf o blith y duwiesau Juno, Minerfa a Fenws. O ganlyniad i lwgrwobrwyath Fenws yn addo gwraig cyn dllysed â hi ei hun i Baris, dyfarnwyd Fenws yn fuddugol gan Baris, gw. OCD³ d.g. *Paris* ac H.A. Guerber, *op.cit.* 272–4.
- 63 Deusain leddf oedd wy yn *Gwynedd* gynt, gw. WG 46.
- Gwraig Fadog fwyn o Wynedd** Ni wyddys at ba Fadog y cyfeirir yma, oni chyfeirir at Fadog ap Maredudd o Bowys yr oedd ei wraig yn hanu o Wynedd, gw. GCBM i, 1–2. Y mae'n ddigon posibl hefyd fod yma stori goll am Fadog ab Owain Gwynedd.
- 65 **Ofydd** Publius Ovidius Naso (43 C.C.–17 O.C.), bardd Lladin dylanwadol iawn yn yr Oesoedd Canol ac un a oedd yn enwog am ei gerddi serch. Ymhlith y mwyaf adnabyddus o'i weithiau y mae'r *Amores*, *Ars Amatoria*, *Metamorphoses* a'r *Fasti*, gw. OCD³ 1084–7.
- 66 **Sylus** Cafodd Sylus garwriaeth ddirgel a godinebus gyda nith i Lavinia, merch y brenin Latinus, a ganwyd iddynt fab, sef Brutus, gw. BD 3.
- 67–70 **Merddin aeth ... / ... a droes hi** Yn ystod y 15g. cysylltir cyfeiriadau at Fyrddin fel carwr yn fynych â sôn am ei 'dŷ gwydr' neu'r modd y cafodd ei garcharu mewn gwydr oherwydd serch, cyfeiriad sydd, yn ôl Eurys I. Rowlands, yn adlewyrchu dylanwad estron. Eurys I. Rowlands, 'Y tri thlws ar ddeg', LICY v (1958–9), 52. Gw. hefyd 3. In uchod; TYP² 474.
- 73–4 Yn ôl awgrym Eurys I. Rowlands, dylid darllen *Ni bydd Dduw heb ei ddial*: / *Ni wyddiad hon addaw tâl*, gw. Eurys I. Rowlands, 'Dydd Brawd a thâl', LICY iv (1956–7), 85.
- 75 **mannau'r Groes** Sef 'gorsafoedd' neu 'freichiau'r Groes', gw. GPC 2337 d.g. *man*⁴.

4

Egyr Gwerful Mechain y cywydd ateb hwn i'r cywydd blaenorol gan Ieuan Dyfi â chwpled gwirebol neu ddiarhebol ei naws cyn mynd ati i gyferbynnu dwy ystrydeb gyfarwydd ar natur merched, sef *gwen fonheddig* a'r *ddu ddoeth* (llau. 1–14).¹ Datblygodd y term 'gwen' yn ddull confensiynol o

¹ Marged Haycock, 'Merched drwg a merched da: Ieuan Dyfi v. Gwerful Mechain', YB xvi (1990), 109, gw. n. 58.

gyfeirio at ferch yng nghanu serch y beirdd. Yn ôl delfryd y canu serch cwrtais, y ferch berffaith oedd y wraig fonheddig anghaffaeladwy, ac anrhydedd i'r carwr oedd cael ei gwasanaethu'n ffyddlon a gostyngedig, gan ei hedmygu o bell. Ond er bod y syniad o wasanaeth y carwr yn ddarlun cyffredin yn y canu serch cwrtais cyfandirol, nid ymddengys y thema honno mor amlwg yn y traddodiad Cymraeg. Serch hynny, dengys Gwerful ei bod hi'n gyfarwydd â'r confensiwn llenyddol hwnnw yn sgil cyfeiriadau megis *oni bydd was da* (ll. 8). Gellir cynnig, efallai, fod Gwerful yn defnyddio'r confensiwn llenyddol hwnnw'n eironig ac yn ei orliwio er mwyn atgyfnerthu ei beirniadaeth. Dychanu delfryd aruchel y canu serch a wna, gan bwysleisio mai ffolineb i ferched oedd ymddwyn yn oeraidd a goddefol. Fel y dywed Brinley Rees:

Gyda'r rhygnu diflino, drwy ganrifoedd, ar ffurfiau'r canu serch, prin y gellir synnu i'r beirdd droi a dychan y ddefod, neu o leiaf wrthryfela yn erbyn yr ystrydebau gwag a aethai'n fwrn arni. Nid peth cyfyngedig i Gymru neu i Brydain mo hyn. Ceir yr un peth gan feirdd yr Eidal a beirdd Ffrainc yn yr unfed ganrif ar bymtheg ac ychydig cyn hynny.²

Beirniadu confensiwn y canu serch cwrtais a wna Shakespeare yntau yn rhai o'i sonedau wrth foli'r wraig ddu neu'r foneddiges dywyll:

In the old age black was not counted fair,
 Or if it were it bore not beauty's name;
 But now is black beauty's successive heir,
 And beauty slander'd with a bastard shame:
 For since each hand hath put on Nature's power,
 Fairing the foul with Art's false borrow'd face,
 Sweet Beauty hath no name, no holy bower,
 But is profan'd, if not lives in disgrace.
 Therefore my mistress' eyes are raven black,
 Her brow so suited, and they mourners seem
 At such who not born fair no beauty lack,
 Slandering creation with a false esteem:
 Yet so they mourn becoming of their woe,
 That every tongue says beauty should look so.³

Yn ôl Gwerful, ni fyddai'r *ddu ddoeth* yn digio nac yn digalonni; yn hytrach, byddai'r ferch *ddu* (ll. 9) yn chwarae rhan weithredol ac yn mynnu cael ei bodloni, *Ei drinio a wna drannoeth* (ll. 10). Serch hynny, gellir cynnig bod Gwerful yn defnyddio'r gair *trinio* yn fwriadol er mwyn

² Brinley Rees, *Dulliau'r Canu Rhydd 1500–1650* (Caerdydd, 1952), 90.

³ *Shakespeare's Sonnets*, ed. W.G. Ingram and Theodore Redpath (third ed., London, 1978), 291 (cerdd 127).

chwarae ar wahanol ystyron y gair amwys hwnnw.⁴ Pa fodd bynnag, nid oedd lliw y ferch yn werth grot pan fyddai hi'n caru liw nos, *Lliw yr un nid gwell o rod* (ll. 5), hynny yw, yn y tywyllwch ni ellid gwahaniaethu rhwng y ferch 'ddu' a'r ferch 'wen' ac felly nid oedd lliw o unrhyw bwys. Ymhellach, y mae Gwerful yn ymosod ar feirniadaeth Ieuan Dyfi, a ddywedodd fod merched yn ddrygionus. Gwna hyn trwy danselio hygrededd y farn ystrydebol am ferched a oedd un ai yn 'ddu', ac felly'n dwyllodrus, neu, megis y ferch 'wen', yn llawn daioni.⁵ Dywed Gwerful mai twyllodrus oedd anian rhai o'r *gwynion* (ll. 13) hyn a ganmolid ac felly rhaid oedd bod yn ochelgar gan anrhydeddu a pharchu gwagedd ar sail eu hymddygiad a'u gweithredoedd daionus yn unig. Gellid cymharu'r modd y pwysleisiodd Christine de Pizan yn ei gwaith *Livre de la Cité des Dames* (1404), sef ei phrif 'amddiffyniad' o wragedd, mai ar sail rhinweddau neu weithredoedd clodwiw yn unig y ceid mynediad i Ddinas y Gwagedd.⁶ Er ei bod hi'n anodd dilyn trywydd y drafodaeth mewn manau yng ngherdd Gwerful, gwelir mai prif fyrdwn y llinellau agoriadol (llau. 1–14) yw dyrchafu rhinweddau'r ferch *ddu ddoeth* (ll. 9) uwchlaw y rhai *gwynion* (ll. 13) a folid yn beiriannol a difeddwl gan y beirdd.

Ystyri'r Dido, sef y ferch a *helethe Eneas* (ll. 15), yn enghraifft nodedig o ferch a fradychwyd, ac awgryma Dr Marged Haycock nad hap a damwain a barodd i Werful ei rhoi ar frig ei rhestr o *exempla*.⁷ Y ferch nesaf y cyfeirir ati yw Gwenddolen, a hynny, gellid tybio, am ei bod yn esiampl o ferch a dwyllwyd gan ei gŵr a hefyd am iddi weithredu fel sofran *de facto* ar Brydain (llau. 17–18). Tonwen, gwraig Dyfnwal Moelmud (llau. 19–20), yw'r nesaf i gael ei chrybwyll, a hynny er mwyn ateb cyhuddiad Ieuan fod merched yn achosi rhyfel. Yn nesaf nodir Marsia, gwraig Cuhelyn (llau. 21–2), esiampl arall o ferch a fu'n llywodraethu'r deyrnas yn ystod mebyd ei mab. Drwy gyfeirio at Genuissa, gwraig Gweirydd, pwysleisir unwaith eto allu bendithiol merched i atal trais a rhyfel (llau. 23–6). Y ddwy wraig nesaf i'w crybwyll yw mam Jwdas Iscariot, sef Cyborea/Tiborea (llau. 27–8), a gwraig Pontius Peilat (llau. 29–30). Dwyseir ergyd y neges yn y cywydd hwn drwy gyferbynnu gweithredoedd anfad y gwŷr beiblaidd hyn â chyngor da'r merched a oedd yn gysylltiedig â hwy. Fel y dywed Dr Haycock, 'dyma ffordd gynnil o awgrymu mai dynion, nid merched, a fu'n gyfrifol am

⁴ Rhoddir y diffiniadau canlynol yn GPC 3598, 'ymddwyn tuag at (berson, peth, &c.) mewn ffordd benodol, trafod, paratoi, delio neu ymhél â, defnyddio, arfer, gweinyddu, rheoli ... trafod (â'r llaw) ...', &c.

⁵ Cf. 'Cywydd merch' gan Siôn ap Hywel, GSH cerdd 22. Yn y gerdd honno gwelir i'r bardd gael ei siomi gan [f]erch wen (ll. 16) a dywed, *Nid hwyrach ... / Ei bod o'i mewn yn bwdwr* (llau. 19–20). Yna â rhagddo i grybwyll tair merch ddrwg, sef Elen Fannog, Gwenhwyfar ac Efa.

⁶ Earl Jeffrey Richards, 'Rejecting essentialism and gendered writing: the case of Christine de Pizan', *Gender and Text in the Later Middle Ages*, ed. Jane Chance (Florida, 1996), 126.

⁷ Marged Haycock, *op.cit.* 106; gw. y nodiadau am ragor o fanylion am yr *exempla* a ddefnyddir gan Werful Mechain.

farwolaeth yr Iesu'.⁸ Y nesaf i'w henwi yw Elen ferch Coel, gwraig rymus arall a fu'n llywodraethu am ychydig (llau. 31–4). Cyfeirir wedyn at stori gyfarwydd am y modd y merthyrwyd miloedd o forynion a gwragedd a alltudiwyd o'u hanfodd i briodi gwŷr Llydaw (llau. 35–8). *Gwraig Edgar* yw'r nesaf i'w chrybwyll, a disgrifir fel y bu iddi gerdded yn droednoeth dros haearn poeth heb gael ei llosgi (llau. 39–44). Yn nesaf ceir cyfeiriad o'r Beibl at y wraig weddw ddiennw a fu'n gyfrifol am borthi'r proffwyd Eleias (llau. 45–6). Y mae ystyr y cwpled dilynol braidd yn annelwig (llau. 47–8), ond tyb Dr Haycock fod Gwerful yn gwneud pwynt cyffredinol, sef bod dynion wedi dibynnu erioed ar ferched am ymborth.⁹ Ymddengys y ddau gwpled nesaf ychydig yn amwys hefyd (llau. 49–52), ond awgryma Dr Haycock ymhellach y gallai fod llinellau ar goll rhwng llinellau 48 a 49.¹⁰ Serch hynny, gellir mentro mai cyfeiriad at ddiodeffaint ac atgyfodiad Crist a geir yma. Ceir cyfeiriad at arwres Llyfr Susanna yn nesaf (llau. 53–4). Pwysleisir geirwiredd a gonestrwydd merched â'r esiampl hon, gan amlygu yr un pryd dwyll ac anonestrwydd dynion.¹¹ Honna Gwerful ymhellach fod llawer o wragedd yn rhagori ar ddynion o ran eu *gallu a'u gwedd* (llau. 55–6). Diweddir y rhestr hon o *exempla* gyda chyfeiriad at Sibyl, y broffwyd-wraig ddwyreiniol a ragfyneodd y Farn Fawr (llau. 57–62), gan bwysleisio unwaith yn rhagor awdurdod gair merch.

Ar ôl datgan y rhestr anrhydeddus o *exempla* ceir her gan Werful (llau. 63–4). Dywed ei bod yn amhosibl i ferch dreisio'i gŵr ac mai dynion sy'n euog o'r fath ymddygiad, ond awgryma y bydd Duw yn dial arnynt drwy eu hanfon i uffern (ll. 68). Yna ceryddir Ieuan y *godinebwr* am ei ragrith a'i haerllugrwydd yn beirniadu merched ac yntau'n *pechu bob pen* (llau. 69–71). Yn ôl syniadaeth y cyfnod, yr oedd purdeb y meddwl yn gyfystyr â diweirdeb y corff gan nad oedd gwahaniaeth rhwng trachwant a gweithred bechadurus y corff. Fel y dywed R. Howard Bloch:

Yet, as the fathers make abundantly clear, it is not enough merely to be chaste. As Methodius proves methodically, there can be no chastity merely of the sexual organs, for 'it would be ridiculous to keep one's generative organs pure, but not one's tongue; or to keep one's tongue pure, but not one's sight, one's ears or hands; or to keep all these pure, but not one's heart, allowing it to consort with anger and conceit.'¹²

Felly, ymddengys fod Gwerful yn pwysleisio bod Ieuan yn ymgorfforiad o bechod gan nad oedd ei gorff na'i *galon*, sef ei feddwl, yn rhydd o bechod (ll. 72). Atgoffeir Ieuan o annhegwch yr holl wŷr croengaled hynny a

⁸ Marged Haycock, *op.cit.* 107.

⁹ *Ib.* 108.

¹⁰ *Ib.*

¹¹ Gw. Sus 1–64; Marged Haycock, *op.cit.* 109, gw. yn arbennig n. 54.

¹² R. Howard Bloch, *Medieval Misogyny and the Invention of Western Romantic Love* (Chicago and London, 1991), 98.

fyddai'n cefnu ar ferched ac yn ymwrthod â hwy wedi iddynt heneiddio (llau. 73–6). Y mae'n bur sicr fod Gwerful Mechain yn gyfarwydd â manylion achos Ieuan Dyfi a'r ffaith iddo gael ei gosbi am odineb ac mai hynny sydd dan sylw ganddi yma. Honna ymhellach mai Ieuan Dyfi oedd y ffwl hwnnw a fu'n neidio dan ergyd ffon yn sgil ei gosb am ei bechodau a'r celwyddgi a fu'n tyngu llwon ffals (llau. 77–8). Diweddir y cywydd trwy ddatgan mai dynion ffals a thwyllodrus sy'n dal dig ac felly dymuniad Gwerful yw y bydd gras Duw yn iacháu agwedd y gwŷr gresynus hynny at ferched (llau. 79–80).

Yn ôl meddylfryd awduron yr Oesoedd Canol ystyrir y defnydd o *exempla* yn gydradd â hanfod tystiolaeth a dengys Alcuin Blamires bwysigrwydd *exempla* cyfoes:

Modern instances can be included as a kind of insurance, insisting on temporal difference, to counter the over-familiarity *or* the fictitiousness latent in standard antique examples. But alternatively they can be included, insisting on continuity, to crown a proof by bringing it—like a chronicle—to the present; or they can be included, insisting on continuity again, as an implied admonition urging that the venerable standards of antiquity *can* prevail among contemporary women.¹³

Fel y dengys Dr Haycock, nid yw Gwerful yn bodloni ar esiamplau clodwiw o'r gorffennol yn unig. Dechreuir a diweddir ei chywydd â llinellau gwirebol neu ddiarhebol ac amgylchynir y rhestr *exempla* gan sylwadau craff a herfeiddiol.¹⁴ Er na cheir *exempla* cyfoes o wragedd da gan Werful gellir cynnig ei bod ar ddiwedd y cywydd yn dangos bod Ieuan Dyfi yn cynrychioli ac felly'n esiampl gyfoes o ddygioni dynion. Yn ogystal â dangos bod Gwerful yn gyfarwydd â chynnyrch ei chyd-gywyddwyr y mae'r cywydd hwn yn amlygu ei gwybodaeth amlwg am gonfensiwn llenyddol y *querelle des femmes*. At hynny, y mae changder yr enghreifftiau a ddefnyddir ganddi ac effeithiolrwydd ei dadleuon yn dyrchafu ei chywydd uwchlaw y gwrthdadleuon arferol hynny sy'n rhestru *exempla* ystrydebol a di-fflach. Sylwer bod Gwerful yn asio deunydd rhethregol yn gelfydd â digwyddiadau cyfoes, gan fanteisio ar ei gwybodaeth am y sgandal gyfoes a fu rhwng Ieuan Dyfi ac Anni Goch. Dengys Dr Haycock nad yw Gwerful yn crybwyll y Forwyn Fair yn ei rhestr *exempla* er mwyn bod yn deg ag Ieuan Dyfi am iddo beidio â sôn am Efa.¹⁵ Ond cynigia Dr Jane Cartwright fod Gwerful wedi hepgor yr esiampl honno am na ellid ystyried y Forwyn Fair fel merch gyffredin ond yn hytrach fel bod sanctaidd a oedd yn meddu ar alluoedd gwyrthiol. Awgryma Dr Cartwright ymhellach fod Gwerful yn osgoi crybwyll y Forwyn Fair ac yn gwrthod trafod beichiogrwydd a swyddogaeth y fam am nad oedd ganddi ddiddordeb yn natur fiolegol

¹³ Alcuin Blamires, *The Case for Women in Medieval Culture* (Oxford, 1997), 68.

¹⁴ Marged Haycock, *op.cit.* 109.

¹⁵ *Ib.* 99.

merch.¹⁶ Fodd bynnag, y mae'n anodd derbyn ail ddadl Dr Cartwright gan fod Gwerful yn lleisio safbwynt benywaidd ac yn tynnu sylw at ffrwythlondeb merch mewn cerddi eraill. Yn wahanol i'r beirdd gwrywaidd, amlygir pwysigrwydd natur fiolegol merch ganddi yn ei chywydd maswedd 'Cywydd y gont', *Gado'r canol heb foliant / A'r plas lle'r enillir plant*.¹⁷

Fel y sylwir gan Dr Haycock, cyflwyno Gwerful ei gwrthddadleuon yn drefnus a rhesymegol. Cyfunir *exempla* o ffynonellau cyffredin yn bwrpasol drefnus gyda'i gilydd. Ymddengys yr enghreifftiau a nodir ganddi o'r *Brut*, sef Gwenddolen, Tonwen, Marsia a Genuissa, fel isadran yng nghorff y cywydd. Gosodir Susanna a Sibyl gyda'i gilydd gan fod y gwagedd hyn yn arddangos rhinwedd arbennig, sef geirwiredd, a diddorol sylwi bod Gwerful yn codi amheuon ynglŷn â geirwiredd Ieuan Dyfi yn union wedi hynny, *Dywed Ifan, 'rwy'n d'ofyn, / Yn gywir hardd, ai gwir hyn?* (llau. 63–4). Y mae'r cywydd hwn yn tystio i hyder a meistrolaeth ddiarnheul Gwerful Mechain ar ei chyfrwng ac yn dangos ei bod yn ferch ddysgedig a chraff a fedrai ateb cyhuddiadau Ieuan Dyfi ergyd am ergyd ar ei delerau ef ei hun.

Y mae'r cywydd hwn, felly, yn adwaith grymus iawn i'r cywydd 'I Anni Goch' gan Ieuan Dyfi (cerdd 3). Dyma'r enghraifft gynharaf yn y Gymraeg o ymryson barddol ar bwnc y *querelle des femmes*, sef 'dadl y merched'. Ar sail gwaith ymchwil Dr Llinos Beverley Smith gellir dweud i Ieuan Dyfi gyfansoddi ei gywydd yn lladd ar ferched ar ôl yr achosion llys yn 1502 ac felly i Werful Mechain hithau ganu ei hateb rywdro wedi'r dyddiad hwnnw.¹⁸ Yr hyn a ysbardunodd Ieuan Dyfi i fabwysiadu agwedd y traddodiad *misogynist* oedd y profiadau anffodus a ddaethai i'w ran yn sgil ei berthynas ag Anni Goch. Canodd Ieuan bum cywydd i Anni ac, yn ôl Leslie Harries, hi oedd 'prif wrthrych ei gwyno a'i hiraethu, ac ysbrydoliaeth ei ganu'.¹⁹ Ond pan chwalodd y berthynas honno, ymddengys i Ieuan fynegi ei siom a'i ddigofaint am anwadalwch Anni drwy gyfrwng ei gywydd yn lladd ar ferched (cerdd 3). Awgryma Joan Kelly yr hyn a achosai agwedd wrthfenywaidd rhai gwŷr dysgedig:

The need to feel superior, and displaced sexual feelings, made up a good part of the psychology of educated men. The most systematic analysis of 'the causes that impel knowledgeable and learned men to criticize and vituperate women' came from Lucrezia Marinella. She isolated four such causes, three of which (self-love, envy, and their own lack of talent) had

¹⁶ Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999), 33–4.

¹⁷ 9.21–2.

¹⁸ Gw. y Rhagymadrodd, tt. 17–18, am ragor o fanylion ynglŷn â dyddiadau.

¹⁹ HCL1 28–9.

to do with a male need to feel superior to women, and one of which (disdain) stemmed from frustration of male sexual impulses.²⁰

Yn sgil y feirniadaeth uchod gellir esbonio, i raddau helaeth efallai, agwedd ddirmygus Ieuan Dyfi at ferched fel ymateb i'w rwystredigaeth rywiol bersonol. Y mae'r ymryson llenyddol hwn yn hynod bwysig nid yn unig am ei fod yn amlygu safbwyntiau'r ddwy ryw ynglŷn â'r *querelle des femmes* ond am fod digwyddiadau hanesyddol, fe ymddengys, yn chwarae rhan ynddo. Defnyddiodd Ieuan Dyfi a Gwerful Mechain gonfensiwn llenyddol y *querelle des femmes* fel arf hwylus er mwyn lleisio safbwynt personol a beirniadu achos hanesyddol go iawn.

Ystyrir gwrthddadleuon Christine de Pizan yn erbyn y traddodiad *misogynist* fel yr hyn a ysbardunodd y *querelle des femmes*, sef y ddadl ynghylch merched a fu'n boblogaidd am bedair canrif. Er bod themâu'r ddadl hon yn hysbys ymhell cyn i Christine gyfansoddi ei gwrthddadl gynharaf, sef *L'Epistre au Dieu d'Amours* (1399), sy'n beirniadu'r darlun anffafriol o wragedd a geir gan Jean de Meung yn y *Roman de la Rose* (1277), gwelir trobwynt arbennig yn sgil dylanwad ei chyfansoddiadau niferus hi. O gyfnod Christine de Pizan (1364–c.1430) ymlaen ceir gwrthddadleuon sy'n ffurfio ymatebion penodol i ymosodiadau *misogynist* arbennig ar wragedd. Fel Gwerful Mechain, ni fodlonai Christine ar ddyfynnu *exempla* clodwiv o'r gorffennol yn unig: rhaid oedd mynd at wraidd yr agwedd wrthfenywaidd, gan dymchwel y camsyniadau hynny. Yn ôl Joan Kelly:

Most remarkable, the debate on women that Christine launched would no longer present two male-defined sides of the issue, as had the clerical debate on marriage and the bourgeois satires and responses. Christine had created a space for women to oppose this onslaught of vilification and contempt, and the example of her citadel served them for centuries. Although men continued to write in defence of women, what is novel about the *querelle des femmes* is that women seized upon it to rebut for themselves the misogynist voice of literate opinion.²¹

Am olygiad o'r cywydd ynghyd ag ymdriniaeth, gw. Marged Haycock, 'Merched drwg a merched da: Gwerful Mechain v. Ieuan Dyfi', YB xvi (1990), 97–110. Ar y cyd-destun hanesyddol, gw. Llinos Beverley Smith, 'Olrhain Anni Goch', YB xix (1993), 107–26.

11 **dyfod** Amrywiad ar *dywawd*, sef ffurf 3.un.grff.myn. y f. *dywedud*, gw. isod 7.11n ar *dyfawd*.

15 **helethe** Ffurf lafar ar *helaethai*, sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal odl y gynghanedd lusz; cf. y ffurf *gwedde*, isod 14.2. Dichon mai 'gwneud

²⁰ Joan Kelly, *Women, History and Theory: The Essays of Joan Kelly* (Chicago and London, 1984), 81, gw. n. 54.

²¹ *Ib.* 73.

yn fwy' yw'r ystyr yma, gw. GPC 1841 (er na cheir enghraifft o'r f. yno tan ganol yr 16g.)

Eneas Gw. 3.51n. Er na roddir enw'r ferch a *helethe Eneas* diau mai Dido, brenhines Carthag/Carthago (S. *Carthage*) sydd yma. Y wraig hon a ofalodd am Aeneas wedi ei longdrylliad ac a wnaeth amdani'i hun pan y'i gadawodd. Gw. OCD³ 467; BL Add 14896 [= RWM 43], 25^t.

- 17 **Gwenddolen** Merch Corineus a gwraig Locrinus, sef y gŵr a ddyrchafodd ei ordderch, Eyllt, yn frenhines. Wedi i Locrinus gael ei ladd mewn brwydr cafodd Gwenddolen gyfle i daro'n ôl. Llywodraethodd y deyrnas yn llwyddiannus am bymtheng mlynedd cyn trosglwyddo'r awenau i'w mab. Gw. BD 21–3 a J.S.P. Tatlock, *The Legendary History of Britain: Geoffrey of Monmouth's Historia Regum Britanniae and its early vernacular versions* (Berkeley and Los Angeles, 1950), 286–8.
- 19 **gwraig Ddyfnwal** Tonwen, gwraig Dyfnwal Moelmud. Trwy sefyll yn gadarn rhwng dau lu a oedd ar fin brwydro ac erfyn ar ei dau fab sicrhaodd y wraig hon gymod rhyngddynt, gan atal trais a marwolaeth. Gw. BD 36–7 a J.S.P. Tatlock, *op.cit.* 305, 356; GSC 46.3n.
- 21 **Marsia** Gwraig Cuhelyn, ac enghraifft arall o wraig rymus a deallus. Amlygir ei deallusrwydd a'i gallu i weithredu fel arweinydd drwy gyfeirio at y ffaith iddi ddyfeisio cyfraith y Brytaniaid (llau. 21–2). Gw. BD 40–1 a J.S.P. Tatlock, *op.cit.* 165, 283.
- 23 **gwraig Werydd** Genuissa, a roddwyd mewn priodas i Weirydd er mwyn dwyn heddwch rhwng Rhufain a Phrydain. Bu'r wraig hon yn gyfrifol am heddychu dwy blaid a oedd yn brwydro: *doeth y urenhines y rygthunt, ac y tagneuedvys eu tywysogyon*. Gw. BD 58–9 a J.S.P. Tatlock, *op.cit.* 120.
- 27 **mam Suddas** Cyborea/Tiborea, mam Jwdas Iscariot. Ni sonnir amdani yn y Beibl, ond ceir digon o gyfeiriadau ati mewn ffynonellau apocryff-aid. Cafodd freuddwyd y byddai'n cenhedlu plentyn a fyddai'n peri dinistr y genedl Iddewig, ond er iddi geisio rhybuddio'i gŵr ni chymerodd ef unrhyw sylw ohoni. Gw. Paull Franklin Baum, 'The mediæval legend of Judas Iscariot', *Publications of the Modern Language Association of America*, xxxi (1916), 481–632.
- 29 **gwraig Beiled** Gwraig Pontius Peilat. Ceisiodd hithau newid meddwl ei gŵr wedi iddi gael breuddwyd am yr Iesu, ond yn ofer (Math xxvii.19).
- 31–4 **Elen merch Goel** Y mae Dr Marged Haycock (*op.cit.* 107) yn tynnu sylw at y cymysgu cyffredin rhwng Elen Luyddog y Brutiau, gwraig Constans senadur, gw. BD 69, a'r santes y tybir iddi ddarganfod y Wir Groes.

- 32 Ni cheir cynghanedd yma. Y mae'n ddigon posibl mai cynghanedd sain a fwriadwyd yma, o ynganu 'Gonstas', er na cheir y ffurf hon fel amrywiad yn y llsgrau. Cf. isod llau. 41n a 61n.
- 33 Ai cynghanedd lusg, gydag odl broest rhwng *Groes* ac *Iesu*? Sylwer bod y ll. yn hir o sillaf oni chywesgir hi.
- 35 **Cwlan** Dinas Cwlen (*Köln*) yn yr Almaen. Cyfeiriad sydd yma at stori a gysylltir â'r ddinas honno (er na cheir sôn am hynny ym Mrut Sieffre) am filoedd o forynion a gwagedd yn cael eu halltudio o'u hanfodd i briodi gwŷr Llydaw. Chwythwyd eu llongau ar gyfeiliorn ac fe'u merthyrwyd. Eu harweinydd oedd y Santes Wrsla a enwir yn llsgr. A. Gw. BD 79–80; LBS iv, 312–47; J.S.P. Tatlock, *op.cit.* 236–41.
- 39 **gwraig Edgar** Awgryma Dr Marged Haycock mai cyfeiriad at Ælfryth, ail wraig Edgar, brenin Lloegr (m. 975), yw hwn, gw. Marged Haycock *op.cit.* 108. Er na cheir cyfeiriad ati hi yn gwrthsefyll llosg tân, y mae'n wybyddus fod profion o'r fath yn fotiff cyffredin ym mucheddau'r cyfnod. Dylid nodi, fodd bynnag, fod Edward yn digwydd fel amrywiad ar yr enw Edgar yn un o'r llawysgrifau (gw. BL Add 14896 [= RWM 43], 25^r), ac, yn ôl awgrym Mr M. Paul Bryant-Quinn, gallai cymysgu fod wedi digwydd yma gydag Emma, mam Edward y Cyffeswr, gan y ceir cyfeiriad ati hi yn cerdded yn droednoeth dros haearn poeth er mwyn profi ei bod yn ddieuog o gyflawni godineb. Gw. Robert Bartlett, *Trial by Fire and Water: The Medieval Judicial Ordeal* (Oxford, 1986), 17–18.
- 41 Ni cheir cynghanedd, oni bai mai'r ffurf lafar *haean* a fwriadwyd (cf. uchod ll. 32n ac isod ll. 61n).
- 45–6 **Eleias a ddanfonasyd / At wraig ...** Cyfeiriad at y wraig weddw ddiennw o Sarefta a fu'n porthi'r proffwyd Eleias (I Br xvii.9–24).
- 45 Ll. wyth sillaf, ond gellid saith sillaf drwy hepgor y rh.pth. neu ddarllen '*Leias a ddanfonasyd*.'
- 49 Y mae'r darlleniad *O'r ddinas daeth atgasddyn* yn bosibl hefyd.
- 53 **Susanna** Dygwyd camgyhuddiad o odineb yn ei herbyn gan ddau hynafgwr (Sus 1–64).
- 55 Ni cheir cynghanedd yn y ll. hon.
- 58 **abl** O'i ynganu'n ddeusill yma ceir ll. o'r hyd cywir.
Sibli Proffwydwraig y priodolwyd iddi gasgliad o waith diwethafol, gw. *The Old Testament Pseudepigrapha*, i, ed. James H. Charlesworth (London, 1983), 317; TYP² 508; EVW 14–17, 41–4; OCD³ 1400–1 d.g. *Sibyl*.
- 61 Ni cheir cynghanedd, oni bai fod cynghanedd lusg rhwng *farn* ac *anwir* (cf. ll. 41 *haearn / tanllyd*).

- 68 Camosodiad, gw. J. Morris-Jones: CD 298–9.
- 70 **galw** Ceir ll. o'r hyd cywir o'i gyfrif yn ddeusill.
- 73 Sylwer bod *d ... d* yn ateb *d* yn y ll. hon ac yn ll. 63 uchod.
- 76 **prynt** Benthyciad o'r S. *print*, gw. EEW 141 a GPC 2892–3 d.g. *print*, *prynt*, yma yn yr ystyr 'gwedd, llun, ymddangosiad'.
- 77–8 **neidio wrth ffon / ... lw anudon** Y mae'n ddigon posibl mai cyfeiriad at Ieuan Dyfi y *ffŵl* a geir yma, gyda'r *llw anudon* yn adleisio'r achosion llys a'r *neidio wrth ffon* yn dwyn i gof y chwipio, sef cosb y penyd cyhoeddus, gw. Llinos Beverley Smith, 'Olrhain Anni Goch' YB xix (1993), 113–14.
- 77 Ni cheir cynghanedd, onid ystyrir yr *r* a'r *n* yn wreiddgoll, gw. Thomas Parry, 'Pynciau cynghanedd', B x (1939–41), 1–2.

5

Wrth drafod cywydd Gwerful Mechain 'I Lywelyn ap Gutun' (cerdd 7) y mae'n rhaid edrych ar y cywyddau gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn (cerddi 5 a 6) a Llywelyn ap Gutun (cerdd 8) sy'n cydio ag ef. Er bod rhai problemau a rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anodd eu dehongli—yn bennaf, efallai, oherwydd ein diffyg gwybodaeth am y cyd-destun—ychwanegir cryn dipyn at ein gwybodaeth wrth ystyried y cywyddau hyn mewn perthynas â'i gilydd.

Dechreuir y cywydd cyntaf gan Ddafydd Llwyd yn ôl dull confensiynol y cywyddau serch gyda'r carwr yn datgan ei ddiodefaint oherwydd ei draserch tuag at y ferch (llau. 1–4). Ar ôl sôn am Werful yn y trydydd person, pwysleisir y pellter amlwg rhyngddynt yn y cwpled nesaf wrth i Ddafydd agosáu ati drwy ei chyfarch yn yr ail berson, *Pa dir, gwn pwy a dariwyd, / Pa le draw, pa wlad yr wyd?* (llau. 5–6). Yna atgoffeir Gwerful o ryw fargen a fu rhyngddynt gynt (ll. 8). Yn wahanol i'r *eidiawn* (ll. 9), yr *hydd gwyllt* (ll. 10) a'r *gwalch* (ll. 11), anifeiliaid a ddychwelai adref at eu meist'r, ni ddychwelai Gwerful at y bardd. Pwysleisia ffyddlondeb yr anifeiliaid hynny er mwyn dangos bod Gwerful wedi gwneud cam ag ef wrth dorri eu cytundeb a pheidio â dychwelyd ato. Cwyna Dafydd na wnâi Gwerful unrhyw ymdrech i ddod i'w weld (llau. 13–14); yn wir, yr oedd ceisio ei chwmnïaeth yn gymaint o gamp â cheisio taith enbyd y 'Brawd Odrig' (llau. 15–16). Pwysleisir y pellter rhyngddynt unwaith eto, gan adleisio'r gŵyn a geir yn llinellau 5–6 (llau. 17–18). Ymddengys fod Dafydd Llwyd yn mabwysiadu agwedd y carwr gwrthodedig, megis y gwnâi Dafydd ap Gwilym,¹ gan amlygu ei ofid fod Gwerful wedi oeri tuag ato a'i anghofio'n llwyr (llau. 19–20). Datgan Dafydd ei fwiad i anfon llatai ati (llau. 21–4).

¹ GDG³ 254–5 (cerdd 93).

Sylwer fel y chwery ar ystyron y gair *gollwng* (llau. 19, 21): er bod Gwerful wedi ei ‘ollwng’ yr oedd Dafydd am geisio ailennyn y garwriaeth drwy *ollwng* y llatai ati, sef Llywelyn ap Gutun. Y mae’r cyfeiriad at *ysgrifen* (ll. 23) efallai’n awgrymu bod Gwerful Mechain yn llythrennog. Dywed y bardd ymhellach ei fod am anfon Llywelyn ap Gutun yn llatai ati, ond cyfeirir at y llatai hwnnw mewn modd digon gwawdlyd a dirmygus. Dychenir Llywelyn gan ei alw yn *gerdded-ddyn gwael* (ll. 25) a thynnir sylw at ei farusrwydd yn *ceinioca* (ll. 29) ac yn *yta ac wyna* (ll. 30) dros *bedwar ban y byd* (ll. 28). Yn ôl Dafydd Llwyd, byddai Llywelyn yn derbyn swydd y llatai’n ufudd oherwydd byddai’r gwas yn ffyddlon i’w feistr ar ôl derbyn curfa yn union fel y byddai’r cenau’n gwbl driw ac yn mynnu dilyn yr heliwr (llau. 31–8). Ymhellach, gelwir Llywelyn mewn modd hynod ddeifiol yn *Delynor heb awdl uniawn* (ll. 40). Ceir tystiolaeth allanol i hyn: yn llawysgrif Bangor 13829, 35, er enghraifft, ceir *Llewelyn ap Guttyn Telynior*. Dywed Dafydd y câi ef wasanaeth y llatai yn rhad ac am ddim oherwydd ar ôl derbyn cosfa yn iawn ni fynnai’r bardd *bol y baeol* (ll. 44 sef, blonegog neu ‘*pot-bellied*’) hwnnw unrhyw elw ond y fraint o ddilyn ei feistr (llau. 39–44).

Am olygiad arall o’r gerdd, gw. GDL1 144–5 (cerdd 65). Gw. hefyd Henry Lewis, ‘Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun’, B iv (1927–9), 310–25.

3 **Gwerul** Cf. y ffurf *Gweirul* isod 6.2.

4 **Hywel Fychan** Tad Gwerful Mechain o Fechain ym Mhowys, gw. ByCy 306 d.g. *Gwerful Mechain* ac uchod tt. 2–3.

Mechain Cwmwd ym Mhowys, gw. WATU 154.

12 Cynghanedd sain gadwynog gyda chyfatebiaeth lafarog, gw. J. Morris-Jones: CD 170–1, neu gynghanedd draws fantach.

16 **Brawd Odrig** Odoric o Pordonone, yr Eidal (c. 1286–1331), Brawd Llwyd a theithiwr drwy Asia, gw. Stephen J. Williams, *Ffordd y Brawd Odrig* (Caerdydd, 1929), xiii–xvii.

Os cynghanedd sain a fwriadwyd yn y ll. hon, sylwer bod y geiryn *no* yn cynnal yr odl gyntaf.

20 **ar** Rh. dangosol yn rhagflaenu cymal pth., gw. GMW 71, GPC 174 d.g. *ar*³ a cf. GDG³ 363 (137.36) *Am bob gair ar a ddywawd*.

24 **brân Noe** Anfonodd Noa gigfran allan o’r arch er mwyn canfod a oedd y dyfroedd wedi cilio (Gen viii.6–7).

25 **Llywelyn** Llywelyn ap Gutun (*fl.* c. 1480); ceir tystiolaeth ei fod yn delynor yn ogystal â bardd, cf. llau. 39–40 ac ymhellach y nodyn cefndir

uchod. Bu ymrysonau rhyngddo a Dafydd Llwyd o Fathafarn, Guto'r Glyn, Lewys Môn a Gruffydd ab Ieuan ap Rhys Llwyd, gw. ByCy 565.

39 **Llywelyn** Gw. uchod ll. 25n.

44 **bol y baeol** Sef '*pot-belly*', gw. GPC 296.

6

Dechreua Dafydd Llwyd yr ail gywydd â chŵyn yn null y carwr dioddefus sy'n methu cysgu oherwydd ei gariad at y ferch (llau. 1–4). Dywed fod Gwerful yn aflonyddu arno drwy anfon llateion ato a'i gyfarch ar ffurf cerddi mawl er mwyn ceisio'i ddenu allan o'i dŷ fel y gwnâi'r beirdd eraill a ddefnyddiai gonfensiwn y serenâd (llau. 5–8). Ond nid felly y mae ennill ei ffafr (llau. 9–10). Pwysleisia'r bardd, yn sinigaidd braidd, ei graffter wrth ganu mawl i'r gog: gallai foli'n ddiwair ac yn gyson a ffyddlon (llau. 11–12). Dywed ymhellach na fu i'r un ferch na chyfoed iddo ei hudo i garu yn y coed (llau. 13–16). Honna na fedrai merch ddwyn perswâd arno drwy gerdd gywrain na *modrwy* mwyach, gan awgrymu efallai fod henaint yn drech nag ef (llau. 17–18). Serch hynny, byddai'n barod i gyfranogi yn y gêm gyfrinachol honno petai Gwerful yn mabwysiadu agwedd gynilach ac yn cytuno i garu'n ddirgel (llau. 19–22). Ymddengys fod Dafydd Llwyd yn ystyried agwedd ddidwyll ac agored Gwerful Mechain braidd yn fygythiol, ond petai hi'n fodlon ymddwyn yn wahanol, gan gydymffurfio â gofynion y berthynas ddirgel fel y mynnai ef, byddai'n ddigon hapus i gwrdd â hi (llau. 23–8). Yn dilyn ceir darlun delfrydol a chonfensiynol o'r berthynas garwriaethol yn yr awyr agored (llau. 29–36). Dengys Dafydd sut y gallai'r ddau ohonynt fwynhau cyfarfod cudd o'r fath, hynny yw, ar yr amod fod Gwerful yn ymddwyn mewn modd a oedd yn dderbyniol ac yn ddisgwyliedig gan ferch. Fel y nododd Dr Rachel Bromwich, yn ystod y bymthegfed ganrif cyplysir cyfeiriadau at Fyrddin fel carwr yn fynych gyda sôn am y 'tŷ gwydr' a gellir awgrymu mai dyna sydd wrth wraidd y cyfeiriad at [*g*]apel gwydr (ll. 37n).¹ Yna dychwelir at y darlun delfrydol o'r cariadon yn caru'n ddirgel yn yr awyr agored, a'r *llwyn golas* (ll. 39) a'r *bedw iriawn* (ll. 44) yn ein hatgoffa o'r deildy a folir yn fynych yng ngwaith Dafydd ap Gwilym ac eraill.²

Am olygiad arall o'r gerdd, gw. GDL1 145–6 (cerdd 66).

4 **Mechain** Gw. 5.4n.

12 **A di-wair a daueriog** O ddarllen *A diwair a daueriog*, ceid cynganedd lusg wydro; ond sylwer bod hynny'n digwydd yn ail fraich y

¹ TYP² 474 a cf. 3.67–70n.

² GDG³ 70–2 (cerdd 24), 78–80 (cerdd 27).

cwpled, gw. J. Morris-Jones: CD 180. Cymerir, felly, mai cynghanedd groes sydd yma ac yngenir *di-wair* yn acennog.

18 **medrus** Gan fod y ll. yn hir o sillaf y mae'n bosibl y dylid derbyn y darlleniad a roddir ar yr ymyl yn llsgr. C, sef *mydr*, darlleniad dadlennol hefyd o gofio bod Gwerful Mechain yn barddoni.

24 **Ffridd Ddeunaint** Ni lwyddwyd i'w leoli.

37 **capel gwydr** Cysylltir cyfeiriadau at Fyrddin fel carwr yn aml gyda sôn am ei *dŷ gwydr* ac efallai mai cyfeiriad at y traddodiad hwnnw a geir yma, gw. 3.67–70n; TYP² 474.

7

Egyr y cywydd ymryson hwn gan Werful Mechain drwy foli Dafydd Llwyd o Fathafarn fel carwr mewn dull arwrol (llau. 1–6). Ceir yr ymdeimlad fod y ddau fardd wedi eu gwahanu oherwydd rhyw achos neu drybini a ddaeth i'w rhan. Serch hynny, y mae cyd-destun y gyfeiriadaeth yn aneglur. Dengys Gwerful ei bod yn ymwybodol o'r modd yr hiraethai Dafydd Llwyd amdani (llau. 11–14), gan esbonio na fyddai'n dewis cadw draw heb fod ganddi reswm da dros wneud hynny a'i bod yn ffyddlon iddo ac yn dyheu am ei weld (llau. 15–20). Ni cheir unrhyw wybodaeth sy'n esbonio paham y bu raid i Werful ymbellhau oddi wrth Ddafydd Llwyd ond efallai y bu rhyw newid arwyddocaol yn gyfrifol am hynny, megis ei phriodas â John ap Llywelyn Fychan a dyletswyddau'r cartref. Yn nesaf, cyfeiria Gwerful at Lywelyn ap Gutun, y llatai y mae'n debyg, gan nodi na ddaethai'r llatai hwnnw ati gyda'i neges serch ar ran Dafydd Llwyd (llau. 21–2). Y mae'r cwpled dilynol (llau. 23–4) yn amwys, ond efallai mai cyfeirio at fynd a dod di-baid Llywelyn ap Gutun dros y ffin yn porthmona defaid a chardota ŷd a wneir yma. Yn ôl Gwerful, ni fynnai Llywelyn ei hannerch na chyrchu merch iddo'i hun na thros neb arall. Awgrymir gan y cyfeiriad *bun a ball* (ll. 33) na châi ef fawr o groeso gan ferched, p'run bynnag. Dywed ymhellach mai ar Ddafydd Llwyd yr oedd y bai am anfodlonrwydd Llywelyn i weithredu fel llatai oherwydd i Ddafydd ei ddiffrïo ef a'i chroesawu hithau i'w guro er mwyn sicrhau ei wasanaeth fel llatai (llau. 25–34). Yn hytrach na derbyn swydd y llatai dengys Gwerful mai porthmona defaid fel y gwnâi *Gutun* (ll. 36), sef Guto'r Glyn o bosibl, a chardota ŷd drwy'r holl wlad a fynnai Llywelyn. Noda, yn grafog ddigon, mai defaid, nid merched, oedd difyrwch Llywelyn (llau. 37–40)! Byddai Llywelyn yn ceisio ŷd yn swydd Amwythig, yn Yr Un Dref ar Ddeg a'r Dre-wen. Gellir awgrymu bod arian-garwch y gŵr hwn yn destun hwyl oherwydd dywed Gwerful yn wawdlyd ei fod yn gwisgo dillad moethus yn ystod yr wythnos (llau. 49–50). Byddai Llywelyn hefyd yn wyna a phorthmona defaid ym Môn ac yng Ngwynedd Uwch Conwy (llau. 55–62). Sylwer bod Gwerful yn cymharu'n ysmala

deithiau Llywelyn a'i farusrwydd wrth gardota ac arianna drwy'r wlad â choncwest Alecsander Fawr ar hyd a lled y byd (llau. 63–8). Ymddengys arwyddocâd llinellau 71–2 yn amwys. Efallai y byddai'r darlleniad *serch* yn hytrach na *merch* yn rhoi gwell ystyr, hynny yw, y byddai Gwerful yn aros am fis ar ôl iddynt gyfarch ei gilydd. Dywed ymhellach nad oedd yr un wlad na thref yn ddiogel rhag distryw a rhaib y pla o wŷr hwnnw (llau. 73–6). Sylwer bod Gwerful yn gorffen ei chywydd drwy ddannod i Lywelyn lwyr ymgolli yn ei ddefeita a'i gardota di-baid a chan nodi y dylai wneud iawn iddi hi am hynny. Gellir awgrymu mai cywydd oedd yr ad-daliad a fynnai Gwerful gan Lywelyn (llau. 79–80).

Am olygiad arall o'r gerdd, gw. GDL1 147–8 (cerdd 67).

- 1 **Dafydd** Dafydd Llwyd o Fathafarn, gw. ByCy 94; CLC² 159; GDL1; Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981.
Dyfi Yr oedd Mathafarn, cartref Dafydd Llwyd, ar lan Afon Dyfi, gw. EANC 139–40. Gw. hefyd GGrG At.i.29n ar *Fathafarn*.
- 2 **Nudd** Nudd Hael. Ynghyd â Mordaf a Rhydderch ystyrid ef yn un o'r Tri Hael chwedlonol, gw. TYP² 476–7.
- 4 **Llywelyn** Llywelyn ap Gutun, gw. 5.25n.
- 8 **Gutun** Ai cyfeiriad at Guto'r Glyn a geir yma? Gw. y nodyn cefndir uchod. Posibilrwydd arall yw mai cyfeirio at dad Llywelyn delynor a wna Gwerful yma; fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi goroesi i awgrymu ei fod ef yn porthmona defaid.
- 10 **Brawd Odrig** Gw. 5.16n.
- 11 **dyfawd** Amrywiad ar *dywawd*, sef ffurf 3.un.grff.myn. y f. *dywedud*, cf. y ffurf *dyfod*, uchod 4.11 a gw. GMW 124.
- 13 **rhwng Môn a Cheri** Cwmwd ym Mhowys ar y ffin â Lloegr yw Ceri, gw. WATU 41; J.E. Lloyd: HW³ 253; G 136. Cf. GDG³ 233 (85.22–3) *Prydu a chanu ei cherdd / I'r glêr hyd eithaf Ceri*. Fel y dywed Dr Rachel Bromwich yn *Tradition and Innovation in the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1972), 19, ymddengys mai ffordd o ddweud 'cyn belled â Chlawdd Offa neu ledled y wlad' yw hyn. Yma, y mae Môn yn cynrychioli'r pegwn gogledd-orllewinol eithaf.
- 32 **Llywelyn** Gw. uchod ll. 4n.
- 36 **Gutun** Gw. ll. 8n.
- 42 **[yr] Un Dre' ar Ddeg** Croesfaen, sef Ruyton XI Towns, i'r gogledd-orllewin o Amwythig.
- 43 **gedis** Ffurf 3 un.grff.myn. *gadu*, *gadael*, gw. GMW 152.

- 51 **plant Ronwen** Merch Hengist, arweinydd y Saeson, oedd R(h)onwen ac fe'i rhoddwyd mewn priodas i Wrtheyrn. Sylwer, felly, fod *plant Ronwen* yn gyfystyr â Saeson, gw. BD 94–7; TYP² 88; J.E. Caerwyn Williams, 'Nodiadau Cymysg', B xxi (1964–6), 301–3.
- 52 [**y**] **Dre-wen** Whittington yn swydd Amwythig, gw. CLIH 215–16; EWSP 593 a GSRh 3.9n.
- 63 **Alecsander** Gw. 3.27n.
- 68 **gyried** Yn ôl GDLI 208 (d.g. *gyriaid*), efallai y dylid darllen *giriad*. Ystyr *ciried* yw 'rhoddi, rhannu neu ewyllysio, mynnu', gw. GPC 484. Ond dengys y diffyg treigladd laes ar ôl *â* nad *ciried* a geir yma. Y mae'n llawer mwy tebygol mai ffurf lafar ar *gyriaid* (gw. ll. 38), sef ffurf l. *gyriad* 'gyrwr, porthmon' ydyw, gw. GPC 1797 d.g. *gyriad*².
- 71–2 Y mae'r ystyr yn amwys, gw. y nodyn cefndir uchod.

8

Egyr y cywydd hwn gyda Llywelyn ap Gutun yn datgan yn hollol glir ei fwriad fel negesydd, sef pwysleisio henaint a musgrellni Dafydd Llwyd er mwyn talu'r pwyth yn ôl am ei ddychan (llau. 1–2). Cysylltir Dafydd yn gellweirus â ffigurau hanesyddol enwog a berthynai i gyfnodau cynharach, megis Harri V (llau. 3–4), Owain Glyndŵr (llau. 15–16) ac Urien Rheged (ll. 56). Dengys Llywelyn mor chwerthinllyd ydoedd i *henwr* (ll. 10) fel Dafydd annerch merch ifanc fel Gwerful (llau. 5–12). Dychenir Dafydd trwy ddweud ei fod yn bresennol ym Mrwydr y Bryn Glas (22 Mehefin 1402) gydag Owain Glyndŵr (llau. 13–16). Cyfeirir at wanc Dafydd am ddiodyd, adar a merched, pethau nad ydynt yn addas i ŵr oedrannus (llau. 17–22). Yna, er lles Dafydd Llwyd ei hun, cynigir ateb i'r broblem honno (llau. 23–6). Yn ôl Llywelyn, ni fyddai Dafydd yn derbyn ei gyngor ac felly gwell fyddai ei dwyllo (llau. 27–30). Dywed ymhellach ei fod am ddial ar Ddafydd Llwyd drwy ennill Gwerful yn gariad iddo ef ei hun (llau. 31–4) ac ymddengys fod y bardd fel petai'n ceisio cyfiawnhau ei fwriad wrth bwysleisio henaint Dafydd a'i gyflwr truenus (llau. 35–42). Mewn cyferbyniad llwyr â musgrellni Dafydd Llwyd, dywed Llywelyn ei fod ef yn ifanc ac yn gyfoed â Gwerful (llau. 43–4), ac o'r herwydd byddai'n gymar llawer mwy addas iddi na henwr llesg fel Dafydd (llau. 45–50). Diweddir y cywydd drwy bwysleisio cyflwr truenus hwnnw. Dywed Llywelyn mai trist iawn oedd ymdrech Dafydd i ennill ffafr Gwerful, yn enwedig gan nad oedd ef fel petai'n sylweddoli ei wendid a'i ddiffyg fel carwr yn sgil ei henaint (llau. 51–6).

Cafodd yr ymryson arbennig hwn ei ysbarduno gan gywydd Dafydd Llwyd o Fathafarn yn anfon Llywelyn ap Gutun yn llatai at Werful Mechain (cerdd 5). Yn y cywydd hwnnw cyfeiria Dafydd at farusrwydd Llywelyn,

gan ddychanu'r darpar latai yn llym iawn. Awgryma Henry Lewis mai gwir ergyd y cywydd oedd honiad Dafydd y byddai'n sicr o wasanaeth y llatai oherwydd byddai'r gwas yn ffyddlon ar ôl derbyn curfa gan ei feistr.¹ Yn ôl W.J. Gruffydd, yr hyn a gododd wrychyn Llywelyn oedd y ffaith i Ddafydd ei fychanu a'i ddychanu'n hallt wrth roi rhwydd hynt i Werful ei guro pe dymunai.² Serch hynny, er gwaethaf honiad hyderus Dafydd, ymddengys nad oedd Llywelyn am dderbyn swydd y llatai yn ufudd ac awgryma mai ei fwriad (neu esgus fwriad) oedd ennill Gwerful yn gariad iddo ef ei hun. Dengys Llywelyn ei fod yntau a Gwerful yn gyfoedion a Dafydd yn hen ŵr, gan dybio, felly, y byddai ef yn well carwr na Dafydd ac yn gymar llawer mwy cymwys i Werful. Gellir awgrymu bod W.J. Gruffydd (ac, i raddau llai, Henry Lewis) wedi dehongli'r ymryson hwn yn rhy lythrennol, gan anwybyddu'r posibilrwydd mai hwyl a chellwair rhwng cyfeillion ydoedd.

Wrth drafod ymryson arall a fu rhwng Dafydd Llwyd o Fathafarn a Llywelyn ap Gutun, awgryma Henry Lewis fod yr ymryson gwreiddiol hwnnw yn cynnwys mwy o gywyddau nag a orosodd gan fod amryw bwyntiau'n aneglur iddo ef yn y cywyddau a gyhoeddwyd ganddo.³ Yn yr un modd ymddengys nifer o bwyntiau a chyfeiriadau yn yr ymryson arbennig hwn yn dywyll ac amwys. Gellir cynnig, fel y gwnaeth Henry Lewis, fod yr ymryson gwreiddiol hwn hefyd yn cynnwys mwy o gywyddau nag a orosodd.

Am olygiad arall o'r gerdd, gw. GDL1 149–50 (cerdd 68) a gw. ymhellach Henry Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun', B iv (1927–9), 310–25.

- 3–4 **Harri ... / Bumed** Harri V, brenin Lloegr, Mawrth 1413–Awst 1422.
- 6 **dwy Fechain** Mechain Is Coed a Mechain Uwch Coed, gw. WATU 154.
- 8 **Alun** Afon Alun yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gw. Hywel Wyn Owen, *Enwau Lleoedd Bro Dyfrdwy ac Alun*, Cyfres Llyfrau Llafar Gwlad, 21 (Llanrwst, 1991), 6.
- 9 **Dafydd** Dafydd Llwyd o Fathafarn, gw. 7.1n.
- 12 **Eurddonen** Amrywiad ar yr e. *Iorddonen*.
- 15 **Bryn Glas** Cyfeiriad at frwydr yn y Bryn Glas, sir Faesyfed (22 Mehefin 1402) yn ystod Gwrthryfel Glyndŵr. Cynigia Leslie Harries 1420–90 fel dyddiadau Dafydd Llwyd ond, yn ôl Enid Roberts, gellid ystyried y cyfeiriad hwn fel un llythrennol, hynny yw, fod Dafydd Llwyd yn bresennol ym Mrwydr Bryn Glas, gw. Enid Roberts, *Dafydd*

¹ Henry Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun', B iv (1927–9), 312.

² W.J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl, 1922), 40–1.

³ Henry Lewis, *art.cit.* 313.

Llwyd o Fathafarn, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981, 7. Ond oherwydd prinder y dystiolaeth ynglŷn â dyddiadau ac oedran Dafydd Llwyd, efallai y byddai'n fwy diogel derbyn y cyfeiriad hwn fel un cellweirus yn hytrach nag un llythrennol.

16 **Owain** Owain Glyndŵr; gw. y nodyn blaenorol.

32 **Dafydd** Gw. ll. 9n uchod.

36 **Llyn Lliw** Ceir sôn am *Ehawc llyn lliw*, un o'r anifeiliaid hynaf, yn chwedl 'Culhwch ac Olwen'. Tynnu sylw at oedran Dafydd Llwyd a wneir yma, yn ôl pob tebyg, drwy ei gymharu ag un o'r anifeiliaid hynaf, gw. CO³ 33.

38 **awdr** Y mae'n bosibl y dylid ei gyfrif yn ddeusill yma er mwyn hyd y ll., ond y mae angen y ffurf hon ar gyfer y gynghanedd.

49–50 Y mae naws ddiarhebol i'r cwpled hwn a geir hefyd yng ngwaith Dafydd ab Edmwnd, DE 17 (IX.41–2) *a bryno hen fargen faith / obry'n ol a bryn eilwaith*. Cf. hefyd yr ymadrodd canlynol o WVBD 445 a ddyfynnir yn GPC 2923 d.g. *prynaf: prynu, Pryn hen pryn eilwaith, pryn newydd fe bery byth*.

51 **tonnau Alun** Gw. ll. 8n uchod.

54 **Gwennwys** Mab Gruffudd ap Beli, arglwydd Cegidfa, Broniarth a Deuddwr, un o bum costowglwyth Cymru, gw. Enid Roberts, *Braslun o Hanes Llên Powys* (Dinbych, 1965), 45.

56 **wisorwy** Cymerir mai Cymreigiad o'r ymadrodd S. 'with sorrow' ydyw (cf. 'with sorrow' a nodir ar ymyl y ddalen yn llsgrau. F, H a J.). Ond ceir amrywiadau ar y cyfuniad yn y llsgrau. ac anodd yw dewis rhyngddynt, e.e., *i'w sorrow* yn llsgrau. *Th*.

Urien Y mae ystyr y cyfeiriad hwn yn dywyll. Serch hynny, y mae'n dra thebygol mai cyfeiriad at Urien Rheged, brenin teyrnas Rheged yn yr Hen Ogledd, a geir yma. Honnai amryw o deuluoedd Cymreig eu bod yn disgyn o'i linach, gw. TYP² 516–20.

Agorir y cywydd hwn â datganiad gan Werful am natur y canu mawl i wragedd. Dywedir na ellid esgusodi na chyfiawnhau'r darlun anghyflawn o'r wraig a geid ym marddoniaeth y beirdd gan mai anghwrtais a seithug oedd y fath foliant (llau. 1–8). Yna ceir rhestr o'r rhannau hynny o'r corff benywaidd a gâi sylw yng ngherddi'r beirdd gwrywaidd ac felly a ystyrir yn dderbyniol ganddynt i'w trafod, sef gwallt, aeliau, bronnau a dwylo'r ferch (llau. 9–16). Dengys Gwerful ei gwybodaeth amlwg am ganu mawl y beirdd a'r confensiynau cyfarwydd a geid yn eu cerddi gan barodio'r testunau

hynny. Sylwer ei bod hefyd yn tynnu sylw at bwnc a hepgorwyd yng nghanu 'serch' y beirdd gwrywaidd, sef ffrwythlondeb merch, *Gado'r canol heb foliant / A'r plas lle'r enillir plant* (llau. 21–2). Myn Gwerful mai mawl *diffrywth* (ll. 20) yw hwnnw sy'n anwybyddu organau rhywiol y ferch ac â rhagddi i ddisgrifio a dyfalu'r cedor mewn dull manwl a graffig iawn (llau. 17–32). Ni fyddai hyd yn oed y gwŷr eglwysig, pe deuai'r cyfle, yn medru gwrthsefyll atyniad y cedor (llau. 33–6) ac awgryma y dylai'r beirdd ganiatáu i gerddi am y cedor gael cylchrediad eang (llau. 37–40). Sylwer ar y modd y llwydda i gynnal a gwau ei chymariaethau yn gelfydd a chrefftus yn y farddoniaeth. Cyplysir caneuon am y cedor yn fedrus â disgrifiadau o'r cedor ei hun wrth gymharu cedor merch â cheinder cerddoriaeth ar y ddalen (llau. 32, 40). Disgrifir y cedor yn drosiadol drwy ddeunyddiau gwnïo hefyd megis *sidan* (ll. 41), *sêm a llen* (ll. 42) a *lleiniau* (ll. 43). Defnyddir delweddau sy'n gysylltiedig â'r tirlun a byd natur er mwyn canmol perffeithrwydd y cedor a'i ddyfalu ymhellach fel *gwlad y cedawr* (ll. 29), *fforest* (ll. 45), *pant* (ll. 47), *clawdd* (ll. 48), *trwsglwyn* (ll. 49) a *perth* (ll. 50). Yn wahanol i'r beirdd gwrywaidd a gyfeiriai at y goedwig a'r llwyni fel mannau delfrydol i garu ynddynt, gwelir bod Gwerful yn defnyddio'r delweddau hyn i ddisgrifio'r cedor ei hun. Ar un olwg gellir cynnig ei bod hi'n lled-awgrymu bod y 'llwyn serch' (yng nghanu serch y dynion) ei hun yn drosiad am y corff benywaidd. Ymddengys ei throsiadau ychydig yn annisgwyl ac felly'n fodd hynod effeithiol o bwysleisio croeso a rhinweddau'r cedor fel y man delfrydol ar gyfer ennill boddhad. Diweddir y cywydd trwy ddymuno cynhaliaeth a bendith Duw ar gedor merch (llau. 41–50).

Gwrth-destun i ganu mawl i ferched yw'r cywydd maswedd hwn. Sylwer bod Gwerful yn tynnu sylw at y ffaith fod y beirdd gwrywaidd yn gwneud cam dybryd â merched trwy ddisgrifio eu pryd a'u gwedd yn fanwl ond gan esgeuluso'r cedor yn gyfan gwbl. Y mae'n debygol fod y duedd i beidio â chyfeirio at organau rhywiol merch mewn barddoniaeth yn adlewyrchu dylanwad *Amores* ac *Ars Amatoria* Ofydd.¹ Yn ôl John W. Baldwin:

These catalogues of feminine beauty were canonized by Mathieu de Vendôme and Geoffroi de Vinsauf in rhetorical handbooks for the use of Latin poets.²

Y math hwn o draddodiad ymataliol a geir gan y beirdd gwrywaidd Cymraeg a gwelir mai safonau'r traddodiad hwnnw sy'n cael ei feirniadu yng nghywydd Gwerful. Mentrodd beirdd eraill gondemnio rhai o gonfensiynau mwyaf chwyddedig y canu serch: er enghraifft, collfarnwyd Dafydd ap Gwilym gan Ruffudd Gryg am ei ormodiaith wrth ddisgrifio arwyddion serch cwrtais. Yn ôl Gruffudd, yr oedd agwedd ragrithiol amlwg a ffuantus o'r fath yn gwbl groes ac anghydnaws â natur y traddodiad

¹ John W. Baldwin, *The Language of Sex: Five Voices from Northern France around 1200* (Chicago and London, 1994), 97–108.

² *Ib.* 98.

barddol Cymraeg.³ Collfernir gweniaith a mawl eithafol y beirdd ym marddoniaeth ddeifiol Siôn Cent yn ogystal. Yn ôl ei syniadaeth ef celwydd, ac felly pechod, oedd canmoliaeth gonfensiynol y beirdd yn ei hanfod a chredai mai gwir bwrpas barddoniaeth oedd darlunio dyn fel y mae, gan ddatgan yn glir ei holl ddiffygion, ac ni fedrai oddef na chaniatáu'r darlun delfrydol o'r gwrthrych a geid yng ngwaith y beirdd. Gellir derbyn beirniadaeth Gwerful o gonfensiynau barddoniaeth yn arwydd o'i hyder fel bardd. Nid oedd hi'n ofni tramgwyddo'r confensiynau hynny nac yn ofni torri cwys newydd er mwyn lleisio safbwynt unigolyddol.

Y mae'r cywydd hwn fel petai'n ffurfio gwrthbwynt naturiol i 'Gywydd y gal' gan Ddafydd ap Gwilym, a luniwyd ar ffurf cwyn a gyfeiriwyd yn uniongyrchol tuag at gal y bardd lle y ceryddir trachwant afreolus yr aelod arbennig hwnnw.⁴ Y gŵyn honno yw sylfaen y cywydd, a honno sy'n cynnal y fframwaith ar gyfer dyfalu'r gal. Yn ôl yr Athro Dafydd Johnston:

Y dechneg bwysicaf yn eu canu maswedd [*sc.* beirdd Cymraeg] yw dyfalu, sef yr arfer o ddisgrifio rhyw wrthrych trwy gyfres o gymariaethau gyda chryn elfen o ddychymyg neu bos ynddynt. Mae dyfalu bob amser yn tueddu i beri i'r gwrthrych ymddangos yn rhyfeddol—naill ai'n dda neu'n ddrwg, ond yn sicr yn anarferol. Roedd yn arbennig o addas felly ar gyfer disgrifio aelodau rhywiol y corff, yr aelodau bondigrybwyll a guddid o'r golwg fel rheol.⁵

Yn sgil y delweddau a'r trosiadau a ddefnyddiodd Gwerful yn y cywydd hwn a'r cyfeiriad at y cedor fel *corff* (ll. 27), ymddengys organau rhywiol y ferch yn debycach i greadur annibynnol a chanddo'i ewyllys ei hun yn hytrach nag yn aelod dan reolaeth y corff. Wrth drafod 'Cywydd i anfon y gal a'r ceilliau'n llatai'⁶ a briodolir i Ddafydd ap Gwilym, dywed yr Athro Johnston:

The idea that the poet's genitals could be detached and sent to the girl independently of the rest of his body is supported both by the motif of the detached member in the fabliaux, and by instances of flying phalluses in classical and late medieval iconography. It is also corroborated in more general terms by the effect of the *dyfalu* in such poems as *Cywydd y Gal*, which tend to present the penis as a creature with its own separate existence.⁷

Serch hynny, y mae Gwerful Mechain yn trin y testun a'i neges mewn modd gwahanol iawn i Ddafydd ap Gwilym. Ni cheir unrhyw elfen o ymffrost

³ GDG³ 388–413 (cerddi 147–54).

⁴ Rhagflaenir neu dilynir pob fersiwn llsg. o'r cywydd hwn (cerdd 9) gan destun o 'Gywydd y gal' ac eithrio yn llsg. BL Add 14870 [= RWM 53], 316'.

⁵ CMOC² 15.

⁶ *Ib.* 28–31.

⁷ D.R. Johnston, 'The erotic poetry of the *Cywyddwyr*', CMCS xxii (Winter 1991), 87, gw. n. 71–3.

bersonol yn ei chywydd, ond yn hytrach feirniadaeth ar y canu mawl gwrywaidd am wneud organau rhywiol y ferch yn dabw llwyr. Gellir dweud bod Gwerful yn unioni'r cam hwnnw drwy amlygu a disgrifio organau rhywiol y ferch yn fanwl, gan wneud y cedor yn destun dathliad yn hytrach nag yn destun gwaharddedig fel y mae yng nghanu'r dynion. Wrth drafod sut yr oedd gwŷr dysgedig yr Oesoedd Canol yn synio am organau rhywiol y ferch, dywed John W. Baldwin:

In short, a woman is merely an inverted man, one turned outside in.⁸

Yn ôl y dyb gyffredin, felly, ystyrir corff y ferch yn amrywiad rhyfeddol ac afluniaidd ar y corff gwrywaidd.⁹ O ystyried y cywydd hwn yng nghydestun y gred gyfeiliomus hon sy'n adlewyrchu safle 'eilradd' y ferch, y mae'n waith heriol a herfeiddiol dros ben. Er na cheir brolio fel y cyfryw yma, y mae'r elfen o falchder a hyder diamheuol ynglŷn â rhywioldeb benywaidd yn gwbl amlwg drwy gydol y gerdd. Rhoddir cryn bwyslais ar bwysigrwydd maintioli sylweddol cal y dyn er mwyn boddhau'r ferch yn y rhan fwyaf o gerddi masweddus; felly, wrth bwysleisio crynder a hirfeithder y cedor (llau. 29–32, 47–8), awgryma Gwerful yn gynnil a chrafog yma fod rhaid cael cymar â chynysgaeddiad rhywiol cystal o ran maint er mwyn boddhau merch.

Am olygiad arall o'r cywydd ynghyd â chyfieithiad, gw. CMOC² 36–9 ('Cywydd y Cedor').

- 11 Ni cheir cynghanedd yma.
- 14 Nid atebir *dd* yn ail hanner y ll. hon, ond gw. y Rhagymadrodd uchod td. 22.
- 23 **hyder** Nid oes cynghanedd yn y ll. fel y saif; ond o ddiwygio *hyder* yn *hydor*, ceid cynghanedd sain gadwynog reolaidd. Fodd bynnag, ni cheir enghreifftiau cyfoes o *hydor* 'hawdd ei dorri' yn GPC 1952.
- 25 Cynghanedd wreiddgoll.
- 31 **seingoch** Ai a. cyfansawdd o *sein* (o'r S. *sign*) + *coch*, yn golygu 'coch ei olwg' neu 'goch ei ymddangosiad' a geir yma? Gw. GPC 3211 d.g. *sein*; EEW 149.
- 35 **dawn ddifreg** Ceir yr un sangiad yn ll. 45.
- 36 **Beuno** Nawddsant (m. c. 642) a goffeir yn bur aml yng ngogledd Cymru. Dan ei nawdd ef y mae Aberriw a Betws Cedewain ym Mhowys, gw. ByCy 30.
- 45 **dawn ddifreg** Ceir yr un sangiad yn ll. 35.

⁸ John W. Baldwin, *op.cit.* 90.

⁹ *Ib.* 88–97.

- 46 **ffrail** O'r S. *frail*, y mae'n debyg. Yn ogystal ag ystyron arferol *frail* ('eiddil, tyner') y mae'n werth cofio hefyd am ystyr arall a gofnodir yn OED² d.g. *frail*, sef '*morally weak; unable to resist temptation; habitually falling into transgression*' a cf. MED d.g. *frēl* lle y cofnodir yr ystyron enwol '*moral weakness, sinfulness*'. Caiff *l* yn S. ei gyfnewid am *ll* mewn rhai benthyciadau Cym., e.e. *toll* > *toll*; *trail* > *trail*; *pool* > *pwll*, &c., gw. EEW 244.
- 49 **trwsglwyn** Cyfuniad o *trwsgl* + *llwyn*. Ai *trwsgl* yn yr ystyr '*incultus, inscitus, impolitus, rudis, incornatus, incompositus, inconcinnus*', sef 'blêr' neu 'anhrefnus'? Gw. D d.g. *trwsgl*.

10

Dechreuir y cywydd hwn drwy bwysleisio mor ddrygionus a niweidiol yw cenfigen gwagedd (llau. 1–6), cyn mynd ymlaen i ofyn pa beth sy'n peri iddynt ymddwyn felly. Yn ôl Gwenllïan, sef Gwenllïan ferch Tudur Penllyn yn ôl awgrym yr Athro Dafydd Johnston,¹ trachwant a hiraeth anllad, nid cariad, sy'n dwyn bryd gwagedd, gan achosi iddynt ymateb yn y modd hwnnw (llau. 7–12). Dymunai pob gwraig fonheddig garwr a chanddo gal fawr, gan warchod y gal honno'n eiddigus a hunanol; yn wir, ni fyddai'r wraig yn fodlon rhyddhau na chyfnewid ei chariad ar unrhyw gyfrif na chaniatáu anniweirdeb oherwydd dwysedd ei chenfigen (llau. 13–24). Dywed Gwerful ei bod hi'n druenus nad oedd gwagedd yn cywilyddio wrth y ffaith enbyd fod trachwant rhywiol a phleser cnawdol yn golygu mwy iddynt na'u cydnabod. Yn wir, yr oedd boddhad rhywiol yn bwysicach i ferch nag wyth aelod o'i thylwyth a'i thad, ei gwedd a'i hymarweddiad, ei mam a'i brodyr, ei chefnryd a'i chwiorydd. Dywed ymhellach mai sefyllfa ddybryd iawn sy'n achosi i wraig golli pob synnwyr oherwydd cal dyn (llau. 25–36). Nodir mai cenfigen ac eiddigedd sy'n achosi gwarth, trais a drwgewyllys, a bod drygioni o'r fath yn rhemp ym mhob marchnad (llau. 37–42). Unwaith eto rhestrir nifer o bethau gwahanol y byddai merch yn barod i'w haberthu er mwyn cadw cal dyn: deunaw o wartheg, ychen aradr, yr holl ddefaid, pob adeilad a'r tir, ei chont, ei phadell a'i darpariaeth, ei thrybedd, gwisg ei phen a'i heiddo (llau. 43–54). Cloir y cywydd â datganiad gan Werful na chanodd hi ei dychan i'r sawl, o lendid ffydd, a ddymunai gal mwy na'r cyffredin.

Ar yr olwg gyntaf ymddengys fod Gwerful yn y cywydd hwn yn ceryddu gwagedd oherwydd eu hobsesiwn â chal dyn; fodd bynnag, y mae'r ddau gwpled olaf fel petaent yn gwrth-ddweud neu'n tansilio'r feirniadaeth honno. Y mae'n bwysig sylweddoli mai dathlu rhywioldeb merched yn hytrach na'i feirniadu a wna Gwerful. Nid rhywioldeb ond cenfigen ac

¹ Dafydd Johnston, 'Gwenllïan ferch Rhirid Flaidd', *Dwned*, iii (1997), 29.

eiddigedd merched sy'n ennyn ei hanfodlonrwydd. Ymosod ar wragedd eiddigus a wna Gwerful, gan feirniadu eu hunanoldeb yn gwarchod eu gwŷr a gwarafun i wragedd eraill foddhad rhywiol drwy wrthod rhyddhau a rhannu eu gwŷr. Gwrth-destun yw'r cywydd hwn mewn gwirionedd: gwelir Gwerful yn gwyrddroi'r ddadl draddodiadol a geir ym marddoniaeth y beirdd gwrywaidd am y Gŵr Eiddig, gan roi gogwydd benywaidd ar y confensiwn llenyddol hwnnw. Nododd yr Athro Johnston fod Gwerful wrth fabwysiadu ei safbwynt yn datgan pwysigrwydd rhywioldeb ac angen merched am foddhad rhywiol:

She is thus asserting women's sexuality and need for satisfaction, as the poem's conclusion confirms.²

Yn wir, gellir maentumio bod Gwerful nid yn unig yn pwysleisio pwysigrwydd rhywioldeb a boddhad rhywiol merched ond hefyd yn gosod eu hanghenion cnawdol yn gyfartal o ran pwysigrwydd ag eiddo'r dynion ac yn gwneud sbort am ben y dynion a'r canu serch cwrtais.

Fel y dangosodd yr Athro Johnston, canodd Dafydd Llwyd o Fathafarn yntau gywydd ar y thema hon,³ ond bod ei gywydd ef, sef 'Cywydd dychan i'r eiddiges a moliant i'r wraig fonheddig nid oedd eiddigus'⁴ yn trafod y thema o safbwynt cwbl wahanol, sef drwy feirniadu eiddigedd merched a gyfyngai ar ryddid rhywiol dynion. Yno canmolir gwraig arbennig oherwydd iddi osgoi'r pechod dybryd hwnnw o eiddigedd drwy ganiatáu i'w gwŷr gael gordderch. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr gwelir bod Gwerful Mechain yn beirniadu cenfigen merched gan fod hynny'n cyfyngu ar ryddid rhywiol merched eraill.

Yr oedd y beirdd serch yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill yn dra hoff o watwar y Gŵr Eiddig. Yn ôl Dr Huw M. Edwards:

The *Cywyddwyr* commonly associate the sins of insincerity, wrath and, of course, jealousy with the figure of Eiddig, the jealous husband. He is typically depicted as an unrefined oaf, sly, fearful, and over-protective, often impotent and always despicable.⁵

Gwrthgyferbynnir prydfferthwch y ferch â ffieidd-dra a hylltra'r Gŵr Eiddig⁶ ac yn aml fe'i portreedir fel gwŷr lliidiog a chreulon yn curo a chosbi ei wraig.⁷ Yng nghywydd Gwerful Mechain pwysleisio eiddigedd merched a wneir, ond ni cheir unrhyw elfen o'r difrifio personol sy'n nodweddu'r disgrifiadau o'r Gŵr Eiddig yng ngherddi'r beirdd gwrywaidd. Wrth restru'r amrywiol aelodau o deulu'r ferch a'r gwahanol wrthrychau y byddai hi'n barod i'w haberthu er mwyn cadw cal dyn, dwyseir ergyd yr hiwmor yn y

² *Id.*, 'The erotic poetry of the *Cywyddwyr*', CMCS xxii (Winter 1991), 83.

³ *Ib.* 83, gw. n. 62.

⁴ GDL1 173-4 (cerdd 80).

⁵ DGIA 57.

⁶ GDG³ 223-4 (cerdd 81).

⁷ *Ib.* 204-7 (cerdd 75); GLM 339-40 (cerdd XCIV).

cywydd. Nid yw Gwerful yn dychanu nac yn beirniadu unrhyw ferch arbennig ond, yn hytrach, yn pwysleisio'n gyfrwys rywioldeb a chwant merched yn gyffredinol a'i thafod yn bendant yn ei boch ar ddiwedd y cywydd. Y mae dull Gwerful o drin y thema arbennig hon yn unigryw a chlywir llais y ferch yn dra amlwg yma.

Am olygiad arall o'r cywydd ynghyd â chyfieithiad, gw. CMOC² 32–5 ('I Wragedd Eiddgeddus').

- 2 **ni ennil** Dilynyr darlenniad y llsgr., ond y mae'n bosibl y dylid diwygio yn *nid ennil*.
- 9 **Gwenllian** Y mae'r Athro Dafydd Johnston yn awgrymu mai cyfeiriad at Wenllian ferch Tudur Penllyn sydd gan Werful Mechain, gw. Dafydd Johnston, 'Gwenllian ferch Rhirid Flaidd', *Dwned*, iii (1997), 29.
- 10 **Bu anllad gynt ... gân** Cyfeiriad yn ôl pob tebyg at gân Gwenllian (gw. ll. 9n); dywed Dafydd Johnston, *art.cit.* 29, 'Gogleisiol iawn yw'r cyfeiriad at gân anllad o'i gwaith ... Fe ymddengys fod Gwenllian wedi bod yn batrwm i Gwerful nid yn unig fel merch yn barddoni, ond hefyd o ran ei pharoddrwydd i sôn am bynciau a ystyridd yn anweddu.'
- 17 Camosodiad n.r = r.n neu *n* wreiddgoll ac *n* berfeddgoll.
- 26 Rhaid rhoi'r orffwysfa ar ôl *Rhyw* er mwyn y gynghanedd.
- 46 **rhull** Ceir dau ystyr i'r gair: 'parod, hael' a 'gorbarod, byrbwyll'. Yr ail ystyr sy'n gweddu orau yma, y mae'n debyg, gw. GPC 3104; GDG³ 450.
- 57 Y mae'r ll. hon yn rhy hir o sillaf, ond gellid hepgor y fannod.
- 58 Y mae'r ll. hon yn rhy hir o sillaf, ond gellid darllen *gal*, fel yn CMOC² 34 (ll. 58).

11

Egyr y gyfres hon o englynion brud gyda Gwerful Mechain yn gofyn i Ddafydd Llwyd pryd y byddai'r byd yn ffynnu drachefn—a oedd gobaith y byddai hynny'n digwydd *ai na bydd?* (llau. 1–4). Nid yw'n syndod ei bod yn gofyn barn Dafydd oherwydd ystyridd ef yn ddaroganwr heb ei ail. Fel y dengys Dr Enid Roberts, y mae'n amlwg ei fod wedi ennill enw iddo'i hun fel proffwyd ymhlith y beirdd.¹ Cyfeiriodd Lewys Glyn Cothi ato fel:

delw Bawl yw a dâl ei bwys,
Daniel Broffwyd o Wennwys.²

¹ Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981, 6.

² GLGC 428 (196.7–8).

Yn ôl Ieuan Dyfi:

Efo'n broffwyd llwyd y llu
Urddasol a rodd Iesu ...
Iechyd i'r proffwyd uchel,
Ac i Fargred seined sêl,³

ac meddai Dafydd ap Howel:

Proffid i feirdd, proffwyd fu,
Pen cenedl, penâig canu.⁴

Etyb Dafydd Llwyd, gan ddarogan buddugoliaeth i'r Cymry pan ddeuai'r *ych*, sef Siasbar Tudur (llau. 5–8). Y mae'n debyg mai sôn am Siasbar Tudur a wna ymhellach drwy gyfeirio at *wr y god* (ll. 8), sef gŵr cyfoethog a hael neu drysorydd. Sut bynnag, cyn dyfod yr arwr cyfoes hwnnw i'w gwaredu rhag gormes y Saeson y mae Dafydd yn proffwydo'r *dinistr* y bydd raid iddynt ei ddiodef cyn ennill eu rhyddid (llau. 9–12). Ymddengys fod ymadroddion megis *rhwng y naw a'r deunaw* (ll. 9) yn hen arwyddion sy'n gyffredin iawn yn y brudiau, er enghraifft, 'deuddeg wragedd', 'pump pennaeth', 'naw gwragedd'. Yna dilyn Dafydd Llwyd hynt y *neidr*, sef y gelyn, a'r *glain*, sef yr arwr, hyd afonydd Colunwy (Clun), Conwy, Efyrnwy a Gwy (llau. 13–16). Digwydd y pedwerydd englyn hwn (sef llau. 13–16) fel pennill cyntaf awdl a briodolir i Lewys Glyn Cothi; ond gwrthodwyd yr awdl honno yng ngolygiad yr Athro Dafydd Johnston o waith Lewys.⁵ Yn ôl Dafydd, câi Gwerful weld buddugoliaeth a llwyddiant y Cymry pan enillai'r Mab Darogan glod ym mrwydr Cyminod wrth erlid y gelyn a dial arno (llau. 17–20). Ni wyddys ym mha le yr oedd Cyminod ond ceir y ffurf Cymunod fel enw lle ger Trefdraeth ym Môn. Yn ôl yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, fodd bynnag, lle ar ffin ddwyreiniol Powys oedd Cyminod.⁶ Cyfeirir dro ar ôl tro at amrywiol frwydrau yn y canu brud megis Cad Cyminod, Cad Cors Fochno a Chad Môn. Yr oedd y brwydrau hyn yn perthyn i ffynhonnell helaeth o gyfeiriadaeth stoc a ddefnyddid yn y canu brud fel symbolau neu ragarwyddion a ddynodai ddyfodiad y Mab Darogan, y Cymro hirddisgwyliedig hwnnw a fyddai'n adennill coron Prydain. Yn ogystal â rhestru brwydrau, y mae'r canu brud yn llawn cyfeiriadau at drychinebau, dinistr a digwyddiadau rhyfeddol, sef yr arwyddion disgwyliedig cyn dyfod y Mab Darogan; y mae hefyd yn llawn symbolau anifeiliaid, er enghraifft, *ych* (ll. 5), *neidr* (llau. 13, 15). Gellir olrhain llawer o'r arwyddion a'r symbolau hyn i destunau penodol megis 'Historia Regum Britanniae' Sieffre o Fynwy. Gallai'r brudwyr yn ogystal dynnu ar y grefydd

³ GDL1 184 (94.41–2, 53–4).

⁴ *Ib.* 188 (97.9–10).

⁵ Gw. LGC 55–7 (XVII) a GLGC xxxvi.

⁶ R. Geraint Gruffydd, 'Why Cors Fochno', THSC, ail gyfres, ii (1996), 7, a gw. GDGor 6.64n.

Gristnogol, oraclau'r Sibyliaid, proffwydoliaethau cyfandirrol, daroganau yn Lloegr a'r Alban, gwybodaeth 'wyddonol' sêr-ddewiniaeth yn ogystal â holl ystôr gyfoethog y deunydd yn y traddodiad brodorol Cymraeg. Er bod cyfran helaeth o'r canu brud yn fwiadol dywyll ac annelwig, ceir math arall o farddoniaeth broffwydol sy'n defnyddio symbolau ac arwyddion arbennig er mwyn cyfeirio at gymeriadau a digwyddiadau cyfoes, deunydd y gellir ei ystyried yn gyfrwng propaganda. Yn y testunau hyn cyfunir nodweddion y brudiau traddodiadol â deunydd cyfoes. Wrth ddefnyddio symbolau ac arwyddion yr oedd y bardd yn tywyllu ystyr y gyfeiriadaeth gan ei ddiogelu ei hun wrth leisio beirniadaeth wleidyddol, ond gellir tybio y byddai'r gynulleidfa yn deall yn dda arwyddocâd y symbolau ac ystyr neges broffwydol y bardd. Yn ôl Syr Glanmor Williams:

The prophetic poems were intended to whip up enthusiasm for a leader of Welsh descent who could claim to be capable of fulfilling those ancient prophecies that forecast victory for a prince of 'British' blood who would regain rule over the island of Britain. If the contender were an established and well-known figure like Edward IV or William Herbert or Jasper Tudor or Rhys ap Thomas, it might not be necessary to conceal support for him. But on those occasions when the object of the poetry intended to set himself up in opposition to established authority and overthrow it, then a veil of obscurity had to be drawn over the plans and their authors. Animal symbolism, secret omens, and portentous prophecies, designed to give an air of greater mystery and significance to the venture, would be freely scattered about the verse.⁷

Yn unol â syniadaeth y brudwyr, y Cymry oedd disgynyddion y Brythoniaid a gwir etifeddion ynys Prydain. Gormeswyd y Brythoniaid gan frad a thwyll y Saeson ond pan ddeuai'r Mab Darogan câi'r Cymry fuddugoliaeth derfynol dros eu gormeswyr, gan adennill coron Prydain a'u hawl gyfiawn i lywodraethu dros eu treftadaeth. Fel y dengys Syr Glanmor Williams:

Fel llawer cenedl arall yn yr un cyflwr chwiliai'r Cymry am fodd i ddehongli'r gorffennol a darganfod y dyfodol trwy gyfrwng dewis *focus* neu *foci* arbennig. Dyna'n union beth ydyw swydd myth yn y cyfnod cyn i hanes ffurfiol ddod i fodolaeth. Mynegwyd y myth yng Nghymru fel mewn llawer gwlad arall trwy gyfrwng barddoniaeth. Y beirdd oedd croniclwyr yr hyn a fu a phroffwydi'r hyn oedd i ddod. Swydd dyngedfennol oedd eu heiddo hwy i'r gymdeithas y perthynent iddi.⁸

⁷ Glanmor Williams, *Recovery, Reorientation and Reformation: Wales c.1415-1642* (Oxford, 1987), 155.

⁸ *Id.*, 'Proffwydoliaeth, prydyddiaeth a pholitics yn yr Oesoedd Canol', *Taliesin*, xvi (1968), 34.

Mynegi gobaith cenedl o weld ailsefydlu'r Oes Aur honedig a wnâi myth y farddoniaeth broffwydol ac yn rhesymegol felly ffynnai brud yn ystod cyfnod o gyni a chyfyngder. Yn ystod y rhyfel cartref rhwng plaid Lancaster a phlaid Iorc yn ail hanner y bymthegfed ganrif canodd Dafydd Llwyd o Fathafarn farddoniaeth frud yn cefnogi achos Edward IV, Iarll Penfro, Siasbar Tudur a Harri Tudur.

Oherwydd hyder angerddol beirdd fel Dafydd Llwyd yr enillodd Harri Tudur ei orsedd. Blynnydoedd o frudio a'i gwnaeth yn anochel fod byddin fawr o Gymry wedi ymuno â Harri i'w hebrwng i fuddugoliaeth Bosworth.⁹

Ond er i Ddafydd Llwyd ganu'r rhan fwyaf o'i frudiau i Harri VII, teyrn-garwch i'r genedl, nid i blaid Lancaster neu blaid Iorc, a oedd yn bwysig iddo ef a'r brudwyr eraill.

Am olygiad arall o'r gerdd hon, gw. GDLI 181 (cerdd 90) (dim ond llau. 1–8 a 17–20 a geir yn y golygiad hwn).

2 **dilwydd** Gellir cynnig y byddai *diwlydd*, sef 'caled, garw, anfwyn', gw. GPC 1059 d.g. *diwlydd*¹, yn ddarlleniad gwell o ran yr odl; fodd bynnag, ni cheir y gair hwn yn y llsgrau. a dim ond dwy enghraifft a geir yn GPC (a'r rheini o'r 12–13g. a'r 14g.). Posibilrwydd arall fyddai diwygio'r ffurf yn *diludd*.

3 Y mae'r ll. yn rhy hir o ddwy sillaf oni chywesgir hi.

5 **ych** Arferid cyfeirio at Siasbar Tudur fel *ych*, gw. R. Wallis Evans, 'Prophetic poetry', GWL ii² 267.

7 Y mae'r ll. yn rhy hir o ddeusill oni chywesgir hi.

8 **yn wâr y god** Ceir y diffiniadau a ganlyn yn GPC 1694: '*wealthy and generous man; treasurer*' neu '*tramp, pedlar, packman; bogey*', gw. GSC 21.5n a GDGor 1.26n.

9 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.

Cynnwys yr englyn hwn y bai trwm ac ysgafn (*dôn'/hon*), gw. J. Morris-Jones: CD 232.

13 **Colunwy** Clun, gw. WATU 47.

16 Y mae'r ll. yn fyr o sillaf ac ni cheir cyghanedd, oni chyfrifir y cytseiniaid yn y gair cyntaf yn rhai gwreiddgoll.

17 Y mae'r ll. yn rhy hir o deirsill oni chywesgir hi.

19 **Cyminod** Sonia llawer o'r beirdd am frwydr Cyminod. Ni wyddys ym mha le yr oedd Cyminod, ond ceir lle o'r enw *Cymunod* yn agos i Drefdraeth ym Môn. Ond cynigir mai lle ar ffin ddwyreiniol Powys oedd Cyminod, gw. R. Morgan, 'The Territorial Divisions of Medieval

⁹ Eurys I. Rowlands, 'Dilid y broffwydoliaeth', *Trivium*, ii (1967), 44.

Montgomeryshire', *Mont Coll* lxxix (1981), 29; R. Geraint Gruffydd, 'Why Cors Fochno', *THSC*, ail gyfres, ii (1996), 7; ac ymhellach GDGor 6.64n; EVW 89; TA 559–60.

12

Cyfres o englynion maswedd a geir yma, sy'n agor ar ffurf cwestiwn neu her gan Ddafydd Llwyd. Gofynnir i Werful, yn llawn ymffrost, a feddai unrhyw ferch wain ddigon hir i ddal ei gal ef. Yn ôl yr Athro Dafydd Johnston:

Court records from the west of England in the early modern period note numerous cases of a man displaying his penis in an attempt to incite a woman to have sexual intercourse with him, and this poem probably indicates that such was also common practice in fifteenth-century Wales. It seems that a situation in which the man is displaying his penis to the woman must be assumed in reading the *englynion* exchanged between Dafydd Llwyd and Gwerful Mechain.¹

Cyfeiria'r Athro Johnston at sylw G.R. Quaife:

The display and manipulation of the male sexual organ was the most common aspect of illicit sexual activity, whether as a substitute for or preliminary to, coition; or as part of general earthy merry-making of some peasant company.

In most reported cases the exposure and, in some of them, subsequent manipulation, of the male privy member was the work of the man concerned. The display was usually limited to one woman and often as an invitation or incitement to coition.²

Yna etyb Gwerful, gan gydnabod maintioli sylweddol cal y bardd drwy ei gymharu â thafod cloch Padarn (ll. 6). Defnyddir y ddelwedd *tafod cloch* gan Ddafydd ap Gwilym yntau er mwyn brolio maintioli ei gal.³ Yn wir, yr oedd yr aelod hwnnw o gorff Dafydd Llwyd yn gaeth i gedor merch ac yn frasach na gwaywfwyell (llau. 7–8). Sylwer bod Gwerful yn ailadrodd y gair *bras* yn bwrpasol yn yr englyn hwn er mwyn pwysleisio maintioli cal Dafydd (llau. 5–8). Ar ôl brolio ei gal, ymetyb Gwerful drwy ei herio a chynnig ei chedor a oedd megis pwll blewog neu gadair er mwyn *dofi* pidyn Dafydd Llwyd (llau. 9–10). Serch hynny, ymddengys mai cynnig amodol oedd hwnnw: *Hwde o doi hyd y din* (ll. 12). Wedi clywed ymffrost Dafydd Llwyd dengys Gwerful nad oedd arni eisiau afradu ei hamser ychwaith.

¹ Dafydd Johnston, 'The erotic poetry of the *Cywyddwyr*', CMCS xxii (Winter 1991), 66.

² G.R. Quaife, *Wanton Wenches and Wayward Wives: Peasants and Illicit Sex in Early Seventeenth Century England* (London, 1979), 165.

³ CMOC² 26 (ll. 34).

Rhaid oedd iddi hithau gael cymar a chanddo gal fawr i'w bodloni. Gellir dweud bod Gwerful yn elwa ar syniadau ac ofnau'r oes am drachwant rhywiol merched oherwydd yn ystod yr Oesoedd Canol credid bod merched yn llawer mwy nwydus na dynion a bod ganddynt chwantau rhywiol anniwall. Y mae'n sicr fod Gwerful yn canu â'i thafod yn ei boch wrth herio Dafydd Llwyd—*hyd baud blin* (ll. 9), *Hwde o doi hyd y din* (ll. 12)—ac efallai yn ceisio codi ofn ar y bardd a thorri ei grib ar ôl clywed ei holl frolio anllad a syrfedus. Yna â Gwerful rhagddi i foli rhinweddau Dafydd Llwyd y *Gwas dewr* â chal hir (llau. 13–16). Diweddir y gyfres ag englyn gan Werful yn dathlu pleserau cyfathrach rywiol ac yn y llinell olaf darlunnir uchafbwynt y weithred rywiol gyda'r ddelwedd *twitsio'r tân* (llau. 17–20). Yn llythrennol ystyr *twitsio'r tân* yw cyffwrdd neu deimlo'r tân, ac awgryma'r Athro Dafydd Johnston fod Gwerful yn cymharu'r gal yn ystod anterth rywiol y corff â chanon neu wn yn cael ei danio.⁴ Wrth drafod cysyniad yr 'unruly woman', dywed G.R. Quaife:

Lower-class women displayed considerable sexuality. Many girls prided themselves on their lustiness and were not backward in praising their sexual prowess. The complaints against old men as husbands, against husbands practising birth control through abstinence and withdrawal, and against men with small privy members illustrate a willingness to express their sexual dissatisfaction. They were ready to praise their own sexual apparatus and proclaim the earthy philosophy that if they were not regularly used they became figuratively covered in thorns and briars.⁵

Awgryma Quaife fod y merched a oedd yn ymddwyn fel yr 'unruly woman' yn perthyn i isddiwylliant arbennig yn y gymdeithas a oedd ohoni yn yr ail ganrif ar bymtheg.⁶ Prin y gellir tybio bod Gwerful Mechain yn perthyn i'r isddiwylliant honedig hwnnw a gysylltir â'r werin datws. Sut bynnag, os oedd isddiwylliant o'r fath yn bodoli yng nghymdeithas Gwerful Mechain y mae'n bosibl fod y beirdd wedi defnyddio a manteisio ar ethos y dosbarth hwnnw fel arf llenyddol. Gellir cynnig, efallai, fod Gwerful wedi mabwysiadu persona yr 'unruly woman' yn ei barddoniaeth faswedus, gan fenthylg llais o'r isddiwylliant hwnnw er mwyn siarad yn fras ac yn blaen am ryw, yn enwedig gan fod Dafydd Llwyd ei hun yn ymddwyn mewn dull mor eithafol ac anwedus yn 'dangos' ei organau rhywiol. Fodd bynnag, awgryma'r Athro Dafydd Johnston mai Dafydd Llwyd a gyfansoddodd yr holl englynion yn y gyfres hon fel ymffrost ac er mwyn gwneud Gwerful yn gyff gwawd.⁷ Y mae hynny'n bosibl ddigon, ond eto, erys y posibilrwydd cryf

⁴ Dafydd Johnston, *art.cit.* 67, n.12; gw. Dylan Foster Evans, '“Y carl a'i trawai o'r cudd”: ergyd y gwn ar y Cywyddwyr', *Dwned*, iv (1998), 75–105, yn enwedig 78, 84.

⁵ G.R. Quaife, *op.cit.* 182.

⁶ *Ib.* 156–8.

⁷ CMO² 40.

mai Gwerful Mechain oedd awdur yr englynion ateb yn hytrach na bod Dafydd Llwyd wedi benthyciad persona y ferch. Yn ôl Natalie Zemon Davis:

In hierarchical and conflictful societies that loved to reflect on the world-turned-upside-down, the *topos* of the woman-on-top was one of the most enjoyed. Indeed, sexual inversion—that is, switches in sex roles—was a widespread form of cultural play in literature, in art, and in festivity. Sometimes the reversal involved dressing and masking as a member of the opposite sex—the prohibitions of Deuteronomy 22, Saint Paul, Saint Jerome, canon law, and Jean Calvin notwithstanding. Sometimes the reversal involved simply taking on certain roles or forms of behavior characteristic of the opposite sex. Women played men; men played women; men played women who were playing men.⁸

Am olygiadau eraill o'r gerdd, gw. GDLI 178 (cerdd 85); CMOC² 40–1 ('Ymddiddan Rhwng Dau Fardd').

- 1 **dywaid** Ffurf 2 un.grech. y f. *dywedud* (drwy gydweddiad â'r ffurf 3 un.pres.myn.), gw. G 431.
Ni cheir cynghanedd yma oni chyfrifir *d, d*, ac *m* yn wreiddgoll.
- 3 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf, oni chyfrifir *llestr* yn ddeusill; ond os gwneir hynny difethir y gynghanedd lusz. Am enghraifft arall o air sy'n cynnwys sillaf gadarnleddf yn unsill ac yn ddeusill yr un pryd, cf. GSH 25.1–2.
- 4 **gannai** Am y f. *genni* 'cael ei gynnwys, cael lle (yn); cynnwys', gw. GPC 1380. Cyfieithir y ll. fel a ganlyn yn CMOC² 41 (ll. 4), '*and a long sheath which would contain this*'.
- 5 **Bras ... bras ...** Dilynir yma ddarllenid y llsgr.; gthg. CMOC² 40 (ll. 5) lle y diwygir y gair cyntaf yn *braisg* er mwyn osgoi'r ailadrodd. Ond gan fod y gair yn cael ei ailadrodd eto yn ll. 7 a ll. 8 (yn y ffurf *brasach*), cymerir bod yma enghraifft o ailadrodd bwriadol.
Ai cynghanedd sain gadwynog bengoll sydd yma?
- castr** Fe'i cyfrifir yn air deusill yma er mwyn hyd y ll., cf. ll. 16n.
- 6 **Padarn** Sant o'r 6g., gw. TWS 121–7. Ni cheir cyfeiriad at ei gloch fel y cyfryw.
- 7 **brusner** Ni restrir y ffurf yn GPC 334, ond awgrymir yn betrus mai benthyciad ydyw o'r *S. prisoner*. Am enghreifftiau eraill o *S. p-* > Cym. *b-*, cf. *prologue* > *brolog*; *potatoes* > *bwytatwys*; *parley* > *barli*, a gw. EEW 220.
- 8 **membr** Fe'i cyfrifir yn air deusill yma er mwyn hyd y ll.

⁸ Natalie Zemon Davis, *Society and Culture in Early Modern France* (London, 1975), 129.

- 13 **haf atad** O'r S. *have at*; yn CMOC² 41 cyfieithir y ll., '*Have at you, sincere love, youth, / what's not seen is to be despised.*'
- 15 Ni cheir cynghanedd yma onid ystyrir *d, fac n* yn wreiddgoll.
- 16 **castr** Fe'i cyfrifir yn air deusill yma er mwyn hyd y ll., cf. ll. 5n.
- 19 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf; gellid dileu'r cys. *A*, a thrwy hynny gadw'r cymeriad yn nhair ll. gyntaf yr englyn.
- 20 **twitsio** Ai 'cyffwrdd, teimlo' (o'r S. *touch*) a olygir yma? Gw. EEW 215; GST i, 741; GPC d.g. *twtsiaf*: *twtsio* (i ymddangos) a'r nodyn cefndir uchod. Gellir awgrymu felly fod *twitsio*'r *tân* yn golygu rhoi *tân* wrth bowdwr gwn yma (a hynny mewn cyswllt ffigurol, wrth gwrs); cf. *touch powder* OED² 301.

13

Tebyg iawn yw dechrau'r ail gyfres hon o englynion brud i'r modd yr agorir y gyfres gyntaf (cerdd 11). Gofyn Gwerful i'r bardd-broffwyd Dafydd Llwyd pa bryd y ceir undod a buddugoliaeth i'r genedl (llau. 1–4), gan fynd rhagddi i adleisio gobaith y brudwyr am ddyfodiad yr *aer*, sef y Mab Darogan a ddeuai i *ledio*, sef arwain, y Cymry i fuddugoliaeth (llau. 5–6). Sylwer bod Gwerful, wrth gyfeirio at *Rufain* (ll. 4) a'r iaith *Ladin* (ll. 5), yn tynnu sylw at hen draddodiad mai Cadwaladr oedd y Cymro olaf i wisgo coron Prydain. Yn ôl proffwydoliaeth yn 'Historia' Sieffre o Fynwy bu Cadwaladr farw yn Rhufain a'i gladdu yno. Ond cyn iddo farw, dywedodd angel wrtho na châi neb o'i ddisgynyddion, sef y Cymry, wisgo coron Prydain nes dychwelyd ei esgryn i Gymru. Yn ogystal, gellir cynnig bod Gwerful wrth grybwyll *Dulyn* (ll. 7) yn cyfeirio at symbol y Mab Gwyddelig: yn ôl y canu darogan, ddi gŵr o Iwerddon i achub y genedl gan ddial ar y Saeson ac adfer coron Lloegr i'r Cymry (llau. 7–8).¹ Yn y ddau englyn olaf pentyrrir yr holl bethau rhyfeddol a fyddai'n digwydd cyn dyfodiad y Mab Darogan ar *Sadwrn Pasg Bychan* (ll. 10), sef y Sul yn dilyn Sul y Pasg. Ystyrir pethau megis gweddau'r lleuad, tanau anarferol, rhyfeloedd a rhyfeddodau ar y môr oll fel rhagarwyddion pendant yn y canu proffwydol.

Am olygiad arall o'r cywydd, gw. GDLI 177 (cerdd 82).

1–4 Cynnwys yr englyn hwn y bai gwestodl (*hiaith/iaith*), gw. J. Morris-Jones: CD 306. Tybed na ddylid darllen *mawr waith* yn ll. 3?

- 1 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf.
- 2 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi.
- 3 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi.

¹ R. Wallis Evans, 'Canu darogan: testunau amrywiol', B xxxvi (1989), 88–9.

- 5–8 Cynnwys yr englyn hwn y bai trwm ac ysgafn (*dyn/hyn*), gw. J. Morris-Jones: CD 232.
- 5 **aer** Dichon mai cyfeiriad sydd yma at y Mab Darogan, sef Siasbar neu Harri Tudur.
- 7 **pan lygrer Dulyn** Anodd yw dewis rhwng y darlleniad *lygrer* yma a darlleniad llsg. (B) *losger*. Am gyfeiriadau pellach at losgi neu dministrio Dulyn trwy dân, gw. GDGor 7.41n.
- 8 Ni cheir cynghanedd yma oni chyfrifir y ddau air cyntaf yn wreiddgoll.
- 10 **Pasg Bychan** Y Sul ar ôl Sul y Pasg, gw. GPC 2698.
- 11 **Iyfan** Ffurf ar *Ieuan*. Ceid dwy wyl Ieuan, sef Gŵyl Ieuan Fedyddiwr (24 Mehefin) a Gŵyl Ieuan Ebostol (27 Rhagfyr), gw. GPC 1759 d.g. *gŵyl*¹.
- 13 Bai crych a llyfn, gw. J. Morris-Jones: CD 146–7. Y mae'r ll. hefyd ddeusill yn rhy hir oni chywesgir hi.
- 15 **ar naw** Y mae ystyr y ll. hon yn dywyll, ond dichon mai cyfeiriadaeth frudiol sydd yma ac yn y ll. ddilynol. Am *ar naw(f)* 'afloat, floating, flying, also fig.', gw. GPC 2557.
- 16 Ni cheir cynghanedd yma oni chyfrifir yr *dd* yn *gwiddanod* yn berfeddgoll; gw. y Rhagymadrodd uchod td. 22.

14

Ymddengys yr englyn cyntaf yma yn amrywiad ar y trydydd englyn a geir yn yr 'Ymddiddan rhwng Dafydd Llwyd a Gwerful Mechain' (cerdd 12). Dywed Gwerful y câi Dafydd Llwyd *bydew blew* i'w gal a chadair i'w geilliau pe deuai *hyd y din*, hynny yw, ar yr amod fod ganddo'r modd a'r gallu i'w llenwi a'i bodloni (llau. 1–4). Yna etyb Dafydd Llwyd drwy ddweud bod ganddo gal megis pastwn a dwygauill anferth i *ruthro*, sef i ymosod ar gedor merch (llau. 5–6). Yn wir, awgryma Dafydd y byddai cyfarpar o'r fath, oherwydd ei faint, yn peri i hollt droi'n ogof (llau. 7–8). Unwaith eto gellir awgrymu bod Gwerful Mechain yn mabwysiadu agwedd y ferch nwydus a ymhyfrydai yng ngrym ei thrachwant rhywiol, fel y gwnâi'r merched hynny a oedd yn cydymffurfio ag ystrydeb yr 'unruly woman', er mwyn herio agwedd ymosodol a ffeidd-dra sylwadau Dafydd Llwyd ac ehangu gorwelion y canu maswedd, gan ennill troedle diamheul i lais y ferch o fewn y *genre* hwnnw.

- 2 **gwedde** Sylwer ar y ffurf lafar; cf. uchod 4.15n (ond nid yw'r odl yma'n mynnu'r ffurf).
- 3 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi drwy hepgor y rh.pth.
- 4 Y mae'r ll. hon eto yn rhy hir o sillaf.

- 5 Ni cheir cyfatebiaeth gyflawn rhwng y gair cyrch a'r ll. nesaf; gwelir yr un nodwedd yn rhai o englynion Gwerful Mechain, gw. y Rhagymadrodd uchod, td. 21.
- 7 Cynghanedd wreiddgoll gydag *r* berfeddgoll, gw. J. Morris-Jones: CD 199–200.
- trecs** Ffurf l. *trec* yn yr ystyr 'cal (a cheilliau)', gw. GPC 3571 d.g. *trec*¹.

15

